Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WG55173

Llywodraeth Cymru

Galwad am gyflwyniadau ar ddyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: Adroddiad llawn ar y dadansoddiad thematig

Hydref 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 ISBN ddigiol **978-1-80853-534-5**

Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori:
Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: 5 her a galwad am gyflwyniadau | LLYW.CYMRU

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 5
1.1 Cefndir 5
1.2 Dull dadansoddi 5
1.3 Prif ganfyddiadau 6
1.6 Cynaliadwyedd ariannol 9
1.7 Newid demograffig a dysgu gydol oes 10
1.8 Cystadleuaeth a chydweithio 11
1.9 Meysydd lle ceir cysondeb, anghysondeb a thensiwn 12
2. Cyflwyniad 13
2.1 Cefndir yr Alwad am Gyflwyniadau 13
2.2 Y cyflwyniadau ysgrifenedig 13
2.3 Pwrpas yr adroddiad hwn 14
2.4 Cwmpas yr adroddiad 14
2.5 Goblygiadau cyffredinol sy'n codi o'r cyflwyniadau 15
3. Methodoleg 16
4. Canfyddiadau trawsbynciol 16
4.1 Roedd cyfranogiad yn cael ei drafod yn gyffredin mewn perthynas â dilyniant, cymorth a llwybrau 16
4.2 Nododd y cyflwyniadau bwysau o ran cyllid a chostau ar draws nifer o feysydd heriol 17
4.3 Roedd y cyflwyniadau'n gwerthfawrogi hyblygrwydd ond yn cwestiynu a yw'r trefniadau presennol yn ei gefnogi 17
4.4 Roedd cefnogaeth eang i gydweithio, ond roedd y cyflwyniadau'n nodi rhwystrau strwythurol 17
4.5 Mynediad lleol yn seiliedig ar leoedd 18
4.6 Newidiadau digidol a deallusrwydd artiffisial yn themâu sy'n dod i'r amlwg 18
5.2 Trafodwyd cyfranogiad mewn perthynas â dilyniant, llwybrau a chymorth i ddysgwyr 19
5.3 Cefndiroedd dysgwyr a phroffiliau mynediad 19
5.4 Llwybrau rhwng yr ysgol, AB, prentisiaethau, AU a chyflogaeth 20
5.5 Addasrwydd llwybrau 21
5.6 Mynediad, tegwch a chyfranogiad i ddysgwyr hyd at 18 oed 22
5.7 Patrymau cyfranogi mewn AB, AU, dysgu rhan-amser a dysgu aeddfed 23
5.8 Cyfranogiad a thargedau yn y dyfodol 24

5.9 Cyfranogiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog 25
5.10 Tensiynau 26
5.11 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau 27
5.12 Meysydd a awgrymwyd i'w hystyried o ran polisi 28
6. Her 2: Cymunedau a'r economi 29
6.2 Cysoni â'r farchnad lafur 29
6.3 Deilliannau a data 30
6.4 Ymchwil, arloesi a buddsoddi 32
6.5 Arbenigo a chlystyru rhanbarthol 33
6.6 Deallusrwydd artiffisial a newid technolegol 34
6.7 Tensiynau 36
6.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau 37
6.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi 37
7. Her 3: Cynaliadwyedd ariannol 38
7.2 Rhwystrau ariannol a chymorth i ddysgwyr 38
7.3 Pwysau o ran costau a heriau cynaliadwyedd 40
7.4 Effeithlonrwydd, modelau darparu ac arbedion cost. 42
7.5 Deilliannau a manteision buddsoddi mewn addysg drydyddol 44
7.6 Buddsoddiad cyfalaf a seilwaith 45
7.7 Tensiynau 46
7.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau 47
7.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi 48
8. Her 4: Newid demograffig a dysgu gydol oes 49
8.2 Newid demograffig a pharodrwydd systemau 49
8.3 Rhwystrau rhag dysgu gydol oes 50
8.4 Dysgu hyblyg 52
8.5 Anghenion sgiliau oedolion 53
8.6 Polisïau a blaenoriaethau dysgu oedolion 55
8.7 Tensiynau 56
8.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau 57
8.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi 58
9. Her 5: Cystadleuaeth a chydweithio 58
9.2 Y ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi cydweithio 58
9.3 Cydweithio ar draws sectorau 60

9.4 Deinameg y farchnad a chystadleuaeth 62
9.5 Diogelu darpariaeth, pynciau a phontio 63
9.6 Strwythur a risgiau'r farchnad AU 65
9.7 Tensiynau 67
9.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau 68
9.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi 68
10. Atodiadau 69
Atodiad F: Cronfa dyfyniadau 69

Crynodeb Gweithredol

1.1 Cefndir

1.1. Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur tystiolaeth ar ddyfodol addysg drydyddol yng Nghymru. Roedd y papur yn canolbwyntio ar bum maes her: cyfranogiad; newid demograffig a dysgu gydol oes; cynaliadwyedd ariannol; cystadleuaeth a chydweithio; a chyflawni dros gymunedau a'r economi.

1.1.2 Gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau a rhanddeiliaid ar draws y sector. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno synthesis disgrifiadol o 76 o gyflwyniadau i'r Alwad am Gyflwyniadau ar Ddyfodol y System Addysg Drydyddol yng Nghymru.

1.1.3 Mae'r adroddiad yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd yn y cyflwyniadau. Nid yw'n cynrychioli barn y sector yn ei gyfanrwydd, yn asesu rhinweddau cyflwyniadau unigol nac yn gwneud argymhellion o ran polisi. Mae'n nodi'r meysydd lle ceir cytundeb ac anghytundeb a'r prif themâu sy'n deillio o'r cyflwyniadau a ddaeth i law.

1.2 Dull dadansoddi

1.2.1 Cynhaliwyd dadansoddiad thematig diddwythol gan ddefnyddio strwythur yr Alwad am Gyflwyniadau fel y fframwaith dadansoddol. Mae hyn yn golygu bod yr ymatebion wedi cael eu grwpio o dan y cwestiynau a ofynnwyd yn yr alwad, ac yna eu hadolygu i nodi'r themâu sy'n codi dro ar ôl tro, safbwyntiau a rennir a phwyntiau lle ceir anghytundeb.

1.2.2 Yn ogystal ag archwilio pob maes her ar wahân, roedd y dadansoddiad yn edrych ar faterion sy'n torri ar draws nifer o themâu er mwyn rhoi dealltwriaeth ehangach o'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan sefydliadau ar ddatblygiad y system addysg drydyddol yng Nghymru yn y dyfodol.

1.3 Prif ganfyddiadau

1.3.1 Ar draws pob maes her, roedd y cyflwyniadau'n disgrifio system addysg drydyddol sy'n wynebu pwysau sylweddol o ran cyllid, demograffeg a'r gweithlu, ochr yn ochr â disgwyliadau cynyddol i gefnogi datblygiad economaidd, cynhwysiant cymdeithasol a dysgu gydol oes.

1.3.2 Cyllid oedd un o'r pryderon a godwyd amlaf. Roedd y cyflwyniadau'n tynnu sylw at gostau cynyddol i ddysgwyr a darparwyr, pryderon ynghylch digonolrwydd a sefydlogrwydd trefniadau cyllido, ac effaith pwysau ariannol ar fynediad, ansawdd, cymorth i ddysgwyr a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.

1.3.3 Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch y ffaith bod angen llwybrau cliriach i ddysgwyr, cyfleoedd cryfach ar gyfer dilyniant a mathau mwy hyblyg o ddysgu, gan gefnogi dysgwyr drwy gydol eu taith addysgol ac yn nes ymlaen mewn bywyd.

Roedd y cyflwyniadau hefyd yn disgrifio cyfaddawd rhwng hyblygrwydd a chydlyniad. Roedd llwybrau aflinol, llwybrau modiwlaidd a llwybrau seiliedig ar waith yn cael eu gwerthfawrogi ar gyfer ehangu mynediad, ond dywedodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru (SO01) fod y system yn 'gymhleth ac yn anodd ei defnyddio, gyda llwybrau aneglur rhwng gwahanol fathau a lefelau o ddarpariaeth'; dywedodd VTCT Skills (WBL02) fod llawer o ddysgwyr yn cyrraedd y coleg heb ddealltwriaeth glir o lwybrau galwedigaethol'; a dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW) (WBL03) 'nad yw'r system bresennol wedi'i chynllunio ar gyfer dysgu hyblyg, modiwlaidd na dysgu pob oed'.

1.3.4 Roedd cydweithio'n cael ei ystyried yn hanfodol yn gyffredinol er mwyn sicrhau llwybrau cliriach i ddysgwyr, cyfleoedd cryfach ar gyfer dilyniant a mathau mwy hyblyg o ddysgu. Roedd llawer o'r cyflwyniadau'n cefnogi cydlynu cryfach ar draws darparwyr, cyflogwyr a chymunedau i wella profiadau dysgwyr, defnyddio adnoddau'n well ac ymateb yn fwy effeithiol i flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Fodd bynnag, tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at densiynau rhwng cydweithio a threfniadau atebolrwydd a chyllido cystadleuol.

1.3.5 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn pwysleisio tegwch a mynediad. Nodwyd bod rhwystrau ariannol, trafnidiaeth, llesiant, anghenion dysgu ychwanegol a mynediad daearyddol anwastad at ddarpariaeth yn ffactorau sy'n effeithio ar gyfranogiad a dilyniant, ochr yn ochr â phwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a mynediad lleol. Roedd y cyflwyniadau'n disgrifio cyfaddawd rhwng diogelu mynediad lleol a chrynhoi darpariaeth ar gyfer hyfywedd neu arbenigedd. Dywedodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) fod 'angen darpariaeth gymunedol ar ddysgwyr gwledig, nid opsiynau campws pell yn unig', a rhybuddiodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) (RPB08) y gallai crynhoi darpariaeth mewn sefydliadau neu leoliadau penodol 'greu rhwystrau i ddysgwyr, yn enwedig y rheini sy'n llai symudol yn ddaearyddol neu sy'n dibynnu ar ddarpariaeth leol'. Dywedodd Natspec (TS01) nad oedd dysgwyr yn gallu dechrau rhaglenni astudio y cytunwyd arnynt oherwydd diffyg trafnidiaeth, a

nododd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) (RB08) y gall heriau yn ymwneud â thrafnidiaeth 'gael effaith fawr ar ddewisiadau pobl ifanc'.

1.3.6 Wrth edrych i'r dyfodol, nododd y cyflwyniadau gyfleoedd i gryfhau'r system drwy fwy o hyblygrwydd, gwell cydweithio, cysylltiadau cryfach â chyflogwyr a chymunedau, a chynllunio tymor hir mwy cydlynol. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer y byddai cyflawni'r uchelgeisiau hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, cyfeiriad strategol cliriach a threfniadau cyllido sy'n cefnogi'r dysgwyr a'r darparwyr, a bod yr uchelgeisiau hyn yn defnyddio'r un adnoddau cyfyngedig. Yn ôl Prifysgolion Cymru (RB09) 'y tu hwnt i bwynt penodol, rhaid gostwng niferoedd neu ailstrwythuro'r ddarpariaeth yn sylfaenol er mwyn gwneud rhagor o arbedion. Bryd hynny, cwtogi y byddwn ni, nid bod yn effeithlon', ac felly mae'r 'gallu i wneud rhagor o arbedion cost nad ydynt yn amharu yn gyfyngedig iawn'. Codwyd tensiynau rhwng cymorth i ddysgwyr a chynaliadwyedd sefydliadol, rhwng effeithlonrwydd ac ansawdd, a rhwng uchelgeisiau ar gyfer mwy o gyfranogiad a thwf cyfrwng Cymraeg a'r adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi. Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) hefyd fod y gronfa bosibl o ddysgwyr sy'n gallu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog 'yn lleihau'.

1.3.7 Roedd llawer o'r cyflwyniadau gan ddarparwyr addysg a'r diwydiant yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i ddarpariaeth sgiliau, hyfforddiant ac addysg drydyddol gyd-fynd â strategaeth economaidd ehangach Cymru ac anghenion y farchnad lafur. Dywedodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) fod yn rhaid i 'fuddsoddiad cyhoeddus flaenoriaethu' rhaglenni technegol a galwedigaethol sy'n cyd-fynd â strategaeth economaidd Cymru, iechyd a gofal cymdeithasol, peirianneg a thechnolegau gwyrdd, uwchsgilio digidol, sgiliau sylfaenol oedolion a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at economïau rhanbarthol ac at glystyru, gan gyfeirio at berthnasedd darpariaeth sgiliau ar lefel ranbarthol ac yn lleol yn ogystal ag yn genedlaethol.

1.3.8 Ar draws y meysydd her cyfranogiad a chymunedau a'r economi, roedd y cyflwyniadau'n galw'n rheolaidd am dystiolaeth gryfach ar lwybrau, cyrchfannau a deilliannau dysgwyr. Roedd y galwadau hyn yn cynnwys gwell dulliau tracio hydredol, mesurau ehangach o werth y tu hwnt i enillion yn unig, a dadansoddiad wedi'i ddadgyfuno ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Yn ôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) Cymru (EI01) roedd 'darlun anghyflawn o gyrchfannau dysgwyr, gan gyfyngu ar y gallu i asesu effeithiolrwydd y system'; galwodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) am 'dracio dysgwyr ar draws y system gyfan' mewn ysgolion, addysg bellach (AB), addysg uwch (AU) a dysgu seiliedig ar waith; galwodd Prifysgol De Cymru (HE02) am dracio 'ble mae graddedigion yn gweithio ac ym mha sectorau'; nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (RPB03) fylchau sylweddol mewn data a galwodd am well cysylltedd a defnydd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC), Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA); a nododd Natspec (TS01) fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru 'gasglu data gwell am gyrchfannau'.

1.4 Cyfranogiad

1.4.1 Roedd y cyflwyniadau'n disgrifio cyfranogiad fel mynediad, cadw myfyrwyr, dilyniant a deilliannau, nid dim ond y niferoedd sy'n cofrestru.

1.4.2 Roedd y prif rwystrau'n cynnwys pwysau ariannol, costau trafnidiaeth, heriau o ran llesiant ac anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn disgrifio gwahaniaethau o ran mynediad rhwng lleoliadau a rhwng grwpiau dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dysgwyr â nodweddion gwarchodedig, plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc, lle nododd y cyflwyniadau fylchau mewn data a chymorth (RPB03, FE05, TU02).

1.4.3 Roedd y cyflwyniadau'n disgrifio pwysigrwydd llwybrau dilyniant clir, cymorth parhaus i ddysgwyr a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg cryfach drwy gydol taith y dysgwr.

1.4.4 Galwodd llawer hefyd am gymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli gan nodi y dylid rhoi sylw i rwystrau sy'n codi ar wahanol gamau o gyfranogiad. Roedd pwyslais y cyflwyniadau'n amrywio o ran yr hyn y dylai polisi cyfranogiad ei flaenoriaethu. Rhybuddiodd VTCT Skills (WBL02) y gallai 'gwthio am gyfranogiad sylweddol uwch gan bobl ifanc 18 oed amser llawn fynd ati'n anfwriadol i danseilio cynnydd o ran ehangu mynediad, lleihau hyblygrwydd, a gwanhau llwybrau addysg uwch galwedigaethol lleol', tra bod Cyngor Bro Morgannwg (LA02) yn awgrymu cynyddu 'cyrhaeddiad Lefel 3 yn gyntaf, yn enwedig i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim'. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn amrywio o ran targedau cyfranogiad: galwodd y Cyngor Athrawon Peirianneg (RB07) am dargedau sy'n cyd-fynd â'r galw am sgiliau a ragwelir, tra dywedodd NTFW (WBL03) 'na all targedau cyfranogiad ar sail oedran yn unig gynyddu'n ystyrlon y nifer sy'n cymryd rhan', dywedodd Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru (RB12) 'er mwyn cyflawni targedau cyfranogiad, fod yn rhaid mynd i'r afael yn gyntaf â rhwystrau strwythurol sy'n effeithio ar fynediad at addysg', a dywedodd Estyn (RPB02) fod yn rhaid i gamau diwygio 'flaenoriaethu ansawdd, dilyniant a chynaliadwyedd dros dargedau cyfranogiad yn unig'.

1.5 Cymunedau a'r economi

1.5.1 Roedd y cyflwyniadau'n pwysleisio cyfraniad addysg drydyddol at dwf economaidd, datblygu'r gweithlu, gwasanaethau cyhoeddus, llesiant cymunedol a ffyniant rhanbarthol.

1.5.2 Roedd cefnogaeth gref i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd yn agosach â'r farchnad lafur ar yr un pryd â chynnal ffocws eang ar ddeilliannau cymdeithasol, diwylliannol a llesiant. Roedd y cyflwyniadau felly'n disgrifio cyfaddawd rhwng mesurau marchnad lafur mwy cul a manteision cyhoeddus a chymunedol ehangach, yn enwedig lle mae deilliannau'n cael eu hasesu'n bennaf drwy enillion. Dywedodd

Grŵp Colegau NPTC (FE06) fod yn rhaid i 'fuddsoddiad cyhoeddus flaenoriaethu' rhaglenni technegol a galwedigaethol sy'n cyd-fynd â strategaeth economaidd Cymru, iechyd a gofal cymdeithasol, peirianneg a thechnolegau gwyrdd, uwchsgilio digidol a sgiliau sylfaenol oedolion. Galwodd Prifysgol De Cymru (HE02) am 'gymhellion sy'n gwobrwyo effaith gymdeithasol, fel mynd i'r afael â diffygion sgiliau rhanbarthol, yn hytrach na dibynnu'n bennaf ar recriwtio, dilyniant llinol a metrigau cwblhau'; dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod yn rhaid i 'fesurau effaith economaidd ymestyn y tu hwnt i ddeilliannau cyflogaeth yn unig'; ac roedd y Rhwydwaith Cyfleoedd Addysg Cenedlaethol (NEON) (TS02) yn annog 'manteision ehangach addysg i gael eu hystyried uwchlaw deilliannau'r farchnad lafur'.

1.5.3 Ystyriwyd bod ymchwil, arloesi a newid technolegol yn gyfleoedd pwysig i'r sector, er bod ymatebwyr hefyd wedi nodi heriau sy'n ymwneud â chapasiti, cynhwysiant a llywodraethiant.

1.5.4 Pwysleisiodd llawer o'r cyflwyniadau bwysigrwydd partneriaethau cryf rhwng darparwyr, cyflogwyr a chymunedau i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn ymatebol i amodau economaidd a thechnolegol sy'n newid. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn disgrifio cyfaddawd rhwng arbenigedd a mynediad lleol. Dywedodd CITB Cymru (EI01) y gall 'clystyru darpariaeth sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chryfhau cysylltiadau rhwng addysg a chyflogaeth', ac roedd NTFW (WBL03) yn cysylltu cydweithio ac arbenigedd â mwy o effeithlonrwydd drwy lai o ddyblygu ac â diogelu pynciau sydd mewn perygl. Ar yr un pryd, rhybuddiodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (RPB08) y gallai mwy o grynhoi greu rhwystrau i ddysgwyr sy'n llai symudol yn ddaearyddol. Rhybuddiodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) hefyd 'os bydd arbenigedd yn cael ei wthio'n rhy bell, efallai y bydd gan ranbarthau lai o ddarparwyr, llwybrau prentisiaeth cyfyngedig, llai o gystadleuaeth a dewis gwannach i ddysgwyr yn y pen draw'.

1.6 Cynaliadwyedd ariannol

1.6.1 Codwyd cynaliadwyedd ariannol fel pryder ar draws pob maes her.

1.6.2 Roedd y cyflwyniadau'n tynnu sylw at gostau gweithredu cynyddol i ddarparwyr a chostau cynyddol i ddysgwyr, gan gynnwys trafnidiaeth, gofal plant, cyfarpar, cyflogau prentisiaeth isel a phwysau costau byw ehangach. Roedd y cyflwyniadau'n disgrifio'r costau hyn fel rhai sy'n effeithio nid yn unig ar gyfranogiad pobl, ond hefyd ar ble a beth maen nhw'n ei astudio.

1.6.3 Cefnogwyd arbedion effeithlonrwydd a chydweithio yn gyffredinol, gyda nifer o'r cyflwyniadau'n cyfeirio at wasanaethau a rennir, caffael, cynllunio cydgysylltiedig a chydnabod dysgu blaenorol. Fodd bynnag, rhybuddiodd sawl cyflwyniad nad yw'r cyfaddawdau hyn yn niwtral: dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) y tu hwnt i bwynt penodol 'mai cwtogi sy'n digwydd ac nid bod yn effeithlon'; dywedodd NTFW (WBL03) 'na ellir symleiddio cymorth un-i-un heb effaith negyddol'; dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) 'na ellir gostwng niferoedd staffio ymhellach heb

niweidio'r cymarebau myfyrwyr-i-staff'; nododd RCN Cymru (RB12) fod yn rhaid i'r ddarpariaeth nyrsio gydymffurfio â gofynion cymeradwyo'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan gyfyngu ar i ba raddau y gellir ei newid; dywedodd NEON (TS02) ei bod yn 'anodd gweld sut gellid sicrhau arbedion cost pellach heb gael effaith uniongyrchol ar ddewisiadau'r dysgwyr a phrofiad y myfyrwyr'; yn ôl Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) 'nid oes unrhyw gyfleoedd i arbed costau' ym maes dysgu oedolion a'r gymuned; a dywedodd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (HE09) mai 'ateb dros dro yw lleihau costau yn unig'.

1.6.4 Dywedodd nifer o'r cyflwyniadau y byddai angen buddsoddiad hirdymor a mwy o sicrwydd o ran cyllid er mwyn cynnal y ddarpariaeth, cefnogi arloesi ac ymateb i'r galw yn y dyfodol.

1.7 Newid demograffig a dysgu gydol oes

1.7.1 Roedd y cyflwyniadau'n tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r system drydyddol addasu i newid demograffig, gofynion newidiol y gweithlu a'r galw cynyddol am gyfleoedd dysgu gydol oes.

1.7.2 Cefnogwyd dysgu hyblyg, dysgu modiwlaidd a dysgu seiliedig ar waith yn eang fel mecanweithiau ar gyfer cefnogi uwchsgilio ac ailsgilio drwy gydol bywyd.

1.7.3 Nodwyd rhwystrau sylweddol i gyfranogiad oedolion, yn enwedig mewn perthynas â chyllid, hygyrchedd, ymwybyddiaeth a chymhlethdod y system. Nododd y cyflwyniadau hefyd fod y trefniadau ariannu, rheoleiddio a chymhwysedd presennol yn aml yn cyd-fynd yn well â llwybrau llinol, amser llawn nag y maent â dysgu hyblyg, modiwlaidd neu gymunedol. Dywedodd NTFW (WBL03) 'nad yw'r system bresennol wedi'i chynllunio ar gyfer dysgu hyblyg, modiwlaidd na dysgu pob oed'; dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod 'rhagdybiaethau cyllido a chynllunio cyfredol ar draws y system yn dal wedi'u pwysoli'n anghymesur tuag at gyfranogiad ifanc, amser llawn'; a chododd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) bryder ynghylch 'trefniadau contractio blynyddol, sy'n creu ansicrwydd sylweddol'.

1.7.4 Roedd y cyflwyniadau'n aml yn pwysleisio pwysigrwydd cyfleoedd dysgu y gellir eu cyfuno â chyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu ac ymrwymiadau eraill. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn disgrifio tensiwn rhwng diogelu'r ddarpariaeth 16 i 18 oed ac ymateb i'r galw cynyddol gan oedolion, ochr yn ochr â chapasiti cyfyngedig o ran cyflogwyr. Dywedodd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes (NCUB) (RB03), o ystyried 'y gyfran uchel o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, efallai mai cyfyngiadau capasiti a llai o fuddsoddiad yw'r rhwystr mwyaf i'r galw am ddysgu gydol oes', a nododd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod 'gallu cyflogwyr i ryddhau staff' yn rhwystr. Roedd y cyflwyniadau'n amrywio ymhellach o ran sut roeddent yn fframio newid demograffig ei hun. Dywedodd ColegauCymru (RB15) y bydd y 'gostyngiad demograffig mewn pobl ifanc yn effeithio ar y niferoedd cyffredinol yn y tymor hwy' ac y bydd 'poblogaeth sy'n heneiddio a bywydau gwaith hirach yn arwain at alw cynyddol am ddysgu i oedolion', Nododd ACT Training (FE03) y gallai

'gostyngiad demograffig ddwysáu'r gystadleuaeth dros y degawd nesaf'. Roedd y cyflwyniadau eraill, gan gynnwys Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (SCH01) a Choleg Catholig Dewi Sant (FE09), yn cyfeirio yn lle hynny at 'newid demograffig, gyda nifer cynyddol o bobl ifanc 16 oed yng Nghymru'.

1.8 Cystadleuaeth a chydweithio

1.8.1 Roedd cydweithio'n cael ei ystyried yn hanfodol i gynnal mynediad, cefnogi dilyniant a defnyddio adnoddau'n effeithiol ar draws y system drydyddol.

1.8.2 Nododd y cyflwyniadau densiynau rhwng uchelgeisiau cydweithredol a phwysau cystadleuol sy'n cael eu creu gan drefniadau presennol ar gyfer cyllido, atebolrwydd a pherfformiad a recriwtio. Disgrifiodd sawl cyflwyniad y rhwystrau hyn fel rhai strwythurol yn hytrach na diffyg parodrwydd i gydweithio. Dywedodd CITB Cymru (EI01) y gall 'strwythurau cyllido ac atebolrwydd atgyfnerthu ymddygiad cystadleuol yn hytrach na chydweithio'; dywedodd NTFW (WBL03) fod y 'system bresennol yn creu rhwystrau strwythurol i gydweithio, er gwaethaf parodrwydd cryf ar draws y sector'; a dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) mai'r 'rhwystr mwyaf sylweddol rhag cydweithio yw nid amharodrwydd sefydliadol, ond anghysondeb strwythurol o fewn y system'.

1.8.3 Codwyd pryderon hefyd ynghylch cynaliadwyedd darpariaeth strategol bwysig, arbenigol a chyfrwng Cymraeg.

1.8.4 Er bod cefnogaeth eang i gydweithio, mynegodd ymatebwyr safbwyntiau gwahanol ynghylch sut dylid cymell, cydlynu a llywodraethu gweithgarwch cydweithredol. Disgrifiodd rhai cyflwyniadau bwysau cystadleuol fel cyfyngu ar gynllunio ac arweiniad diduedd: dywedodd Coleg Gwent (FE08) 'nad yw rhai darparwyr yn rhoi cyngor ac arweiniad diduedd mewn ymgais i gadw eu dysgwyr'; nododd Gyrfa Cymru (RPB04) y gall ysgolion sydd â chweched dosbarth fod 'yn amharod i hyrwyddo opsiynau coleg', sy'n 'gallu cyfyngu ar ddewis gwybodus a gwneud canllawiau diduedd yn fwy heriol'; a dywedodd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol (TS04) y gall 'cystadleuaeth heb ei chymedroli waethygu haenu sefydliadol ac anghydraddoldebau rhanbarthol'. Roedd y cyflwyniadau eraill yn nodi manteision dewis a chystadleuaeth: dywedodd Gyrfa Cymru (RPB04) hefyd 'fod budd o hyd mewn cystadleuaeth gytbwys am gynigion ôl-16 tebyg', yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mai un darparwr fyddai'r unig ddewis fel arall; nododd Prifysgolion Cymru (RB09) mai 'un o brif fanteision system heb ei chapio, sy'n cael ei harwain gan alw yw ei bod yn lleihau dogni ar yr ochr gyflenwi'; a dywedodd Educ8 Training (WBL01) 'fod y system heb ei chapio yn cefnogi mynediad ond yn cynyddu cystadleuaeth a phwysau ariannol ar sefydliadau'. Dywedodd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (HE09) 'na all cydweithio ddigwydd ar draul annibyniaeth sefydliadol'.

1.9 Meysydd lle ceir cysondeb, anghysondeb a thensiwn

1.9.1 Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch yr angen am lwybrau cliriach i ddysgwyr, cymorth cryfach i ddysgwyr, mwy o hyblygrwydd a gwell cydlyniad ar draws y system addysg drydyddol.

1.9.2 Rhannodd yr ymatebwyr hefyd bryderon am gynaliadwyedd ariannol a chytunwyd yn gyffredinol y dylai trefniadau cyllido adlewyrchu'n well y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwahanol fathau o ddarpariaeth a chefnogi gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

1.9.3 Roedd gwahaniaethau mewn pwyslais yn fwyaf amlwg mewn safbwyntiau ar y cydbwysedd rhwng blaenoriaethau'r farchnad lafur a deilliannau economaidd, addysgol, cymdeithasol-economaidd, diwylliannol a chymunedol ehangach, gan gynnwys cyfraniad ymchwil ac arloesi.

1.9.4 Roedd y tensiynau allweddol a nodwyd yn cynnwys cydweithio o'i gymharu â chystadleuaeth, hyblygrwydd o'i gymharu â strwythurau presennol y system, effeithlonrwydd o'i gymharu â chadernid a mynediad, mynediad lleol o'i gymharu â chrynhoi darpariaeth, ac uchelgeisiau ar gyfer mwy o gyfranogiad a thwf cyfrwng Cymraeg o'u cymharu â'r adnoddau a'r capasiti sydd ar gael. Mae'r rhain yn codi eto ym mhob un o'r pum maes her ac maent wedi'u nodi'n llawn ar ddiwedd pob pennod (adrannau 5.10, 6.7, 7.7, 8.7 a 9.7).

1.9.5 Ar nifer llai o bwyntiau, roedd y cyflwyniadau'n anghytuno yn hytrach na bod â phwyslais gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys: a yw targedau cyfranogiad yn sbardun effeithiol (RB07, ffafrio targedau sy'n cyd-fynd â'r galw a ragwelir am sgiliau, o'i gymharu â WBL03, RB12 ac RPB02, gan rybuddio rhag dibynnu ar dargedau yn unig); a fyddai ffocws cryfach ar gyfranogiad amser llawn yn 18 oed yn ehangu neu'n cyfyngu ar fynediad (WBL02, o'i gymharu â chyflwyniadau sy'n cefnogi cyfranogiad estynedig ar Lefel 4 ac uwch); a ddylai gofynion mynediad (*entry*) ehangu neu gyfyngu ar gyfleoedd, gan gynnwys a ddylai ailsefyll TGAU barhau i fod y prif opsiwn a ariennir (SCH01 ac FE09) neu a ddylid cryfhau cyrhaeddiad Lefel 3 yn gyntaf (LA02 ac RPB08); a ddylai cymorth ariannol i ddysgwyr fod yn eang ei gwmpas neu wedi'i dargedu (SO02, o'i gymharu â WBL03 ac RB15); i ba raddau y dylid dibynnu ar ddata enillion fel Deilliannau Addysg Hydredol (LEO) fel mesur o werth (FE01, HE01 ac HE10); a yw cystadleuaeth yn cyfyngu neu'n diogelu dewisiadau dysgwyr yn bennaf (FE08 a TS04, o'i gymharu ag RPB04, RB09 a WBL01).

1.9.6 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn dangos bod y cyfrifon hyn yn adlewyrchu gwahanol fannau cychwyn. Dywedodd Coleg Grŵp Llandrillo Menai (GLlM) (FE05) 'nad yw her newid demograffig yn unffurf ar draws gwahanol rannau o Gymru ac felly mae sefydliadau'n ymateb mewn gwahanol ffyrdd', gan adrodd am fwy o gyfranogiad gan bobl ifanc 16 oed yn ei ddarpariaeth addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith ei hun ochr yn ochr â gostyngiad a ragwelwyd yn nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed mewn 'rhannau mawr' o Gymru.

1.9.7 Yn gyffredinol, roedd y cyflwyniadau'n disgrifio system dan bwysau, ond hefyd yn nodi cyfleoedd i wella cyfranogiad, ymatebolrwydd a chynaliadwyedd hirdymor drwy weithio'n fwy cydlynol.

2. Cyflwyniad

2.1 Cefndir yr Alwad am Gyflwyniadau

2.1.1 Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur tystiolaeth ar Ddyfodol y System Addysg Drydyddol yng Nghymru. Roedd y papur yn nodi pum her sy'n wynebu hyfforddiant ac addysg drydyddol yng Nghymru:

- cyfranogiad;
- newid demograffig a dysgu gydol oes;
- cynaliadwyedd ariannol;
- cystadleuaeth a chydweithio;
- cyflawni dros gymunedau a'r economi.

2.1.2 Bwriad y papur tystiolaeth oedd cefnogi trafodaeth am gyfeiriad addysg drydyddol yng Nghymru yn y dyfodol. Tynnodd sylw at y pwysau a'r dewisiadau sy'n wynebu'r system ar draws y pum maes her.

2.1.3 Yn dilyn cyhoeddi'r papur tystiolaeth, gwahoddodd Llywodraeth Cymru gyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau a rhanddeiliaid. Roedd yr Alwad am Gyflwyniadau yn gofyn i sefydliadau ddarparu safbwyntiau, gwybodaeth a chynigion sy'n ymwneud â'r pum maes her.

2.1.4 Roedd yr Alwad am Gyflwyniadau yn rhan o weithgarwch casglu tystiolaeth ehangach. Yn ystod yr un cyfnod, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid allweddol, ymgysylltwyd â dysgwyr a disgyblion ysgol mewn addysg bellach ac addysg uwch, ac ystyriodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yr heriau sy'n wynebu'r system. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd drwy'r alwad.

2.2 Y cyflwyniadau ysgrifenedig

2.2.1 Cafodd Llywodraeth Cymru 76 o gyflwyniadau ysgrifenedig yn cynnwys 73 o sefydliadau a gymerodd ran; cyflwynodd 3 ohonynt 2 gyflwyniad a gafodd eu hystyried fel cyfrifiadau unigol. Cafwyd cyflwyniadau gan sefydliadau ar draws y system addysg drydyddol a sectorau cysylltiedig, gan gynnwys colegau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch, awdurdodau lleol, cyrff cynrychioliadol, darparwyr prentisiaethau a hyfforddiant, sefydliadau dysgu oedolion a'r gymuned, sefydliadau myfyrwyr, sefydliadau trydydd sector, undebau llafur a chyrff eraill sydd â diddordeb. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a gyflwynodd sylwadau, ynghyd â chyfeiriadau at eu cyflwyniadau, wedi'i chyhoeddi yn yr atodiad technegol (pdf o'r atodiadau technegol).

2.2.2 Roedd y cyflwyniadau'n amrywio o ran hyd, ffocws a manylder. Rhoddodd rhai sefydliadau sylw i bob un o'r pum maes her. Canolbwyntiodd eraill ar faterion sydd fwyaf perthnasol i'w sefydliad, sector neu grŵp dysgwyr. Felly, dylid darllen y canfyddiadau fel synthesis o'r safbwyntiau a gyflwynwyd. Nid ydynt yn arolwg cynrychioliadol o'r sector cyfan ac ni ddylid eu darllen fel ymatebion wedi'u rancio.

2.3 Pwrpas yr adroddiad hwn

2.3.1 Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr Alwad am Gyflwyniadau ar wahân ym mis Awst 2026 (pdf o'r Crynodeb o'r ymatebion). Mae'r adroddiad hwnnw'n nodi'r prif themâu ar ffurf gryno. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r dadansoddiad thematig llawn: mae'n ymdrin â phob un o'r pum maes her yn eu tro, yn nodi lle'r oedd safbwyntiau'n cydgyfeirio ac yn dargyfeirio, ac yn dyfynnu cyflwyniadau unigol er mwyn i ddarllenwyr allu tracio pob pwynt i'w ffynhonnell.

2.3.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad thematig o'r cyflwyniadau ysgrifenedig. Mae'n crynhoi'r prif faterion a godwyd gan ymatebwyr, lle codwyd pwyntiau tebyg, a lle'r oedd safbwyntiau'n amrywio.

2.3.3 Bwriad yr adroddiad yw cefnogi trafodaeth polisi drwy ddarparu cofnod clir a systematig o'r deunydd a gyflwynwyd. Nid yw'n asesu nac yn rancio cyflwyniadau unigol. Nid yw'r adroddiad ei hun yn gwneud argymhellion o ran polisi. Lle'r oedd y cyflwyniadau'n cynnig camau gweithredu penodol, adroddir ar y rhain fel barn yr ymatebydd ac fe'u nodir felly.

2.4 Cwmpas yr adroddiad

2.4.1 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd drwy'r Alwad am Gyflwyniadau. Mae'n dadansoddi'r hyn a godwyd gan ymatebwyr ar draws y pum maes her a, lle bo hynny'n berthnasol, mae'n nodi gwahaniaethau yn ôl math o ymatebydd.

2.4.2 Mae'r adroddiad yn defnyddio tagiau sector i ddangos y grwpiau ffynhonnell eang sy'n gysylltiedig â'r canfyddiadau. Defnyddir y tagiau hyn i gefnogi tryloywder ynghylch tarddiad y dystiolaeth. Nid ydynt yn cyfrif amlder, yn rancio nac yn mesur cryfder y gefnogaeth i farn benodol.

2.4.3 Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad yn disgrifio patrymau yn y cyflwyniadau a ddaeth i law. Nid yw'n mesur pa mor gyffredin yw pob barn ar draws y sector ehangach.

2.4.4 Nodir y cyflwyniadau drwy gydol yr adroddiad hwn yn ôl enw'r sefydliad a'r cyfeirnod cyflwyno. Cyhoeddir cyflwyniadau unigol ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, a hysbyswyd sefydliadau y byddai eu cyflwyniadau'n cael eu cyhoeddi. Mae enwi sefydliadau yn cefnogi tryloywder adrodd.

2.5 Goblygiadau cyffredinol sy'n codi o'r cyflwyniadau

2.5.1 Gyda'i gilydd, nid yw'r cyflwyniadau'n disgrifio set o ddewisiadau hawdd. Ar draws y pum maes her, roedd y cyflwyniadau'n cefnogi uchelgeisiau gweddol debyg; llwybrau cliriach, mwy o hyblygrwydd, cydweithio cryfach, cyfranogiad ehangach a darpariaeth fwy cynaliadwy ar yr un pryd â disgrifio'r uchelgeisiau hyn fel rhai sy'n defnyddio'r un capasiti staff, amser dysgwyr a chyllid cyfyngedig. Felly, daw pob pennod i ben gyda'r cyfaddawdau a nodir yn y cyflwyniadau: roedd ehangu cyfranogiad yn gysylltiedig â mwy o angen am gymorth i ddysgwyr; effeithlonrwydd a rhesymoli'n gysylltiedig â risgiau ar gyfer ehangder pwnc ac argaeledd lleol; arbenigedd yn gysylltiedig â lleihau mynediad lleol; a darpariaeth hyblyg, fodiwlaidd a chymunedol yn gysylltiedig â chostau darparu uwch. Anaml iawn yr oedd y cyflwyniadau'n awgrymu y gellid datrys y tensiynau hyn heb wneud dewisiadau ynghylch beth i'w flaenoriaethu.

2.5.2 Mae tri goblygiad cyffredinol yn deillio o'r hyn a gyflwynwyd. Yn gyntaf, codwyd blaenoriaethu ei hun mewn cyflwyniadau: Dywedodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) fod yn rhaid i 'fuddsoddiad cyhoeddus flaenoriaethu' rhaglenni technegol a galwedigaethol sy'n cyd-fynd â strategaeth economaidd Cymru, iechyd a gofal cymdeithasol, peirianneg a thechnolegau gwyrdd, uwchsgilio digidol, sgiliau sylfaenol oedolion a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd Estyn (RPB02) fod yn rhaid i fesurau diwygio 'flaenoriaethu ansawdd, dilyniant a chynaliadwyedd dros dargedau cyfranogiad yn unig'. Galwodd yr Academi Brydeinig (RB06) am ymrwymiad clir gan y llywodraeth a'r rheoleiddiwr i 'ddiogelu pynciau sy'n agored i niwed', a nododd Prifysgolion Cymru (RB09) fod pynciau fel arfer 'mewn perygl' nid oherwydd dyblygu neu ostyngiad mewn cofrestriadau 'ond oherwydd tanariannu strwythurol'.

Yn ail, roedd rhai cyflwyniadau'n gwneud eu huchelgeisiau'n amodol ar gymryd camau cynharach yn gyntaf. Dywedodd RCN Cymru (RB12) 'er mwyn cyrraedd unrhyw dargedau cyfranogiad, rhaid mynd i'r afael yn gyntaf â rhwystrau strwythurol sy'n effeithio ar fynediad at addysg', ac awgrymodd Cyngor Bro Morgannwg (LA02) y dylid cynyddu 'cyrhaeddiad Lefel 3 yn gyntaf, yn enwedig i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim'.

Yn drydydd, nododd y cyflwyniadau gyfyngiadau yn y data sydd ar gael neu sy'n hygyrch i ymatebwyr a'r sector ehangach ar gyfer asesu a yw newid yn gweithio. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud yn benodol â mynediad at gofnodion hydredol dysgwyr, data addysg a chyflogaeth cysylltiedig, gwybodaeth ddigon manwl am ddeilliannau a'r seilwaith ymchwil sydd ei angen i ddadansoddi'r data hyn. Ni ddylid eu dehongli fel rhai sy'n dangos nad yw data addysg a chyflogaeth cysylltiedig yn cael eu cadw na'u defnyddio o fewn Llywodraeth Cymru na Medr. Galwodd Prifysgolion Cymru (RB09) am ddata hydredol cysylltiedig sy'n tracio unigolion o gyrhaeddiad ysgol drwy lwybrau ôl-16 ac i addysg uwch, i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi cyfranogiad dysgwyr aeddfed a'r berthynas rhwng ffurfweddu systemau a deilliannau dysgwyr. Nododd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) gyfyngiadau mewn data ar lefel system sy'n cysylltu

dysgu â deilliannau cyflogaeth barhaus. Nododd NTFW (WBL03) ddiffyg systemau data a rennir a fyddai'n caniatáu tracio teithiau dysgwyr ar draws addysg bellach, addysg uwch a dysgu seiliedig ar waith. Galwodd Natspec (TS01) am well data am gyrchfannau, tra bod Grŵp Colegau NPTC (FE06) yn chwilio am wybodaeth gysylltiedig fanylach yn ymwneud â deilliannau rhanbarthol sy'n ymwneud â chyflogau a chyflogaeth, dysgwyr rhan-amser ac aeddfed, lefelau cymwysterau a deilliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg.

2.5.3 Mae'r goblygiadau hyn yn disgrifio patrymau ar draws y cyflwyniadau a ddaeth i law. Nid safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru mohonynt, nid ydynt yn asesu rhinweddau cynigion unigol, ac ni ddylid eu darllen fel argymhellion. Mae Llywodraeth Cymru a Medr yn defnyddio data am addysg a Deilliannau Addysg Hydredol i gynnal dadansoddiad hydredol o ddeilliannau addysg a chyflogaeth. Mae data addysg hefyd ar gael ar gyfer ymchwil gymeradwy drwy'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod data Deilliannau Addysg Hydredol ar gael i ymchwilwyr allanol drwy Wasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

3. Methodoleg

3.1 Mae'r fethodoleg lawn, gan gynnwys y fframwaith codio, y dull dadansoddol a chyfyngiadau'r dadansoddiad, yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn yr atodiad technegol cyfunol (gweler Atodiad E).

4. Canfyddiadau trawsbynciol

4.1 Roedd cyfranogiad yn cael ei drafod yn gyffredin mewn perthynas â dilyniant, cymorth a llwybrau

4.1.1 Yn y cyflwyniadau, disgrifiwyd cyfranogiad mewn perthynas â niferoedd dysgwyr, dilyniant, llwybrau cliriach a chymorth i ddysgwyr, yn hytrach na dim ond nifer y cofrestriadau ar gyfer addysg drydyddol.

4.1.2 Roedd cyflwyniadau ACL, AB, awdurdodau lleol a chyrff cynrychioliadol yn tynnu sylw at bwysigrwydd darpariaeth o dan Lefel 2, gan gynnwys cyrsiau Mynediad a Lefel 1, a'r llwybrau mynediad a'r cyfleoedd dilyniant sy'n deillio ohonynt.

4.1.3 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn disgrifio rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gofal plant, cyllid dysgwyr, anghenion dysgu ychwanegol a chymorth iechyd meddwl.

4.1.4 Disgrifiodd sefydliadau cyfrwng Cymraeg a rhai darparwyr addysg faterion yn ymwneud â staffio, opsiynau dysgwyr, llwybrau dilyniant a pharhad cyfrwng Cymraeg.

4.2 Nododd y cyflwyniadau bwysau o ran cyllid a chostau ar draws nifer o feysydd heriol

4.2.1 Roedd y cyflwyniadau ar draws themâu yn disgrifio pwysau o ran cyllid a chostau sy'n effeithio ar ddysgwyr a darparwyr fel ei gilydd, gan gynnwys costau staffio, ystadau a chymorth i ddysgwyr. Mae'r pwysau hwn, a'i effaith ar gynaliadwyedd ariannol, yn cael ei ystyried yn fanwl o dan her 3.

4.3 Roedd y cyflwyniadau'n gwerthfawrogi hyblygrwydd ond yn cwestiynu a yw'r trefniadau presennol yn ei gefnogi

4.3.1 Cyfeiriodd y cyflwyniadau at astudio rhan-amser, darpariaeth fodiwlaidd, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion, micro-gymwysterau (dyfarniadau byr, penodol), a chyfleoedd dysgu gydol oes. Codwyd y materion hyn gan sefydliadau ACL, darparwyr hyfforddiant, colegau AB a chyrff cynrychioliadol.

4.3.2 Ar yr un pryd, mynegodd y cyflwyniadau bryderon bod trefniadau cyllido, fframweithiau rheoleiddio a systemau atebolrwydd yn cyd-fynd yn well â llwybrau amser llawn traddodiadol. Cysylltodd ymatebwyr y mater hwn â phryderon ehangach am newid demograffig, dysgu gydol oes a datblygu'r gweithlu.

4.4 Roedd cefnogaeth eang i gydweithio, ond roedd y cyflwyniadau'n nodi rhwystrau strwythurol

4.4.1 Roedd y cyflwyniadau'n trafod cydweithio mewn perthynas â llwybrau dilyniant, darpariaeth arbenigol, ymgysylltu â chyflogwyr, gweithgarwch ymchwil, cynllunio rhanbarthol a gwasanaethau a rennir.

4.4.2 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn disgrifio rhwystrau a oedd yn cyfyngu ar gydweithio'n ymarferol. Roedd y cyflwyniadau gan AB, AU, awdurdodau lleol, cyrff cynrychioliadol a phartneriaethau rhanbarthol yn cyfeirio at drefniadau cyllido, cymhellion recriwtio, gofynion llywodraethiant, heriau rhannu data a chyfyngiadau o ran capasiti. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys cyllid yn seiliedig ar nifer y dysgwyr, gwahanol reolau cyllido ar gyfer darpariaeth debyg, systemau data ar wahân, cystadleuaeth o ran recriwtio, amser cyfyngedig staff ac ansicrwydd ynghylch pwy sy'n talu am weithio mewn partneriaeth.

4.4.3 Roedd y cyflwyniadau'n priodoli rhwystrau i gydweithio i ffactorau strwythurol fel cyllid, llywodraethiant, atebolrwydd, data, capasiti a chyfraith cystadleuaeth yn hytrach na diffyg parodrwydd. Nododd NTFW (WBL03) 'rwystrau strwythurol i gydweithio, er gwaethaf parodrwydd cryf'; dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) 'nad amharodrwydd sefydliadol yw'r rhwystr, ond anghysondeb strwythurol'; a chyfeiriodd yr Academi Brydeinig (RB06) a Phrifysgolion Cymru (RB09) at gyfyngiadau o dan gyfraith cystadleuaeth.

4.5 Mynediad lleol yn seiliedig ar leoedd

4.5.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at fynediad lleol at ddysgu mewn perthynas â gwledigrwydd, trafnidiaeth, darpariaeth yn y gymuned, argaeledd cyfrwng Cymraeg a mynediad at bynciau arbenigol. Roedd awdurdodau lleol, colegau AB, sefydliadau ACL a sefydliadau Cymraeg ymysg y rhai a gododd y materion hyn. Codwyd trafnidiaeth ar draws nifer o feysydd her fel rhywbeth sy'n effeithio ar allu dysgwyr i gyrraedd y ddarpariaeth. Disgrifiodd Prifysgol De Cymru (HE02) gostau trafnidiaeth fel rhwystr dro ar ôl tro sy'n atal dysgwyr rhag cymryd rhan mewn addysg bellach ac addysg uwch a chyfeiriodd at 'loteri cod post' ar gyfer trafnidiaeth i bobl dros 16 oed; disgrifiodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) gostau teithio fel rhwystr mawr i bobl dros 16 oed; cyfeiriodd Coleg Gwent (FE08) at amseroedd teithio hir, nifer o newidiadau i fysiau a diffyg trenau mewn rhai ardaloedd; cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) at gostau teithio dyddiol fel baich ariannol ar gyfer dysgwyr incwm is; a chododd UCAC (RB08) gostau trafnidiaeth ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd angen teithio ar gyfer addysg drydyddol.

4.5.2 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn trafod deilliannau y tu hwnt i fanteision preifat fel cyflogaeth ac enillion. Roeddent yn cyfeirio at ddilyniant, llesiant, hyder, ac at ddeilliannau cymdeithasol ehangach gan gynnwys cyfraniad dinesig, deilliannau o ran y Gymraeg a lefelau cadw rhanbarthol. Codwyd y deilliannau ehangach hyn mewn cyflwyniadau'n ymwneud â'r Gymraeg, ACL, y trydydd sector ac awdurdodau lleol.

4.6 Newidiadau digidol a deallusrwydd artiffisial yn themâu sy'n dod i'r amlwg

4.6.1 Codwyd newidiadau digidol a deallusrwydd artiffisial (AI) mewn sawl cyflwyniad. Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at gyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu personol, dadansoddeg dysgwyr, cynllunio ac effeithlonrwydd. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch allgáu digidol, galluogrwydd staff, uniondeb asesu, gofynion seilwaith a llywodraethiant data. Codwyd y materion hyn mewn cyflwyniadau gan AU, AB a chyrff cynrychioliadol.

5. Her 1: Cyfranogiad

5.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn a nodwyd yn y cyflwyniadau am gyfranogiad. Mae'n ymdrin â mynediad, tegwch a chyfranogiad i ddysgwyr hyd at 18 oed; cefndiroedd y dysgwyr a phroffiliau mynediad; llwybrau dysgwyr a dilyniant; addasrwydd llwybrau; patrymau cyfranogi; cyfranogiad a thargedau yn y dyfodol; a chyfranogiad cyfrwng Cymraeg.

5.2 Trafodwyd cyfranogiad mewn perthynas â dilyniant, llwybrau a chymorth i ddysgwyr

5.2.1 Roedd y cyflwyniadau'n disgrifio cyfranogiad fel mwy na mynediad i addysg drydyddol a hyfforddiant. Roeddent yn cyfeirio at ddilyniant drwy'r system, llwybrau clir, cymorth i ddysgwyr ac a yw llwybrau'n arwain at ddysgu pellach, prentisiaethau neu gyflogaeth.

5.2.2 Mynegodd CITB Cymru (EI01) bryderon nad yw llwybrau sy'n dechrau gyda darpariaeth AB lefel is, amser llawn yn arwain yn gyson at gyflogaeth barhaus, ac nad yw rhai llwybrau'n arwain yn glir at brentisiaethau. Dywedodd VTCT Skills (WBL02) fod llwybrau rhwng ysgolion a cholegau yn anghyson, yn cael eu cyfleu'n wael ac yn aml yn cael eu camddeall gan ddysgwyr, rhieni, athrawon a chyflogwyr. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at ddarpariaeth pontio neu cyn-rhaglenni annigonol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr â bylchau mewn sgiliau sylfaenol.

5.2.3 Dywedodd sawl cyflwyniad fod darpariaeth lefel is yn bwysig, ond nad yw'n ddigonol ar ei phen ei hun. Disgrifiodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) lwybrau galwedigaethol lefel is fel rhai pwysig ar gyfer symudedd cymdeithasol. Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) at ddarpariaeth Mynediad a Lefel 1 hyblyg, gefnogol ac wedi'i strwythuro, sy'n golygu bod cymorth yn cael ei ddarparu fesul cam, i ddysgwyr ag anghenion sy'n gysylltiedig â gorbryder, hanes o darfu ar eu haddysg ac anghenion dysgu ychwanegol sy'n dod i'r amlwg.

5.3 Cefndiroedd dysgwyr a phroffiliau mynediad

5.3.1 Roedd y cyflwyniadau'n cysylltu'r proffil mynediad hwn â lefel y gefnogaeth oedd ei hangen ar ddechrau'r ddarpariaeth ôl-16, a drafodir ymhellach isod. Dywedodd Educ8 Training (WBL01) fod dysgwyr sy'n ymuno â darpariaeth ôl-16 lefel is yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd difreintiedig, bod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'u bod yn dangos lefelau llythrennedd a rhifedd isel. Yn yr un modd, cyfeiriodd NTFW (WBL03) at ddysgwyr a oedd yn dechrau ar ddarpariaeth Lefel 1 a Lefel 2 gyda chyrhaeddiad blaenorol is, anghenion dysgu ychwanegol ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

5.3.2 Disgrifiodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) gynnydd yn nifer y dysgwyr a gyrhaeddodd y coleg gydag anghenion cymhleth, gan gynnwys gorbryder, osgoi'r ysgol am resymau emosiynol, tarfu ar hanes addysgol, llai o hyder a sgiliau rhyngweithio cymdeithasol gwannach. Cyfeiriodd ColegauCymru (RB15) at grwpiau dysgwyr sy'n fwy tebygol o beidio ag ymgysylltu â'r ddarpariaeth, gan gynnwys dysgwyr o aelwydydd difreintiedig, dysgwyr ADY, dysgwyr ESOL (Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill), EOTAS (addysg heblaw yn yr ysgol) a dysgwyr EHE (addysg ddewisol yn y cartref) a dysgwyr sy'n wynebu costau teithio uwch. Roedd sawl cyflwyniad hefyd yn cysylltu cyfranogiad â chymorth cyn-16 anghyson, tarfu ar bresenoldeb, anghenion sy'n dod i'r amlwg neu sydd heb gael diagnosis, a galw cynyddol am gymorth pontio a bugeiliol strwythuredig (RPB02, LA03).

5.3.3 Mynegodd Natspec (TS01) bryderon nad oedd dysgwyr ag anableddau ac ADY cymhleth yn cael digon o sylw yn y ddogfen ymgynghori. Cyfeiriodd hefyd at ddata cyfyngedig am gyrchfannau dysgwyr ag ADY cymhleth sy'n cael gafael ar gymwysterau a chyrsiau lefel is. Cododd Estyn (RPB02) faterion hefyd ynghylch cymorth arbenigol, capasiti'r gweithlu, cynllunio ar gyfer pontio a'r gallu i gael gafael ar ddarpariaeth addas. Mynegodd RCN Cymru (RB12) bryderon ynghylch dysgwyr sy'n gallu astudio ar lefel uwch yn cael eu cyfeirio at gymwysterau coleg lefel is a chyfeiriodd at ddisgwyliadau a stereoteipiau rhywedd sy'n siapio rhai dewisiadau galwedigaethol.

5.3.4 Mynegodd Natspec (TS01) bryder hefyd y gellir ystyried bod dysgwyr sy'n aros mewn darpariaeth ysgol arbenigol tan eu bod yn 19 oed eisoes wedi cael mynediad at addysg bellach, er nad ydynt o reidrwydd wedi cael profiad o leoliad addysg bellach neu raglen astudio. Roedd yn dadlau y gall hyn guddio materion yn ymwneud â chyfranogiad a dilyniant dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.

5.4 Llwybrau rhwng yr ysgol, AB, prentisiaethau, AU a chyflogaeth

5.4.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at lwybrau ar draws ysgolion, AB, dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau, addysg uwch a chyflogaeth. Un pwynt a gododd dro ar ôl tro oedd bod angen i lwybrau fod yn gliriach ac wedi'u cysylltu'n well. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd cyngor diduedd a chysylltiad cynharach â gwahanol lwybrau, gan gynnwys AB, dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau ac AU (WBL02).

5.4.2 Dywedodd CITB Cymru (EI01) fod cyfran sylweddol o newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu yn parhau i ymuno drwy lwybrau anffurfiol, gan awgrymu nad yw llwybrau ffurfiol yn gweithredu mor effeithiol ag y gallent. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i integreiddio AB a dysgu seiliedig ar waith yn well, gan gynnwys profiad gwaith ystyrlon, trosglwyddo i brentisiaethau yn ystod rhaglenni a chydnabod dysgu blaenorol.

5.4.3 Dywedodd VTCT Skills (WBL02) y gall dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol mewn ysgolion gyrraedd y coleg heb ddealltwriaeth glir o lwybrau galwedigaethol, astudiaeth Lefel 2, na sut mae cymwysterau'n ymwneud â chymhwysedd galwedigaethol (y sgiliau a'r safonau sydd eu hangen ar gyfer rôl). Cyfeiriodd ACT Training (FE03) at gyrsiau galwedigaethol Sylfaen neu Lefel 1 i Lefel 2, rhaglenni cyn-brentisiaeth neu Twf Swyddi Cymru a Mwy, a dilyniant clir i brentisiaethau fel rhan o lwybrau effeithiol. Awgrymodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) y gallai profiad gwaith a ariennir o Flwyddyn 7, gan gynnwys profiad celfyddydol, diwylliannol a chymunedol a mentora cyflogwyr gefnogi ymgysylltu ar gyfer dysgwyr sy'n fwy tebygol o ymgysylltu â darpariaeth ôl-16 lefel is.

5.4.4 Awgrymodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) y gallai profiad gwaith wedi'i ariannu, ymgysylltu â chyflogwyr a chyfleoedd yn y gymuned o Flwyddyn 7 wella ymwybyddiaeth o lwybrau galwedigaethol a thechnegol a chefnogi ymgysylltu ymysg dysgwyr sy'n fwy tebygol o ymddieithrio oddi wrth y ddarpariaeth.

5.4.5 Cyfeiriodd RCN Cymru (RB12) at raglenni AB yn cyflwyno dysgwyr i yrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol ond nododd nad yw llwybrau dilyniant o AB i raglenni addysg uwch, fel nyrsio, bob amser yn glir nac yn hygyrch. Mynegodd Prifysgolion Cymru (RB09) bryderon ynghylch a yw llwybrau AB lefel is yn gweithredu fel cerrig camu strwythuredig neu fel pwyntiau terfyn. Cododd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (RB02) hefyd y ffaith bod angen ystyried dysgwyr nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg ôl-16 ar hyn o bryd, a sut cânt eu cefnogi i mewn i addysg a gwaith.

5.4.6 Cyfeiriodd Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU) (TU02) at fframwaith "Llwybrau'r Dyfodol", a gafodd ei greu ar y cyd ag ysgolion, colegau a phrifysgolion, gan nodi llwybrau academaidd a galwedigaethol i addysg uwch, opsiynau blwyddyn sylfaen, prentisiaethau a graddau rhan-amser, a gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gofalwyr a dysgwyr sy'n oedolion. Galwodd hefyd am ddatblygu llwybrau gradd galwedigaethol a chyrsiau addysg uwch newydd sy'n cyd-fynd â chymwysterau galwedigaethol a llwybrau gyrfa.

5.5 Addasrwydd llwybrau

5.5.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyflwyno safbwyntiau gwahanol ar addasrwydd y llwybrau presennol. Disgrifiodd rhai cyflwyniadau lwybrau lefel is, galwedigaethol a seiliedig ar waith fel y bo'n briodol ar gyfer dysgwyr sydd angen llwybrau ymarferol, llwybrau meithrin hyder neu lwybrau dychwelyd i ddysgu. Dywedodd VTCT Skills (WBL02) na all pob dysgwr lwyddo ar Lefel 2 ar unwaith a disgrifiodd ddarpariaeth Lefel 1 a Lefel Mynediad fel llwybrau pwysig i feithrin hyder. Disgrifiodd NTFW (WBL03) lwybrau galwedigaethol a llwybrau seiliedig ar waith fel dewisiadau ymarferol yn lle astudio academaidd a llwybrau ailymgysylltu. Dywedodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) y byddai tanfuddsoddi mewn llwybrau galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl ifanc sy'n dibynnu fwyaf ar AB.

5.5.2 Roedd cyflwyniadau eraill yn codi pryderon ynghylch llwybrau aneglur neu anaddas. Dywedodd CITB Cymru (EI01) efallai na fydd denu mwy o fyfyrwyr i gofrestru yn trosi'n ddeilliannau gwell yn y farchnad lafur lle mae llwybrau i gyflogaeth yn aneglur. Dywedodd RCN Cymru (RB12) y dylai sylw polisi ganolbwyntio ar atal dysgwyr rhag cael eu rhoi ar lwybrau amhriodol yn y lle cyntaf. Galwodd Natspec (TS01) am ddisgwyliadau cliriach ynghylch pwrpas, deilliannau a chyrchfannau dilyniant llwybrau ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth. Mynegodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) bryder y gallai dibynnu ar TGAU mathemateg a Chymraeg neu Saesneg ar gyfer mynediad i'r coleg atal rhai dysgwyr o dan y trothwy gradd C rhag dilyn llwybrau galwedigaethol lefel uwch.

5.5.3 Disgrifiodd cyflwyniadau dysgu oedolion yn y gymuned lwybrau yn y gymuned fel camau tuag at ddysgu pellach. Dywedodd Dysgu yn y Gymuned Cyngor Sir Caerfyrddin (ACL03) fod rhai dysgwyr ifanc ar gyrsiau lefel is yn teimlo bod darpariaeth ACL yn fwy addas fel cam tuag at AB, yn enwedig lle mae eu lefelau ymgysylltu wedi bod yn isel neu lle mae ganddynt brofiadau negyddol o'r ysgol. Dywedodd ACL

Rhondda Cynon Taf (ACL05) nad yw dysgwyr nad ydynt yn hyderus bob amser mewn sefyllfa dda i ymuno â'r amgylchedd AB neu AU.

5.6 Mynediad, tegwch a chyfranogiad i ddysgwyr hyd at 18 oed

5.6.1 Roedd y cyflwyniadau'n codi rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, cyllid, ADY, iechyd meddwl, gwledigrwydd, arweiniad a darpariaeth leol. Dywedodd NUS Cymru (SO01) fod llwybrau i addysg bellach yn cael eu siapio gan gyrhaeddiad blaenorol a ffactorau ehangach, gan gynnwys trafnidiaeth, pwysau ariannol, darpariaeth leol, cyngor ac arweiniad. Cyfeiriodd NASUWT, undeb yr athrawon (TU03), at natur wledig Cymru a chyfyngiadau trafnidiaeth gyhoeddus fel ffactor sy'n pennu ble mae dysgwyr yn astudio. Disgrifiodd Cyngor Bro Morgannwg (LA02) drafnidiaeth hefyd fel rhwystr sylweddol i gymryd rhan. Cyfeiriodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) at ddysgwyr gwledig sydd angen darpariaeth gymunedol yn hytrach nag opsiynau campws pell yn unig.

5.6.2 Cyfeiriodd ColegauCymru (RB15) at alw mawr iawn am wasanaethau cymorth, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl a llesiant a chymorth ariannol. Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) at ddysgwyr sydd mewn perygl o ddod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) heb lwybrau hyblyg priodol. Dywedodd Coleg GLIM (FE05) hefyd fod angen i gostau cymorth ac ADY fod yn gostau craidd, er mwyn i golegau allu cynllunio cymorth hirdymor. Cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) (LA03) fater arall sy'n ymwneud â mynediad pobl ifanc 16 a 17 oed sydd mewn AB, gan nodi eu bod yn dal yn blant yn ôl y gyfraith ond y gallent fod yn dysgu mewn amgylcheddau i oedolion.

5.6.3 Roedd rhai cyflwyniadau'n cwestiynu ffocws cul ar gyfranogiad amser llawn mewn addysg uwch yn 18 oed. Dywedodd VTCT Skills (WBL02) y gallai pwyso am gyfranogiad sylweddol uwch gan bobl ifanc 18 oed amser llawn danseilio'r cynnydd o ran ehangu mynediad, lleihau hyblygrwydd a gwanhau llwybrau AU galwedigaethol lleol. Dywedodd NTFW (WBL03) na ddylid mynd ar drywydd cynyddu'r nifer sy'n dechrau mewn AU llawn amser yn 18 oed ar draul hyblygrwydd. Heriodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) y rhagdybiaeth y dylai Cymru gynyddu mynediad amser llawn yn 18 oed fel prif nod. Awgrymodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) y dylai targedau cenedlaethol gydnabod heriau cyflawni gwledig, addysg uwch a ddarperir mewn lleoliadau addysg bellach a phrentisiaethau. Awgrymodd Cyngor Bro Morgannwg (LA02) y dylid cynyddu cyrhaeddiad Lefel 3 yn gyntaf, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

5.6.4 Mynegodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (RPB03) bryderon am fylchau yn y data ar nodweddion gwarchodedig ar draws addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd, a galwodd am ddadgyfuno data deilliannau'n well, gan gynnwys ar gyfer plant a gofalwyr ifanc sydd â phrofiad o ofal. Cyfeiriodd at ddyletswydd Medr o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i hyrwyddo cyfle cyfartal. (Medr yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, y corff sy'n gyfrifol am ariannu a rheoleiddio addysg a

hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.) Gan ddyfynnu ei ymchwil ei hun, nododd fod 13% o'r holl fyfyrwyr addysg uwch wedi profi aflonyddu hiliol, gan godi i 24% o fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig o'i gymharu â 9% o fyfyrwyr Gwyn, a bod 56% wedi cael eu galw'n enwau hiliol. Dywedodd nad oedd tua dwy ran o dair o fyfyrwyr a brofodd aflonyddu hiliol yn 2018/19 wedi rhoi gwybod amdano, a bod llai na 4 o bob 10 cwyn gan fyfyrwyr ac oddeutu 1 o bob 6 cwyn gan staff wedi cael eu cadarnhau. Ystadegau a ddyfynnwyd gan y Comisiwn ei hun yw'r ffigurau hyn ac nid ydynt wedi cael eu dilysu'n annibynnol fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

5.6.5 Galwodd UCU (TU02) am fwy o gymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynd i addysg uwch, gwell cymorth pontio rhwng yr ysgol neu'r coleg a'r brifysgol, a datblygu arferion addysgu mwy cynhwysol ar draws sefydliadau addysg uwch Cymru.

5.7 Patrymau cyfranogi mewn AB, AU, dysgu rhan-amser a dysgu aeddfed

5.7.1 Roedd y cyflwyniadau'n trafod patrymau cyfranogi newidiol ar draws AB, AU, dysgu rhan-amser a dysgu aeddfed. Awgrymodd CITB Cymru (EI01) y gallai mwy o gyfranogiad mewn AB adlewyrchu amodau economaidd, cyfleoedd prentisiaeth cyfyngedig a chyfyngiadau o ran capasiti o fewn dysgu seiliedig ar waith. Cyfeiriodd VTCT Skills (WBL02) at bwysau o ran costau byw, llai o barodrwydd i fynd i ddyled yn y brifysgol a dysgwyr sy'n chwilio am lwybrau cyflymach at gyflogaeth. Ar draws y cyflwyniadau, roedd cyfranogiad newidiol mewn AB yn gysylltiedig â chyfuniad o ffactorau system, gan gynnwys argaeledd prentisiaethau, llai o ddosbarthiadau chweched ar gael, cynigion ehangach gan golegau galwedigaethol, mynediad lleol, profiadau o darfu ar addysg cyn-16 a phryderon ynghylch dyledion.

5.7.2 Dywedodd ACT Training (FE03) fod lleihau cynlluniau prentisiaeth a gefnogir gan fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys y Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr, wedi cael effaith uniongyrchol ar recriwtio prentisiaid 16 i 24 oed. Roedd NTFW (WBL03) hefyd yn cysylltu llai o recriwtio i brentisiaethau, yn enwedig ymysg busnesau bach a chanolig, â mwy o bobl ifanc 16 i 24 oed yn mynd i AB amser llawn. Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach (RB14) hefyd yn cysylltu cyfranogiad mewn prentisiaethau â maint cwmnïau a daearyddiaeth, gan nodi bod y cwmnïau lleiaf yn derbyn llai o brentisiaid a phwysigrwydd cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

5.7.3 Nododd Coleg GLlM (FE05) dwf sylweddol mewn recriwtio amser llawn i AB dros y 4 blynedd diwethaf a dywedodd fod pobl ifanc yn dewis llwybrau galwedigaethol yn hytrach na Safon Uwch. Disgrifiodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) y galw am addysg alwedigaethol a thechnegol fel un sy'n parhau'n uchel.

5.7.4 Trafododd y cyflwyniadau gan addysg uwch a myfyrwyr gyfranogiad rhan-amser ac aeddfed. Dywedodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) fod cyfranogiad uwch gan fyfyrwyr rhan-amser ac aeddfed yng Nghymru yn gysylltiedig â phenderfyniad

Adolygiad Diamond i ymestyn cymorth cynhaliaeth ar sail pro-rata i fyfyrwyr rhan-amser ac i ariannu astudiaethau ôl-raddedig. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) ei bod wedi mwy na dyblu nifer y myfyrwyr ers diwygio cyllid myfyrwyr yn dilyn Adolygiad Diamond. Cyfeiriodd Prifysgolion Cymru (RB09) at broffil cyfranogiad addysg uwch unigryw i Gymru, gyda niferoedd cymharol uwch o fyfyrwyr aeddfed a rhan-amser nag mewn rhannau eraill o'r DU. Disgrifiodd Coleg GLIM (FE05) AU mewn AB hefyd fel rhywbeth sy'n cefnogi mynediad lleol a hyblyg i ddysgwyr sy'n cydbwyso ymrwymiadau gwaith, teuluol neu ariannol.

5.8 Cyfranogiad a thargedau yn y dyfodol

5.8.1 Cododd y cyflwyniadau safbwyntiau gwahanol ar dargedau cyfranogiad yn y dyfodol. Dywedodd CITB Cymru (EI01) fod prinder sgiliau yng Nghymru ar Lefelau 2 a 3 yn ogystal ag ar lefelau technegol uwch, ac y dylai targedau adlewyrchu strwythur galwedigaethol llawn yr economi, gan gynnwys prentisiaethau ar draws sawl lefel. Roedd NTFW (WBL03) yn cefnogi'r uchelgais i gynyddu cyrhaeddiad Lefel 4+ ond nododd na fyddai targedau cyfranogiad ar sail oedran yn unig yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt mewn ffordd ystyrlon.

5.8.2 Dywedodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) y dylai Cymru fod yn ofalus ynghylch mabwysiadu targed cyfranogiad Lefel 4+ a chyfeiriodd at ddiffyg llwybrau dilyniant cydlynol o Lefel 2 a Lefel 3 i Lefel 4+. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) fod targedau'n ddefnyddiol dim ond os ydynt yn cael eu cefnogi gan adnoddau digonol, cyllid, seilwaith a newid polisi. Yn yr un modd, roedd Grŵp Colegau NPTC (FE06) yn cefnogi targedau cenedlaethol dim ond pan fyddant yn cael eu cefnogi gan gyllid cyfalaf a refeniw, yn sensitif i annhegwch gwledig, yn cynnwys AU mewn AB a phrentisiaethau, ac wedi'u cynllunio i leihau anghydraddoldeb sgiliau rhanbarthol.

5.8.3 Dywedodd NUS Cymru (SO01) y dylai targedau cyfranogiad adlewyrchu amrywiaeth system Cymru, gan gynnwys astudio rhan-amser, AB a phrentisiaethau. Awgrymodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) y dylai unrhyw darged fod yn fesur cyfansawdd, sy'n golygu mesur sy'n cyfuno sawl dangosydd, sy'n cwmpasu pob modd ac oedran, gyda dangosyddion ansawdd ochr yn ochr â nifer. Mynegodd NEON (TS02) bryderon na ddylai targedau ganolbwyntio ar un rhan o gylch bywyd myfyrwyr yn unig ac y dylent ystyried demograffeg wahanol ledled Cymru. Gyda'i gilydd, roedd y cyflwyniadau hyn yn cyfeirio at fesurau cyfranogiad sy'n cydnabod nifer o lwybrau, yn hytrach na dim ond mynediad amser llawn i AU yn 18 oed.

5.8.4 Galwodd Prifysgolion Cymru (RB09) am gryfhau a monitro cyrhaeddiad, cwblhau a dilyniant drwy'r system gyfan. Galwodd hefyd am gomisiwn annibynnol ar gyfranogiad addysg uwch. Roedd rhai cyflwyniadau felly'n rhoi mwy o bwyslais ar gyrhaeddiad a dilyniant blaenorol cyn Lefel 4+, gan gynnwys cyrhaeddiad ar Lefel 3 a dilyniant ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

5.9 Cyfranogiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

5.9.1 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog oedd un o'r prif feysydd a godwyd yn y cyflwyniadau. Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at argaeledd llwybrau cyfrwng Cymraeg, dysgu galwedigaethol dwyieithog, staffio, adnoddau, darpariaeth ddigidol a pharhad rhwng ysgolion, AB, prentisiaethau ac AU.

5.9.2 Cyfeiriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) at gyfranogiad cyfrwng Cymraeg ar draws AB, prentisiaethau ac AU, gan gynnwys gwahaniaethau mewn cyfranogiad rhwng bechgyn a merched. Disgrifiodd Undeb Myfyrwyr AU (SO02) y ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg fel darpariaeth fregus, wedi'i dosbarthu'n anwastad ac wedi'i chrynhoi mewn nifer bach o sefydliadau.

5.9.3 Cyfeiriodd Gyrfa Cymru (RPB04) at y ffaith bod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn llai cyson mewn colegau AB a chyrsiau galwedigaethol ac o bosibl yn llai hysbys i ymgeiswyr. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) fod darpariaeth yn y sector trydyddol yn dal gryn dipyn y tu ôl i rannau eraill o system addysg Cymru.

5.9.4 Cododd cyflwyniadau'r darparwyr hyfforddiant bryderon ynghylch llwybrau galwedigaethol dwyieithog. Roedd VTCT Skills (WBL02) yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau addysg alwedigaethol ddwyieithog ac yn cyfeirio at adnoddau cyfrwng Cymraeg i staff a dysgwyr. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at brinder tiwtoriaid, aseswyr a mentoriaid yn y gweithle sy'n siarad Cymraeg, ac at rai cymwysterau galwedigaethol nad ydynt ar gael yn Gymraeg neu fersiynau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar ôl y fersiynau Saesneg. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at ddisgwyliadau cynyddol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob llwybr, gan gynnwys prentisiaethau. Roedd y cyflwyniadau hyn yn tynnu sylw at fwlch ar ôl 16 oed, lle nad yw llwybrau AB, dysgu seiliedig ar waith neu dechnegol cyson bob amser yn cyfateb i lwybrau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.9.5 Cododd y cyflwyniadau gan sefydliadau dysgu oedolion yn y gymuned faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Dywedodd Dysgu Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin (ACL03) fod nifer y dysgwyr mewn ACL sydd eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn fach ac yn aml ddim yn ymarferol, a bod nifer y tiwtoriaid sy'n gallu darparu Sgiliau Hanfodol yn y Gymraeg yn fach ac yn anodd eu recriwtio. Dywedodd ACL Rhondda Cynon Taf (ACL05) fod y ddarpariaeth sgiliau Saesneg hanfodol yn ddiffygiol ar gyfer dysgwyr a oedd yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.9.6 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at ddysgu digidol a chyfunol. Roedd y cyflwyniadau'n defnyddio 'dysgu cyfunol' i ddisgrifio amrywiaeth o ddulliau sy'n cyfuno darpariaeth wyneb yn wyneb ac ar-lein, heb ddiffiniad a rennir. Lle mae'r term yn ymddangos yn yr adroddiad hwn, mae'n adlewyrchu'r ffordd y'i defnyddiwyd yn y cyflwyniad unigol. Mae Hyfforddiant Cambrian (WBL04) yn ei restru fel dysgu 'fin nos, ar y penwythnos, ar-lein, cyfunol'; mae RCN Cymru (RB12) yn ei drin fel ategiad 'na ddylai ddod ar draul cynnal blaenoriaeth addysg nyrsio amser llawn'; mae EAUC (TS03) yn ei baru â chyrsiau modiwlaidd a micro-gymwysterau; mae Prifysgol De

Cymru (HE02) yn cyfeirio at 'ddysgu modiwlaidd, byr a chyfunol mewn cymunedau lleol'; mae Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) yn cyfeirio ato fel 'dysgu y tu allan i oriau / cyfunol / ar-lein'; mae Prifysgolion Cymru (RB09) yn cyfeirio ato fel darpariaeth hyblyg a chyfunol sy'n ehangu'n raddol. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at ddysgu cyfunol fel cyfle i ehangu mynediad at astudio drwy gyfrwng Cymraeg.

5.9.7 Soniodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (TU05) a Chyngor y Gweithlu Addysg (RPB07) am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd, gan gynnwys pryderon am y cyflenwad o staff sy'n siarad Cymraeg a goblygiadau ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer cynllunio a recriwtio'r gweithlu.

5.10 Tensiynau

Mae'r adran hon yn nodi'r tensiynau a nodwyd ar draws y cyflwyniadau yn eu cyfanrwydd. Disgrifiwyd rhai yn uniongyrchol gan ymatebwyr unigol; mae eraill yn deillio o gymharu safbwyntiau a fynegwyd mewn gwahanol gyflwyniadau. Maent yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr ac nid safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru mohonynt.

5.10.1 Cyfranogiad o'i gymharu â dwysedd cymorth: gall ehangu cyfranogiad gynyddu ystod a lefel anghenion cymorth dysgwyr. Roedd y cyflwyniadau'n awgrymu efallai nad yw dyluniad presennol y system yn adlewyrchu'n llawn y cymorth sydd ei angen.

5.10.2 Mynediad o'i gymharu â dilyniant: roedd y cyflwyniadau'n cefnogi ehangu mynediad ond roeddent yn rhybuddio efallai na fydd mynediad ar ei ben ei hun yn gwella deilliannau lle nad yw'r llwybrau'n arwain ymlaen, neu lle mae'r dysgwyr yn ailadrodd, yn oedi neu'n aros ar ddarpariaeth heb ddilyniant clir.

5.10.3 Hyblygrwydd o'i gymharu â chydlyniad: Gall hyblygrwydd a llwybrau aflinol wella mynediad, ond gall llwybrau ddod yn gymhleth ac yn anoddach i ddysgwyr eu defnyddio.

5.10.4 Targedau o'u cymharu ag ymatebolrwydd i anghenion dysgwyr a galw lleol: roedd y cyflwyniadau'n amrywio o ran a yw targedau cyfranogiad yn lifer effeithiol. Roedd rhai'n cefnogi targedau a oedd yn cyd-fynd â'r galw rhagamcanol am sgiliau; rhybuddiodd eraill y gall prif niferoedd dynnu sylw oddi wrth amrywiaeth llwybrau, mynediad lleol, cymorth i ddysgwyr a dilyniant.

5.10.5 Uchelgais cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â'r capasiti darparu: mae ehangu cyfranogiad cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar ddewis y dysgwr, capasiti staff, adnoddau, parhad ar draws llwybrau ac argaeledd cymwysterau.

5.10.6 Mynediad lleol o'i gymharu â chrynhoi'r ddarpariaeth ar gyfer arbenigedd neu hyfywedd: roedd y cyflwyniadau'n gwerthfawrogi darpariaeth arbenigol neu lefel uwch ond roeddent hefyd yn mynegi pryder y gallai fod angen llwybrau lleol, yn y gymuned neu AU mewn AB ar ddysgwyr mewn cymunedau gwledig neu lai

symudol. Roedd hyn yn cynnwys pryder y gall pynciau neu ardaloedd mwy pellennig effeithio ar ddewis dysgwyr lle mae angen i fyfyrwyr astudio'n lleol neu gymudo o adref.

5.10.7 Gofynion mynediad o'u cymharu â dilyniant cynhwysol: mynegodd rhai cyflwyniadau bryderon y gall defnyddio TGAU Saesneg, Cymraeg neu Fathemateg fel gofynion mynediad gyfyngu ar gyfleoedd, tra bod eraill yn pwysleisio'r angen i gryfhau cyrhaeddiad Lefel 3 cyn ehangu cyfranogiad ar lefel uwch.

5.11 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau

5.11.1 Ar y cyfan, roedd cysondeb yn y meysydd canlynol:

- dylai 'cyfranogiad' gwmpasu cyfleoedd, lefelau cadw, parhad a dilyniant y dysgwyr, nid mynediad (*entry*) yn unig.
- Mae darpariaeth Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2 yn dal yn bwysig ar gyfer ailymgysylltu ac ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.
- Dylid diogelu llwybrau hyblyg, rhan-amser, oedolion a seiliedig ar waith fel rhan o ddarpariaeth system Cymru.
- Mae angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cliriach, cynharach a mwy diduedd ar ddysgwyr ar draws opsiynau academaidd, galwedigaethol a seiliedig ar waith.
- Dylai polisi cyfranogiad ystyried rhwystrau sy'n gysylltiedig â chefndir economaidd-gymdeithasol, daearyddol, trafnidiaeth, ADY, iechyd meddwl, llesiant a chymorth.

5.11.2 Roedd y safbwyntiau'n amrywio ar y canlynol:

- rôl targedau cyfranogi;
- y cydbwysedd rhwng AU llawn amser yn 18 oed a llwybrau eraill
- i ba raddau mai AU yw'r llwybr mwyaf priodol i bob dysgwr
- a ddylai targedau cenedlaethol ganolbwyntio ar gyrhaeddiad Lefel 4+, mesurau cyfansawdd ar draws llwybrau, neu ddilyniant a deilliannau ar draws taith gyfan y dysgwr
- a ddylai'r flaenoriaeth fod yn ehangu cyfranogiad lefel uwch neu gryfhau sylfeini Lefel 1 i Lefel 3 gyntaf, yn enwedig ar gyfer dysgwyr difreintiedig

5.12 Meysydd a awgrymwyd i'w hystyried o ran polisi

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o feysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi.

5.12.1 Datblygu fframweithiau dilyniant cliriach ar draws llwybrau AB, dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau, AU a chyflogaeth, gan gynnwys llwybrau cliriach i fynd o Lefel 2 i Lefel 3 ac o Lefel 3 i Lefel 4+ (EI01, WBL03, WBL04, RB09).

5.12.2 Diogelu llwybrau sylfaen, Mynediad, Lefel 1, Lefel 2, meithrin hyder, cyn-brentisiaeth ac ailymgysylltu lle mae'r rhain yn cefnogi dysgwyr nad ydynt yn barod ar gyfer astudiaeth lefel uwch ar unwaith (WBL02, WBL03, FE06, FE01).

5.12.3 Cryfhau cyngor ac arweiniad diduedd, gan gynnwys dod i gysylltiad cynharach â llwybrau galwedigaethol, academaidd, seiliedig ar waith ac AU, a mynediad mwy cyson at AB, dysgu seiliedig ar waith a phartneriaid prifysgol mewn ysgolion (WBL02, LA03, RPB04).

5.12.4 Targedu cymorth ymarferol i ddysgwyr lle mae'n effeithio ar fynediad a pharhad, gan gynnwys trafnidiaeth, gofal plant, cyfarpar, mynediad digidol, cymorth ADY, iechyd meddwl a chymorth bugeiliol (SO01, RB15, FE05, LA03, FE06).

5.12.5 Cefnogi llwybrau cyfranogiad lleol a hyblyg, gan gynnwys darpariaeth yn y gymuned, AU mewn AB a darpariaeth ar gyfer dysgwyr gwledig nad ydynt yn gallu teithio'n rhwydd i ganolfannau pellennig (FE05, FE06, LA03).

5.12.6 Buddsoddi mewn staffio cyfrwng Cymraeg, adnoddau galwedigaethol dwyieithog, argaeledd cymwysterau a pharhad o'r ysgol i AB, prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith ac AU (FE04, RPB06, WBL03, WBL01)

5.12.7 Cysoni mesurau cyfranogiad â dilyniant, cadw myfyrwyr, cwblhau, deilliannau dysgwyr ac amrywiaeth llwybrau, yn hytrach na niferoedd cofrestru yn unig (SO01, SO02, FE06, RB09, WBL03)

5.12.8 Cefnogi dysgwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn addysg ôl-16 drwy ddarpariaeth hyblyg, meithrin hyder ac ailymgysylltu (RB02, TS07).

5.12.9 Ystyried ymgysylltu cynharach a mwy cyson â chyflogwyr, profiad gwaith a mentora, gan gynnwys o Flwyddyn 7 lle'r oedd y cyflwyniadau'n awgrymu y gallai hyn gefnogi cadw myfyrwyr ac ymwybyddiaeth o lwybrau (LA01, LA03).

5.12.10 Mynd i'r afael â bylchau mewn pynciau ac ardaloedd daearyddol lle maent yn effeithio ar gyfranogiad, yn enwedig i ddysgwyr sy'n llai symudol neu sydd angen astudio'n lleol (RB10, RPB08).

5.12.11 Ystyried mesurau cyfranogiad sy'n cydnabod dilyniant i Lefel 3 yn ogystal â Lefel 4+, yn enwedig i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig (LA02, FE06).

6. Her 2: Cymunedau a'r economi

6.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn a nodwyd yn y cyflwyniadau am gymunedau a'r economi. Roedd y cyflwyniadau'n sôn am gysoni â'r farchnad lafur, deilliannau a data, ymchwil, arloesi a buddsoddi, arbenigo a chlystyru rhanbarthol a deallusrwydd artiffisial a newidiadau technolegol.

6.2 Cysoni â'r farchnad lafur

6.2.1 Roedd y cyflwyniadau'n trafod y berthynas rhwng addysg drydyddol, y galw gan gyflogwyr ac anghenion sgiliau lleol neu ranbarthol.

6.2.2 Dywedodd CITB Cymru (EI01) y dylid blaenoriaethu cyllid ar gyfer meysydd lle mae galw clir yn y farchnad lafur, gan gynnwys prentisiaethau a darpariaeth mewn galwedigaethau lle mae prinder. Cyfeiriodd VTCT Skills (WBL02) at weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'u cynlluniau strategol fel bod y cymwysterau a'r fframweithiau prentisiaeth a gynigir yn adlewyrchu'r galw rhanbarthol a nodwyd. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at gyrsiau a oedd wedi'u cynllunio o amgylch gofynion gwirioneddol y gweithlu, hyfforddiant galwedigaethol sy'n benodol i'r sector sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a dysgu seiliedig ar waith ac uwchsgilio a gefnogir gan gyflogwyr. Cyfeiriodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) at anghenion cyflogwyr sector-benodol, blaenoriaethau economaidd rhanbarthol a phrinder yn y farchnad lafur leol.

6.2.3 Disgrifiodd ColegauCymru (RB15) y ddarpariaeth prentisiaethau yng Nghymru fel un o gryfderau'r system a chyfeiriodd at rôl colegau o ran cefnogi cyflogadwyedd a gwydnwch cymunedol. Cyfeiriodd hefyd at brinder sgiliau ym maes ôl-osod, technolegau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni, ac at hyfforddiant mewn cynaliadwyedd amgylcheddol, ôl-osod, asesu ynni, ynni adnewyddadwy ac atgyweirio adeiladau traddodiadol. Cyfeiriodd ACT Training (FE03) at ddarpariaeth prentisiaethau sy'n adlewyrchu anghenion busnesau bach a chanolig a chlystyrau diwydiant rhanbarthol. Roedd rhai cyflwyniadau hefyd yn cysylltu'r gwaith o gysoni'r farchnad lafur â blaenoriaethau economaidd sy'n seiliedig ar leoedd, gan gynnwys twf lleol, anghenion sgiliau rhanbarthol a rôl darparwyr o ran cefnogi economïau lleol (RB02, TS02).

6.2.4 Dadleuodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) fod yn rhaid i fuddsoddiad cyhoeddus gael ei flaenoriaethu tuag at ddarpariaeth sy'n gyson â strategaeth economaidd Cymru ac anghenion y farchnad lafur, rhaglenni galwedigaethol a thechnegol, gofal iechyd a chymdeithasol, technolegau gwyrdd a pheirianneg, uwchsgilio digidol, sgiliau sylfaenol oedolion a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

6.2.5 Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod dysgu oedolion a'r gymuned yn cefnogi unigolion i ymuno â'r farchnad lafur a symud ymlaen ynddi, yn galluogi'r gweithlu i addasu, ac yn cryfhau economïau lleol a rhanbarthol. Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe (ACL07) ato fel porth i addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, addysg

uwch a chyflogaeth. Disgrifiwyd rôl y porth, a'i gysylltiad ag economïau lleol a rhanbarthol, ar draws sawl cyflwyniad (ACL01, ACL02, RB02, RB13, HE02A).

6.2.6 Cyfeiriodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (ACL06) at sgiliau iaith Gymraeg ymhlith dysgwyr a gweithluoedd, gan gynnwys y gweithlu addysg statudol, y gweithlu AB ac AU, a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Cyfeiriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel rhan o'r gwaith o ddiwallu anghenion y gweithlu a chefnogi sgiliau Cymraeg yn y farchnad lafur. Roedd Comisiynydd y Gymraeg (RPB06) hefyd yn cysylltu darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg ag anghenion y gweithlu yn y sectorau a nodwyd.

6.2.7 Dywedodd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol (TS04) fod diogelu ehangder disgyblaethol a rhagoriaeth ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol yn bwysig i economi Cymru ac ar gyfer sylfaen sgiliau eang a galwodd am gyfeirio cliriach at lwybrau gyrfa sy'n gysylltiedig â chymwysterau gwyddorau cymdeithasol.

6.3 Deilliannau a data

6.3.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at ddeilliannau o ran cyflogaeth, dilyniant, cyrchfannau dysgwyr, enillion, llwybrau galwedigaethol, a mesurau ehangach sydd o fudd i ddysgwyr, ac at y ffaith bod angen ystyried y rhain yn ôl rhanbarth a grŵp dysgwyr. Yn yr adran hon, mae deilliannau'n golygu'r hyn y mae dysgwyr yn ei wneud ar ôl dysgu, gan gynnwys astudiaethau pellach, gwaith, gwirfoddoli neu fuddiannau eraill.

6.3.2 Roedd CITB Cymru (EI01) yn cefnogi gwell defnydd o ddata hydredol i ddeall symud ymlaen i gyflogaeth, cysondeb rhwng hyfforddiant a galwedigaeth, a chadw dysgwyr mewn sectorau. Dywedodd hefyd fod y darlun o gyrchfannau dysgwyr yn anghyflawn ar hyn o bryd. Dadleuodd y dylai data deilliannau nid yn unig fesur cyflogaeth ond y dylent archwilio a yw'r dysgwyr yn ymuno â'r alwedigaeth y maent wedi'u hyfforddi ar ei chyfer ac yn aros yn y sector hwnnw dros amser.

6.3.3 Roedd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) yn cefnogi datblygiad parhaus data Deilliannau Addysg Hydredol (LEO), sy'n cysylltu cofnodion addysg â gwybodaeth ddiweddarach am gyflogaeth ac enillion, ond nododd fod ei ddefnydd presennol yn canolbwyntio'n rhy gul ar enillion ac nad yw'n cofnodi effaith addysg bellach yn llawn. Cyfeiriodd at ddeilliannau galwedigaethol a chydweddiad y sector, y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud o'u man cychwyn, sefydlogrwydd cyflogaeth hirdymor, tegwch a mesurau cynhwysiant. Yn yr un modd, mynegodd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (HE10) bryder y gallai enillion fod yn ddull llai addas o fesur deilliannau yn y diwydiannau creadigol.

6.3.4 Dywedodd Coleg Caerdydd a'r Fro (FE02) fod yn rhaid dehongli data LEO yn ei gyd-destun ac na ddylid ei ddefnyddio fel mesur llym yn erbyn dewisiadau pwnc ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed. Cyfeiriodd ACT Training (FE03) at ddeilliannau cyflogaeth, dilyniant o'r ysgol, colegau a lefelau prentisiaethau, cyflogaeth barhaus, a chysondeb rhwng cymwysterau a sectorau'r farchnad lafur. Cyfeiriodd Coleg Gwent

(FE08) at ddilyniant sy'n gysylltiedig ag enillion, cyflogaeth barhaus a data'r sector cyflogaeth.

6.3.5 Dywedodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu enillion rhanbarthol a deilliannau cyflogaeth ar gyfer dysgwyr rhan-amser ac aeddfed, dadansoddi ar lefel cymhwyster, cyfrwng Cymraeg a gwahaniaethau gwledig neu drefol.

6.3.6 Dywedodd Prifysgol Abertawe (HE01) nad yw data LEO, er eu bod yn ddefnyddiol, o reidrwydd yn rhoi darlun dibynadwy o effaith a gwerth prifysgolion, yn enwedig pan fesurir gwerth ar sail mwy na dim ond enillion y graddedigion. Dywedodd Prifysgol De Cymru (HE02) fod y mesurau presennol yn tueddu i ganolbwyntio ar ddilyniant uniongyrchol o un flwyddyn i'r llall drwy lwybr llinol. Cyfeiriodd at dracio lle mae graddedigion yn gweithio, pa sectorau y maent yn mynd iddynt, enillion ar sawl pwynt ar ôl graddio, dilyniant o lwybrau amgen, a deilliannau yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol, cyfranogiad cyfrwng Cymraeg neu rywedd. Roedd nifer o'r cyflwyniadau'n galw am ddadansoddi deilliannau'n fwy penodol, gan gynnwys yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol, anabledd, ethnigrwydd, rhywedd a daearyddiaeth (RB09, RPB03, RPB01). Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (RPB03) oedd y cyfrannwr mwyaf sylweddol at y pwynt hwn, gan gyfeirio'n benodol at fylchau mewn data wedi'u dadgyfuno ar ethnigrwydd, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, plant â phrofiad o ofal a gofalwyr ifanc, ac at ddyletswydd Medr i hyrwyddo cyfle cyfartal (gweler hefyd 5.6.4).

6.3.7 Cyfeiriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) at werth data am ddeilliannau'r farchnad lafur ar gyfer carfannau cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriodd hefyd at ddefnydd gwell o arolygon sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i nodi bylchau yn sgiliau'r gweithlu Cymraeg a darpariaeth addysg drydyddol.

6.3.8 Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) y dylai mesurau effaith economaidd ymestyn y tu hwnt i ddeilliannau cyflogaeth yn unig a chynnwys symud i wirfoddoli, dysgu pellach, mwy o gymwysterau, hyder, gwydnwch a llesiant. Cyfeiriodd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Abertawe (ACL04) at rwystrau i dracio dilyniant dysgwyr lle nad oes modd rhannu data dysgwyr ar draws y bartneriaeth oherwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Dywedodd hefyd fod rhwystrau rhag rhannu data dysgwyr ar draws partneriaethau yn cyfyngu ar y gallu i dracio dilyniant rhwng darparwyr a sectorau, gan effeithio ar ddealltwriaeth o deithiau tymor hwy y dysgwyr.

6.3.9 Cyfeiriodd NEON (TS02) at fanteision ehangach addysg y tu hwnt i ddeilliannau'r farchnad lafur, gan gynnwys manteision iechyd corfforol a meddyliol. Galwodd Prifysgol De Cymru (HE02) am fetrigau sy'n gwobrwyo effaith gymdeithasol, fel mynd i'r afael â diffygion sgiliau rhanbarthol, yn hytrach na recriwtio, dilyniant llinol a chwblhau yn unig. Cododd Natspec (TS01) fwlch penodol mewn data ar gyfer dysgwyr ag ADY cymhleth, gan ddweud nad yw LLWR yn casglu data ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

6.4 Ymchwil, arloesi a buddsoddi

6.4.1 Codwyd ymchwil, arloesi a buddsoddi mewn perthynas â phrifysgolion, AB, diwydiant, gwasanaethau cyhoeddus, busnesau bach a chanolig a datblygu rhanbarthol.

6.4.2 Disgrifiodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (RB11) ymchwil ac arloesi fel ased cenedlaethol y tu hwnt i addysg. Dywedodd fod ymchwil o'r radd flaenaf yn sail i dwf economaidd, yn cynnal y GIG, ac yn sbarduno cynnydd cymdeithasol a diwylliannol. Cyfeiriodd Prifysgolion Cymru (RB09) at ymchwil ac arloesi fel un o swyddogaethau craidd prifysgolion ac at brifysgolion sy'n cystadlu am gyllid ledled y DU ac yn rhyngwladol. Pwysleisiodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (RB11) hefyd fod ymchwil sylfaenol ar gam cynnar yn sylfaen ar gyfer cynhyrchion, gwasanaethau ac arloesi diweddarach.

6.4.3 Cyfeiriodd Prifysgolion Cymru (HE09) at ddadansoddiad economaidd bod ymchwil prifysgolion Cymru yn cynhyrchu £1.98bn i'r economi, gan gynnwys £1.33bn drwy orlifiant cynhyrchiant ar draws sectorau eraill. Nodwyd hefyd bod 70% o ymchwil wedi'i asesu o fudd i bobl a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Cyfeiriodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RB10) at ymchwil gwyddoniaeth gemegol yng Nghymru sy'n darparu datblygiadau arloesol sy'n lleihau effaith amgylcheddol ac yn gwneud busnesau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Nododd hefyd fod Cymru wedi cael 2.3% o fuddsoddiad ymchwil y DU a'i bod yn gartref i 4.6% o'r boblogaeth.

6.4.4 Disgrifiodd Cyngor yr Athrawon Peirianneg (RB07) ymchwil peirianneg mewn prifysgolion fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â diogelwch ynni, y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd, galluogrwydd amddiffyn, iechyd y cyhoedd, gweithgynhyrchu cynaliadwy a seilwaith. Cyfeiriodd Prifysgol Caerdydd (HE06) at raglen Sêr Cymru ac at Draig Therapeutics, a gododd fuddsoddiad o dros $140 miliwn. Dywedodd y Sefydliad Ffiseg (RB05) fod prinder sgiliau wedi arwain rhai busnesau ffiseg i atal neu ohirio gweithgarwch ymchwil ac arloesi.

6.4.5 Dywedodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) fod colegau AB mewn sefyllfa dda i weithredu fel partneriaid sy'n helpu i droi ymchwil yn ddefnydd ymarferol rhwng ymchwil a diwydiant, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig. Cyfeiriodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD) (HE04) at rwydweithiau sy'n cefnogi ymchwil ymarferol sy'n trosi gwybodaeth yn effaith economaidd a chymdeithasol ranbarthol. Cyfeiriodd NCUB (RB03) at ymchwil contractau, cwmnïau deillio ac eiddo deallusol, trosglwyddo gwybodaeth, a gweithgareddau sy'n cynyddu i ba raddau mae busnesau lleol yn mabwysiadu ac yn lledaenu arloesedd.

6.4.6 Cyfeiriodd Cwmpas (RB13) at fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cymunedol fel partneriaid mewn ymchwil gymhwysol, gan gynnwys arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gwydnwch cymunedol, newid hinsawdd a datblygu economaidd cynhwysol. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach (RB14) fod cyllid ymchwil a datblygu yn rhy isel yng Nghymru ac y dylai busnesau bach

arloesol elwa o gymorth. Cyfeiriodd hefyd at gefnogaeth Innovate UK i helpu busnesau i arallgyfeirio cynhyrchion ac edrych ar farchnadoedd newydd.

6.4.7 Cyfeiriodd RCN Cymru (RB12) at bartneriaethau rhwng darparwyr addysg drydyddol, gwasanaethau iechyd a sefydliadau'r sector preifat i nodi meysydd lle mae potensial ar gyfer ymchwil a chefnogi arloesedd sy'n gwella deilliannau iechyd a chynhyrchiant y gweithlu. Cyfeiriodd GW4 (RB04) at gyllido fesul cam lle mae angen cydweithrediadau newydd, sy'n cynnwys symiau bach o gyllid i ddatblygu syniadau cyn cyflwyno cais llawn.

6.4.8 Cyfeiriodd Prifysgol Bangor (HE03) at bartneriaethau cyfnewid gwybodaeth ac arloesi, gan gynnwys cwmnïau deillio, trwyddedu a masnacheiddio ymchwil, fel rhan o'i chyfraniad at ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

6.5 Arbenigo a chlystyru rhanbarthol

6.5.1 Roedd y cyflwyniadau'n trafod arbenigo a chlystyru rhanbarthol, a elwir hefyd yn "gydgrynhoi", mewn perthynas â galw a chyflenwad y farchnad lafur, effeithlonrwydd, mynediad, dewis dysgwyr a manteision rhanbarthol. Mae arbenigo'n golygu darparwyr sy'n canolbwyntio mwy ar bynciau neu gryfderau penodol. Mae clystyru rhanbarthol yn golygu crynhoi diwydiannau, galwedigaethau a sgiliau cysylltiedig mewn mannau penodol.

6.5.2 Dywedodd CITB Cymru (EI01) fod achos cryf dros fwy o arbenigo a chydweithio lle mae hyn yn cyd-fynd ag anghenion economaidd rhanbarthol a'r galw yn y farchnad lafur. Dywedodd hefyd y gall clystyru darpariaeth sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chryfhau cysylltiadau rhwng addysg, cyflogaeth a chynhyrchiant ond bod risgiau'n gysylltiedig â llai o fynediad lleol a gormod o grynhoi darpariaeth.

6.5.3 Nododd NTFW (WBL03) y gall cydweithio ac arbenigo wella effeithlonrwydd, lleihau dyblygu, cefnogi dilyniant dysgwyr cliriach a diogelu pynciau sydd mewn perygl. Cyfeiriodd hefyd at risgiau gan gynnwys llai o fynediad lleol, anghydraddoldebau rhanbarthol, a dibyniaeth ar seilwaith digidol a llywodraethiant cryf.

6.5.4 Dywedodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) y dylai arbenigo gael ei arwain gan y sector, nid ei orfodi'n weinyddol. Cyfeiriodd at rwydweithiau cyflogwyr presennol, staff arbenigol, cyfleusterau hyfforddi sefydledig a modelau darparu profedig. Dywedodd hefyd y gallai arbenigo arwain at lai o ddarparwyr, llwybrau prentisiaeth cyfyngedig, llai o gystadleuaeth a dewis gwannach i ddysgwyr.

6.5.5 Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at gydweithio ac arbenigo traws-sefydliadol gan helpu darparwyr Cymru i adeiladu digon o raddfa mewn meysydd o gryfder a denu partneriaid diwydiant. Cyfeiriodd hefyd at glystyru arbenigedd o amgylch blaenoriaethau y cytunwyd arnynt sy'n seiliedig ar leoedd. Disgrifiodd Cwmpas (RB13) brifysgolion a cholegau fel sefydliadau lleol mawr sydd â rôl bwysig yn eu hardal a chyfeiriodd at rôl mentrau sydd â gwreiddiau dwfn mewn lleoedd o ran cefnogi economïau lleol.

6.5.6 Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod addysg israddedig yn elwa o amrywiaeth ddisgyblaethol, hygyrchedd daearyddol ac ehangder sefydliadol. Fe wnaethant hefyd ddweud bod crynhoi darpariaeth yn ormodol yn peryglu cyfyngu ar ddewis myfyrwyr a lleihau gallu dysgwyr i astudio'n lleol. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) fod risg y gallai gweithgarwch gael ei grynhoi mewn rhai pocedi daearyddol ar draul ardaloedd eraill. Mae hyn yn gyfaddawd gyda manteision cydgrynhoi.

6.5.7 Dywedodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (RPB08) y gallai mwy o ddarpariaeth mewn sefydliadau neu leoliadau penodol greu rhwystrau i ddysgwyr, yn enwedig y rheini sy'n llai symudol yn ddaearyddol neu sy'n dibynnu ar ddarpariaeth leol. Dywedodd Estyn (RPB02) y gall arbenigo olygu bod campws penodol mewn coleg yn cynnig cyrsiau penodol, gan eu gwneud yn anoddach i ddysgwyr nad ydynt yn byw gerllaw gael mynediad atynt, ar yr un pryd â galluogi'r ddarpariaeth i fod yn ariannol hyfyw. Unwaith eto, cyfaddawd yw hyn gyda chydgrynhoi a fyddai'n gofyn am fuddsoddi mewn trafnidiaeth.

6.5.8 Dywedodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) y gallai arbenigo arwain at ddarpariaeth o safon ond y gallai fod yn llai hygyrch i lawer o ddysgwyr. Cododd UCU Cymru (TU04) risgiau i staff a gweithgarwch academaidd, gan gynnwys y pwynt na ellir symud academyddion o un rhan o Gymru i'r llall. Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach (RB14) yn dadlau bod rhannu cyllid arloesi heb ystyried yr ardaloedd penodol yn tueddu i ffafrio canolfannau cydgrynhoi sefydledig, gan roi ardaloedd mwy gwasgaredig, llai trefol fel Cymru dan anfantais.

6.5.9 Cyfeiriodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (RB11) at enghreifftiau o glystyrau a chryfderau rhanbarthol, gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, diwydiannau creadigol, Parth Twf AI Gogledd Cymru, M-SParc ym Mhrifysgol Bangor, arloesedd dur yn Abertawe, a buddsoddiad mewn adweithyddion modiwlar bach yn Wylfa. Cyfeiriodd RCN Cymru (RB12) at rannu arbenigedd a seilwaith rhwng darparwyr addysg drydyddol, gwasanaethau iechyd a phartneriaid ymchwil.

6.6 Deallusrwydd artiffisial a newid technolegol

6.6.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at ddeallusrwydd artiffisial (AI) a newid technolegol sy'n effeithio ar addysgu, dysgu, asesu, llwyth gwaith staff, cynhwysiant digidol, sgiliau'r gweithlu, llywodraethiant data a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae AI yn cyfeirio at offer digidol sy'n gallu cynhyrchu, dadansoddi neu gefnogi cynnwys a phenderfyniadau, pan fyddant yn cael eu defnyddio dan oruchwyliaeth person go iawn.

6.6.2 Dywedodd CITB Cymru (EI01) fod AI a thechnolegau digidol yn cynnig cyfleoedd a heriau i'r sector adeiladu. Dywedodd eu bod yn cynnig potensial i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant a gwella cynhyrchiant ond bod angen uwchsgilio'r gweithlu'n sylweddol.

6.6.3 Cyfeiriodd VTCT Skills (WBL02) at gyfleoedd AI mewn dysgu wedi'i bersonoli, effeithlonrwydd, cymorth i ddysgwyr, cysondeb â'r farchnad lafur ac ymchwil ac arloesi.

Cyfeiriodd hefyd at fygythiadau gan gynnwys anghydraddoldebau, risgiau i gywirdeb asesiadau, tarfu ar y gweithlu, a phryderon ynghylch data a materion moesegol. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at systemau addasol, tiwtora deallus, offer cyfieithu, lleferydd-i-destun, rhagweld galw, cymorth i ddysgwyr, cynllunio'r cwricwlwm, effeithlonrwydd gweinyddol, micro-gymwysterau a hyfforddiant sgiliau AI hyblyg. Cyfeiriodd hefyd at anghydraddoldeb digidol.

6.6.4 Dywedodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) y gall AI wella addysgu, dysgu a datblygu sgiliau, gan hefyd greu ansicrwydd ynghylch cyfleoedd am swyddi. Dywedodd hefyd y gallai defnyddio AI heb ei reoleiddio danseilio asesiadau seiliedig ar waith a pherthnasedd i'r sector. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at systemau addasol, tiwtora deallus, adborth awtomataidd, offer hygyrchedd, cyfieithu, cymorth i ddysgwyr niwrowahanol a dadansoddeg wedi'i llywio gan AI.

6.6.5 Nododd Coleg Caerdydd a'r Fro (FE02) gyfleoedd gan gynnwys dysgu wedi'i bersonoli, llai o lwyth gwaith staff, gwell asesiadau a diagnosteg, llwybrau entrepreneuraidd a datblygu sgiliau AI sy'n berthnasol i'r diwydiant. Nododd fygythiadau gan gynnwys mynediad anghyfartal o safbwynt y dysgwyr, camddefnydd mewn asesiadau, bylchau yn sgiliau'r gweithlu ac ymwybyddiaeth annigonol o AI. Galwodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) am i strategaeth genedlaethol gydlynol gael ei sefydlu sy'n esblygu ar gyfer AI mewn addysg ôl-16. Cyfeiriodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) at ddysgu wedi'i bersonoli, diagnosteg fwy clyfar, lleihau llwyth gwaith gweinyddol, gwella ansawdd addysgu a chefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Cyfeiriodd hefyd at allgáu digidol mewn cymunedau difreintiedig a gwledig, rhagfarn a phryderon ynghylch diogelu. Roedd rhai cyflwyniadau hefyd yn disgrifio ymwybyddiaeth o AI fel rhywbeth sy'n dod yn bwysig ar gyfer cyfranogiad yn y gweithle a chyfranogiad dinesig (FE02, RB15).

6.6.6 Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) y gall AI hwyluso a gwella dysgu dwyieithog a'i gwneud yn haws darparu adnoddau yn Gymraeg. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd terminoleg Gymraeg gyson a mynegodd bryderon ynghylch nodi'r defnydd o AI mewn asesiadau Cymraeg. Dywedodd Natspec (TS01) nad yw llawer o offer AI wedi'u datblygu'n dda ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys diffyg opsiynau arddweud Cymraeg mewn llwyfannau prif ffrwd. Cododd Jisc (RPB01) ansicrwydd hefyd ynghylch galluogrwydd Cymraeg mewn AI prif ffrwd a sut dylid dehongli gofynion y Gymraeg yn ymarferol.

6.6.7 Cyfeiriodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) at wreiddio AI yn y cwricwlwm a'r ddarpariaeth mewn ffordd gytbwys a chyfrifol. Cyfeiriodd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent (ACL02) at ddysgu wedi'i bersonoli, cynhwysiant, cefnogaeth i'r iaith Gymraeg, gwell profiad i ddysgwyr, camymddygiad, uniondeb, rhaniad digidol, anghydraddoldeb, diogelu data a GDPR. Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (ACL06) y gall AI gefnogi dysgu Cymraeg drwy adnoddau dysgu digidol ac ymarfer sgiliau iaith, ond bod rhyngweithio dynol a chyfathrebu ystyrlon yn parhau i fod yn hanfodol.

6.6.8 Cyfeiriodd ColegauCymru (RB15) at AI yn gwella addysgu, yn personoli dysgu, yn lleihau llwyth gwaith ac yn rhyddhau staff ar gyfer cyswllt mwy personol â dysgwyr. Dywedodd hefyd y gallai AI waethygu anghydraddoldeb os nad yw mynediad yn deg. Cyfeiriodd RCN Cymru (RB12) at ruglder digidol a dealltwriaeth feirniadol i ddysgwyr ym maes iechyd a gofal, er mwyn iddynt allu defnyddio technolegau'n ddiogel, yn foesegol ac yn effeithiol. Cyfeiriodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (RPB08) at uniondeb academaidd a dylunio asesiadau wrth i AI cynhyrchiol ddod yn rhan annatod o ymarfer myfyrwyr. Cyfeiriodd Jisc (RPB01) at offer AI yn cael eu defnyddio i gynhyrchu cynlluniau gwersi, cwisiau a chymhorthion addysgu, er mwyn i athrawon allu neilltuo mwy o amser i ryngweithio â myfyrwyr. Cododd Prifysgol De Cymru (HE02A) yr angen am bolisïau clir ar ddefnydd derbyniol, atebolrwydd, gonestrwydd, uniondeb a llywodraethiant data. Cyfeiriodd Prifysgolion Cymru (RB09) at seiberddiogelwch, amgylcheddau data diogel, datblygu staff ac ailgynllunio addysgeg fel rhan o'r gwaith o fabwysiadu AI yn effeithiol.

6.7 Tensiynau

Mae'r adran hon yn nodi'r tensiynau a nodwyd ar draws y cyflwyniadau yn eu cyfanrwydd. Disgrifiwyd rhai yn uniongyrchol gan ymatebwyr unigol; mae eraill yn deillio o gymharu safbwyntiau a fynegwyd mewn gwahanol gyflwyniadau. Maent yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr ac nid safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru mohonynt.

6.7.1 Gwybodaeth am y maes pwnc o'i chymharu â sgiliau trosglwyddadwy: roedd y cyflwyniadau'n cefnogi mwy o gysondeb ag anghenion sgiliau cyflogwyr a rhanbarthol, gan bwysleisio dewis dysgwyr, sgiliau trosglwyddadwy a gwydnwch systemau tymor hir ar yr un pryd.

6.7.2 Manteision arbenigo a chlystyru o'u cymharu â mynediad lleol: dywedodd rhai cyflwyniadau y gallai arbenigo a chlystyru adeiladu más critigol, gwella effeithlonrwydd a chryfhau cysylltiadau â blaenoriaethau economaidd rhanbarthol. Rhybuddiodd eraill y gallai crynhoi darpariaeth mewn sefydliadau neu leoliadau penodol leihau'r dewis i ddysgwyr a gwneud cyrsiau'n llai hygyrch, yn enwedig i ddysgwyr sy'n dibynnu ar ddarpariaeth leol neu sy'n wynebu rhwystrau o ran trafnidiaeth.

6.7.3 Manteision economaidd preifat o'u cymharu â manteision ehangach: nid yw data am enillion a chyflogaeth yn cynnwys yr holl ddeilliannau sy'n bwysig i'r cyflwyniadau.

6.7.4 Arloesi AI o'i gymharu â thegwch ac uniondeb: mae mabwysiadu digidol yn gofyn am fesurau diogelu, buddsoddiad a chymorth i staff/dysgwyr.

6.7.5 Crynhoi capasiti gwaith ymchwil ar yr un pryd ag ehangu ei fanteision: roedd rhai cyflwyniadau'n cefnogi adeiladu clystyrau a chryfderau ymchwil arbenigol i greu màs critigol a chefnogi twf sy'n seiliedig ar leoedd (RB06; RB11). Pwysleisiodd eraill y dylai cymorth ymchwil ac arloesi hefyd gyrraedd busnesau

bach a chanolig, gwasanaethau cyhoeddus, mentrau cymdeithasol a chymunedau y tu allan i hybiau arloesi sefydledig (FE01; RB13, RB14).

6.7.6 Uchelgais data o'i gymharu â bylchau mewn data a mesurau diogelu: roedd y cyflwyniadau'n cefnogi gwell data hydredol cysylltiedig, ond roeddent hefyd yn nodi bylchau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, cyfyngiadau data am enillion a rhwystrau sy'n gysylltiedig â rhannu data. Mae hyn yn golygu bod cyflwyniadau wedi gofyn am ddata wedi'u cysylltu'n well ond roeddent hefyd yn cydnabod bod rhywfaint o ddata ar goll.

6.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau

Roedd y cyflwyniadau'n dangos cytundeb cyffredinol ar sawl egwyddor, er nad oedd hyn o reidrwydd yn dangos cytundeb ynghylch sut dylid eu rhoi ar waith.

6.8.1 Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r ddarpariaeth gael ei llywio'n well gan signalau sgiliau'r farchnad lafur a sgiliau rhanbarthol.

6.8.2 Roedd y cyflwyniadau'n cytuno'n fras bod ymchwil, arloesi a chyfnewid gwybodaeth yn bwysig i ddeilliannau preifat a chymdeithasol.

6.8.3 Roedd y cyflwyniadau'n cytuno y dylai mesurau deilliannau fynd y tu hwnt i enillion yn unig.

6.8.4 Roedd y cyflwyniadau'n cytuno y dylid rheoli'r gwaith o fabwysiadu AI yn ofalus, gan roi sylw i uniondeb asesu, rhagfarn, diogelu ac allgáu digidol (FE02, FE06). Roedd y cyflwyniadau'n cytuno'n fras y dylai arbenigedd gael ei arwain gan dystiolaeth a'i gydbwyso yn erbyn mynediad dysgwyr.

6.8.5 Cytunwyd yn eang fod angen gwell data am deithiau dysgwyr, cyrchfannau, deilliannau cyflogaeth, patrymau rhanbarthol a deilliannau ehangach. Fodd bynnag, roedd y cyflwyniadau'n amrywio o ran i ba raddau y dylid defnyddio data enillion tebyg i ddeilliannau addysg hydredol fel mesur o werth.

6.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi

6.9.1 Cysoni cymwysterau, prentisiaethau a darpariaeth â signalau'r farchnad lafur, gwybodaeth y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, blaenoriaethau economaidd rhanbarthol ac anghenion y gweithlu sy'n benodol i sector (WBL02, WBL04, FE06).

6.9.2 Datblygu mesurau deilliannau sy'n mynd y tu hwnt i enillion ac sy'n cynnwys dilyniant, cyflogaeth barhaus, pellter a deithiwyd, tegwch, deilliannau cyfrwng Cymraeg, gwerth gwasanaeth cyhoeddus a manteision cymdeithasol ehangach (FE01, HE10, ACL01).

6.9.3 Gwella data hydredol cysylltiedig ar draws setiau data AB, AU, dysgu seiliedig ar waith a gweinyddol, ynghyd â'r trefniadau rhannu data a'r cyflwyniadau diogelu y nodwyd eu bod yn angenrheidiol. Dywedodd Partneriaeth Dysgu

Oedolion yn y Gymuned Abertawe (ACL04) fod methu â rhannu data dysgwyr ar draws y bartneriaeth oherwydd GDPR yn rhwystr i dracio dilyniant dysgwyr, ac y byddai hysbysiad preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys cytundeb rhannu data y gallai pob partneriaeth ei ddefnyddio, yn helpu i oresgyn hyn. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn tynnu sylw at yr angen i roi sylw i grwpiau dysgwyr nad ydynt wedi'u cofnodi'n dda mewn setiau data cyfredol (WBL02, ACL04, TS01, RPB01).

6.9.4 Cefnogi ymchwil gydweithredol, arloesi cymhwysol, cyllido fesul cam, capasiti arloesi dan arweiniad AB a mynediad busnesau bach a chanolig at gymorth ymchwil ac arloesi (FE01, RB04, RB14).

6.9.5 Datblygu clystyrau rhanbarthol lle mae'r rhain yn adeiladu ar gryfderau rhanbarthol, gan ddiogelu mynediad lleol, dewis dysgwyr a lledaenu syniadau ac arferion newydd i gymunedau a chwmnïau (RB13, RB11, RPB08).

6.9.6 Cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu Cymraeg drwy wella data ar anghenion sgiliau Cymraeg a chysoni darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog â sectorau lle mae angen sgiliau Cymraeg (ACL06, FE04, RPB06).

6.9.7 Datblygu canllawiau AI cenedlaethol sy'n ymdrin â defnydd derbyniol, uniondeb asesu, llywodraethiant data, seiberddiogelwch, datblygu staff, galluogrwydd Cymraeg, cynhwysiant digidol a mabwysiadu cyfrifol (HE02A, RB09, RPB01).

7. Her 3: Cynaliadwyedd ariannol

7.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â chynaliadwyedd ariannol gan gynnwys rhwystrau a chymorth ariannol i ddysgwyr, pwysau cost a heriau cynaliadwyedd, modelau effeithlonrwydd a chyflawni, arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd systemau, enillion ar fuddsoddiad, a buddsoddiad cyfalaf a seilwaith.

7.2 Rhwystrau ariannol a chymorth i ddysgwyr

7.2.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at rwystrau ariannol sy'n effeithio ar fynediad, cadw dysgwyr a dilyniant. Roedd y rhain yn cynnwys trafnidiaeth, llety, gofal plant, cyfarpar, mynediad digidol, bwyd, deunyddiau cwrs, costau cynhaliaeth, cyflogau prentisiaethau a phwysau ehangach o ran costau byw. Roedd nifer o'r cyflwyniadau'n disgrifio'r costau hyn fel rhai cyfun, gyda rhwystrau ariannol yn effeithio ar allu dysgwyr i ddechrau, parhau neu wneud cynnydd mewn dysgu.

7.2.2 Roedd y cyflwyniadau gan ddarparwyr hyfforddiant yn cyfeirio at gostau sy'n effeithio ar brentisiaid a dysgwyr seiliedig ar waith. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at gostau trafnidiaeth, cyflogau prentisiaethau isel, costau cyfarpar a mynediad digidol, costau gofal plant, cyfrifoldebau gofalu, a cholli budd-daliadau neu incwm y cartref. Cyfeiriodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) at gysylltedd gwledig, costau teithio uwch, dillad gwaith, iwnifform, prydau bwyd â thâl, benthyciadau tymor byr a blaensymiau

cyflog. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at drafnidiaeth, cyfarpar, cyflogau prentisiaethau isel, gofal plant, mynediad digidol a llai o incwm y cartref. Dywedodd CITB Cymru (EI01) y gall capiau cyllido ohirio neu atal mynediad at ddarpariaeth, gan arwain rhai dysgwyr at gyflogaeth amgen yn hytrach nag at lwybrau hyfforddi. Awgrymodd VTCT Skills (WBL02) yn benodol y dylid trefnu trafnidiaeth â chymhorthdal i ddysgwyr, gan gynnwys darparu bysiau a thacsis lle nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

7.2.3 Roedd sawl cyflwyniad yn cyfeirio at drafnidiaeth. Disgrifiodd Prifysgol De Cymru (HE02) gostau trafnidiaeth fel rhwystr parhaus rhag cymryd rhan mewn AB ac AU a chyfeiriodd at 'loteri cod post' ar gyfer trafnidiaeth ôl-16. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) fod costau trafnidiaeth yn rhwystr mawr i ddysgu ôl-16. Cyfeiriodd Coleg Gwent (FE08) at amseroedd teithio hir, newid bws sawl gwaith, diffyg trenau mewn rhai ardaloedd a chostau trafnidiaeth. Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) at gostau teithio dyddiol fel baich ariannol ar ddysgwyr incwm is. Cododd UCAC (RB08) gostau trafnidiaeth hefyd ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd angen teithio ar gyfer addysg drydyddol.

7.2.4 Cyfeiriodd y cyflwyniadau gan fyfyrwyr at gymorth cynhaliaeth a chostau byw. Cyfeiriodd NUS Cymru (SO01) at bwysau ariannol, cymorth cynhaliaeth, trafnidiaeth a llety. Cyfeiriodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) at arolwg Tracio Myfyrwyr Cymru, gan nodi bod 86% o'r dysgwyr yn dweud bod costau byw wedi cael effaith negyddol ar eu hastudiaethau. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith nad oedd gan ddysgwyr ddim ar ôl neu eu bod mewn gorddrafft ar ôl costau hanfodol, myfyrwyr yn mynd heb fwyd oherwydd rhent a chostau tai, a methu dosbarthiadau wyneb yn wyneb oherwydd costau trafnidiaeth. Mynegodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) bryder hefyd y gallai defnyddio prawf modd ar gyfer cyfanswm y cymorth leihau'r cymorth a roddir i rai dysgwyr a chyfeiriodd at y ffaith bod y trothwy incwm ar gyfer uchafswm y grant wedi cael ei rewi ers 2018.

7.2.5 Roedd y cyflwyniadau addysg uwch yn cyfeirio at fforddiadwyedd i fyfyrwyr. Cyfeiriodd Prifysgol Caerdydd (HE06) at gostau byw myfyrwyr, cynnydd o tua 29% mewn myfyrwyr sydd angen cyngor ar gyllid, myfyrwyr sy'n gweithio oriau sylweddol, a mwy o fyfyrwyr sy'n byw gartref ac yn cymudo. Cyfeiriodd hefyd at fyfyrwyr Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn defnyddio systemau cyllido cymhleth ac yn gwneud penderfyniadau heb gyllid wedi'i gadarnhau. Cyfeiriodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) at drafnidiaeth, costau tai, rhenti, pecyn cymorth cynhaliaeth Cymru a mwy o fyfyrwyr yn gweithio yn ystod eu hastudiaethau. Cyfeiriodd cyflwyniad ychwanegol Prifysgol Caerdydd (HE06A) at fyfyrwyr llai cefnog sy'n cario dyledion am lawer o'u bywydau gwaith. Cododd GW4 (RB04) fwlch penodol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig, gan nodi nad yw myfyrwyr Meistr a PhD yn gymwys i gael grantiau gofal plant ac y gallent hefyd fod yn anghymwys i gael budd-daliadau gofal plant oni bai eu bod mewn swydd sylweddol â thâl.

7.2.6 Roedd y cyflwyniadau dysgu oedolion yn cyfeirio at ffioedd, teithio, gofal plant a chyfarpar. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) y gall hyd yn oed ffioedd cymedrol atal ymgysylltu ac nad yw dysgwyr bob amser yn deall beth yw dileu ffioedd. Cyfeiriodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) at golli cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n effeithio ar weithgareddau ymgysylltu a chymorth un-i-un i bobl sy'n wynebu â nifer o rwystrau rhag dysgu. Cyfeiriodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (RB02) at rwystrau o ran costau, teithio a gofal plant sy'n effeithio ar ddysgu oedolion yn y gymuned.

7.3 Pwysau o ran costau a heriau cynaliadwyedd

7.3.1 Roedd y cyflwyniadau'n disgrifio pwysau o ran costau sy'n effeithio ar addysgu, cymorth i ddysgwyr, staffio, ystadau, darpariaeth arbenigol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ymchwil, cymwysterau a dysgu hyblyg. Roedd nifer o'r cyflwyniadau hefyd yn cysylltu pwysau cynaliadwyedd â chwyddiant, costau cyflog, gofynion cydymffurfio, recriwtio a chadw dysgwyr, a chylchoedd cyllido tymor byr.

7.3.2 Roedd cyflwyniadau'r darparwyr hyfforddiant yn cyfeirio at gostau darparu cynyddol a chynnydd cyfyngedig mewn cyllid. Cyfeiriodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (WBL03) at gostau darparu cynyddol ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a meysydd sy'n defnyddio llawer o adnoddau ac at feichiau gweinyddol a chydymffurfio. Dywedodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) nad oedd darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi cael cynnydd i adlewyrchu costau cynyddol. Cyfeiriodd hefyd at ofynion cydraddoldeb cyflog a chostau cyflogwr uwch sy'n gysylltiedig â chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at gostau cynyddol mewn meysydd STEM a meysydd sy'n defnyddio llawer o adnoddau.

7.3.3 Roedd y cyflwyniadau AB yn cyfeirio at chwyddiant, twf, staffio, cymorth i ddysgwyr a darpariaeth cost uchel. Cyfeiriodd Coleg Caerdydd a'r Fro (FE02) at bynciau cost uchel, gan gynnwys peirianneg, y celfyddydau creadigol a STEM, lle mae carfannau bach yn gwneud y ddarpariaeth yn ariannol heriol. Dywedodd hefyd fod AB yn gweithredu gyda chyllid nad yw'n ymwneud â chyflog ar lefel 2018 er gwaethaf chwyddiant sylweddol mewn costau. Dywedodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) ei fod yn gweithredu uwchlaw'r capasiti a ariennir, gyda dros £1.6 miliwn o ddysgwyr heb eu hariannu. Cyfeiriodd Coleg Gwent (FE08) at anghenion newidiol dysgwyr, trefniadau mynediad at arholiadau, deunyddiau traul ar gyfer cyrsiau galwedigaethol, a'r ffaith bod angen codiadau chwyddiant yn y model cyllido amser llawn. Cyfeiriodd ColegauCymru (RB15) hefyd at anawsterau recriwtio a chadw, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol lle gall diwydiant gynnig cyflogau uwch.

7.3.4 Dywedwyd bod costau ychwanegol ynghlwm wrth ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Amcangyfrifodd Prifysgol Caerdydd (HE06) fod darpariaeth AU cyfrwng Cymraeg yn costio tua £10 yn fwy fesul credyd na darpariaeth cyfrwng Saesneg. Roedd y cyflwyniadau eraill yn cysylltu'r costau ychwanegol hyn â charfannau llai a chronfa gyfyngedig o staff academaidd arbenigol sy'n siarad Cymraeg (RB09). Cyfeiriodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) at gostau ychwanegol darpariaeth

cyfrwng Cymraeg a dywedodd fod angen i gyfraddau cyllido ychwanegol, neu premia, gynyddu. Dywedodd hefyd nad yw'r cyfraddau cyllido ychwanegol hyn ar gael i israddedigion Cymru sy'n astudio'r gyfraith neu addysg, er bod y rhain ymysg y pynciau mwyaf poblogaidd ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) efallai na fydd cyllid sy'n seiliedig yn bennaf ar niferoedd myfyrwyr yn cynnal pynciau sydd â niferoedd is.

7.3.5 Codwyd hyfywedd cymwysterau hefyd. Cyfeiriodd Cymwysterau Cymru (RPB05) at y ffaith mai nifer bach o dystysgrifau sy'n cael eu dyfarnu ac at hyfywedd masnachol cymwysterau ar gyfer cyrff dyfarnu. Dywedodd fod gan 1,093 o gymwysterau ôl-16 lai na 100 o dystysgrifau a dim ond 20 oedd â mwy na 500 o dystysgrifau. Roedd yn cysylltu'r niferoedd isel hyn â hyfywedd masnachol cymwysterau ar gyfer cyrff dyfarnu ac roedd hefyd yn tynnu sylw at y costau datblygu a gweithredu sy'n gysylltiedig â diwygio cymwysterau.

7.3.6 Roedd y cyflwyniadau addysg uwch yn cyfeirio at bwysau ariannol ehangach. Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod costau'n cynyddu'n gyflymach nag incwm, ac nad yw ffioedd a chyllid bellach yn talu am gost addysgu myfyrwyr cartref nac ymchwil ac arloesi. Cyfeiriodd hefyd at ostyngiad mewn recriwtio rhyngwladol, erydu incwm ffioedd dysgu, costau'r gweithlu ac ystadau, a dibyniaeth ar ffrydiau incwm cyfnewidiol. Cyfeiriodd Prifysgol Caerdydd (HE06) at gost a risg trawsnewid, gan gynnwys ailstrwythuro cwricwla, portffolios academaidd a gwasanaethau. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) fod gradd-brentisiaethau'n cael £795 yn llai o gyllid fesul dysgwr na chyrsiau addysg uwch eraill, a oedd yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y broses ddarparu. Roedd y Sefydliad Ffiseg (RB05) a Chyngor yr Athrawon Peirianneg (RB07) hefyd yn cysylltu darpariaeth STEM cost uchel â bregusrwydd ariannol, gan gynnwys dod i gysylltiad â recriwtio rhyngwladol a phwysau sy'n gysylltiedig â fisa.

7.3.7 Codwyd pryderon yn ymwneud â phwysau ariannu ymchwil ac arloesi hefyd. Galwodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (RB11) am ailarchwilio'r model cyllido ehangach, gan gynnwys cyllid craidd ar gyfer ymchwil ac arloesi. Cyfeiriodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RB10) at y bwlch rhwng costau gwneud ymchwil a'r incwm sydd ar gael i'w chefnogi. Cyfeiriodd Prifysgolion Cymru (RB09) hefyd at gostau ymchwil ac arloesi nad yw'r incwm presennol yn talu amdanynt. Dywedodd GW4 (RB04) fod angen cyllid ar bartneriaethau ymchwil cydweithredol ar gyfer rheoli, adrodd a gwerthuso rhaglenni, ac y gall darparwyr optio allan os nad yw cyllid yn adlewyrchu costau economaidd llawn gweithio mewn partneriaeth.

7.3.8 Roedd y cyflwyniadau dysgu oedolion yn cyfeirio at wendidau o ran sut mae dysgu oedolion yn cael ei ariannu a'i gynllunio a chyllid tymor byr. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) mai'r risg fwyaf sylweddol yw'r amddiffyniad cyfyngedig a roddir i oedolion sy'n dysgu'n rhan-amser o fewn y trefniadau cyllido presennol. Dywedodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) na ellid diwallu'r galw cynyddol oherwydd gostyngiadau mewn cyllid. Cyfeiriodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (RB02) at doriadau

mewn cyllid dysgu oedolion a chylchoedd cyllido blynyddol sy'n llesteirio cynllunio tymor hwy. Dywedodd Partneriaeth ACL Abertawe (ACL04) fod codiadau cyflog a chostau byw blynyddol yn golygu bod gofyn i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned ddarparu mwy gyda llai o adnoddau.

7.3.9 Roedd y cyflwyniadau gan undebau llafur yn nodi pwysau ar staff a'r ddarpariaeth. Cyfeiriodd UCU Cymru (TU04) at gynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, trethi myfyrwyr rhyngwladol, y newid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i'r Gronfa Twf Lleol (LGF), ac amgylchedd cyllido sydd fwy neu lai'n segur. Cyfeiriodd NASUWT (TU03) at yr angen i ystyried sut mae arbedion yn effeithio ar athrawon, dysgwyr a'r ddarpariaeth.

7.3.10 Cyfeiriodd Cyngor y Gweithlu Addysg (RPB07) ac Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (TU05) hefyd at bwysau o ran costau sy'n effeithio ar y gweithlu addysg, gan gynnwys cynaliadwyedd lefelau staffio a fforddiadwyedd datblygiad proffesiynol parhaus.

7.3.11 Cododd UCU (TU02) a Phrifysgol Bangor (HE03) bwysau o ran cynaliadwyedd ariannol sy'n wynebu'r sector addysg uwch yng Nghymru. Cyfeiriodd UCU at fwy o gyfraniadau Yswiriant Gwladol gan gyflogwyr, y newid o Gronfeydd Strwythurol Ewrop a chyllid sydd fwy neu lai'n segur fel pwysau cyfun ar y sector. Roedd Prifysgol Bangor yn dadlau bod model ariannol y sector yn ddiffygiol a bod trefn gyllido wahaniaethol sy'n cael ei thanariannu'n gymharol yn golygu bod Cymru'n strwythurol agored i dwf cystadleuol mewn rhannau eraill o'r DU.

7.4 Effeithlonrwydd, modelau darparu ac arbedion cost.

Roedd y cyflwyniadau'n defnyddio'r term 'effeithlonrwydd' mewn gwahanol ffyrdd, gan amlaf i ddisgrifio lleihau costau, dyblygu neu faich gweinyddol. Roedd Prifysgolion Cymru (RB09) yn gwahaniaethu rhwng effeithlonrwydd a gostyngiadau mewn gweithgarwch, gan nodi bod arbedion pellach y tu hwnt i bwynt penodol yn gofyn am ostyngiadau yn nifer y staff neu ailstrwythuro'r ddarpariaeth yn sylfaenol, ac mai 'cwtogi sy'n digwydd bryd hynny, nid bod yn effeithlon'. Lle'r oedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at effeithlonrwydd, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r ffordd y defnyddiwyd y term.

7.4.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at effeithlonrwydd drwy ddysgu cyfunol, dysgu digidol, cynllunio ar sail data, darpariaeth hyblyg, partneriaeth cyflogwyr, gwasanaethau a rennir, rheoli portffolio, caffael, cydnabod dysgu blaenorol a chydweithio. Roedd nifer o'r cyflwyniadau hefyd yn nodi na ddylai arbedion effeithlonrwydd leihau ansawdd, cymorth i ddysgwyr na mynediad.

7.4.2 Roedd y cyflwyniadau gan ddarparwyr hyfforddiant yn cyfeirio at ddata, darpariaeth ddigidol a chydnabod dysgu blaenorol. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at ddysgu cyfunol a digidol, cynllunio ar sail data, llwybrau dilyniant cryfach, cydnabod dysgu blaenorol, seilwaith digidol gwell a dulliau symlach o gasglu data ac adrodd arno. Dywedodd hefyd na ellir 'symleiddio' cymorth un-i-un ar gyfer dysgu seiliedig ar

waith heb gael effaith negyddol. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at ddarpariaeth sy'n seiliedig ar ddata, ffyrdd o leihau gwastraff mewn prosesau, symleiddio adroddiadau, modelau darparu ar y cyd a chyfuno adnoddau. Cyfeiriodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) at bartneriaeth cyflogwyr a darpariaeth hyblyg. Awgrymodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) hefyd y gallai cyllidebau rheoleiddio a llywodraethiant fod yn cynyddu yn hytrach na lleihau, gan godi cwestiynau ynghylch o ble mae arbedion effeithlonrwydd y system yn bwriadu dod.

7.4.3 Roedd cyflwyniadau AB yn cyfeirio at rannu gwasanaethau a chynllunio rhanbarthol. Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) at fodel cydwasanaethau ar gyfer swyddogaethau cefn swyddfa tebyg i rai Gwasanaethau a Rennir y GIG, gan nodi materion posibl yn ymwneud â threth ar werth (TAW). Dywedodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) y dylai arbedion fod ar draws y system, nid fesul sefydliad, a chyfeiriodd at gaffael ar y cyd, cysoni rhaglenni rhanbarthol, darpariaeth fodiwlaidd a rhesymoli dosbarthiadau bach drwy gydweithio rhwng colegau. Cyfeiriodd Coleg Gwent (FE08) at drefniant trydyddol sy'n mynd i'r afael â chweched dosbarth bach, arbedion maint, dewis y dysgwyr a'u deilliannau.

7.4.4 Roedd y cyflwyniadau addysg uwch yn cyfeirio at adolygu portffolio, technoleg, staffio a chyfyngiadau ar arbedion pellach. Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod y cwmpas ar gyfer enillion effeithlonrwydd syml yn gyfyngedig a bod llawer o'r hyn y gellir ei gyflawni'n rhesymol eisoes wedi'i wreiddio ym modelau gweithredu'r prifysgolion. Cyfeiriodd at gostau sefydlog a lled-sefydlog, sy'n golygu costau na ellir eu lleihau'n hawdd yn y tymor byr, gofynion rheoleiddio a sicrhau ansawdd, a'r pwynt pan fydd cwtogi'n digwydd yn hytrach na gweithredu'n effeithlon. Cyfeiriodd Prifysgol Caerdydd (HE06) at fodelau addysgu, technolegau ac arferion addysgeg newydd, gan leihau costau'n ymwneud â chyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, dileu trwyddedau meddalwedd, gohirio uwchraddio cyfarpar clyweledol, atal tanysgrifiadau a rhewi prosesau recriwtio. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) na ellir gwasgu niferoedd staffio ymhellach heb niweidio cymarebau myfyrwyr-i-staff. Dywedodd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (HE09) mai ateb tymor byr yw lleihau costau'n unig.

7.4.5 Roedd y cyflwyniadau eraill yn cyfeirio at systemau a rennir ac arbedion effeithlonrwydd ar draws y system. Cyfeiriodd Prifysgol De Cymru (HE02) at hybiau rhagoriaeth rhanbarthol, cyfleusterau a rennir, addysgu ar y cyd, dylunio rhaglenni cydlynol a gwasanaethau a rennir fel adnoddau dynol, caffael a gwasanaethau cyfreithiol. Cyfeiriodd ColegauCymru (RB15) at gyfnerthu pŵer prynu, lleihau darnio a dyblygu, rhesymoli darpariaeth ar gyfer chweched dosbarth bach a chydweithio ar draws y Llwybr Dysgu a Dilyniant 14 i 19 oed. Cyfeiriodd Jisc (RPB01) at gaffael ar y cyd, seilwaith digidol cydweithredol, seiberddiogelwch a gwasanaethau cwmwl. Cyfeiriodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (RPB08) at arbedion effeithlonrwydd yn sgil llwybrau gwell i ddysgwyr ar draws AB, AU a dysgu seiliedig ar waith, gan leihau dyblygu dysgu a chefnogi trosglwyddo credydau. Roedd RCN Cymru (RB12) yn cefnogi cyfleusterau a rennir a dulliau digidol ond nododd fod yn rhaid i

addysg nyrsio fodloni gofynion cymeradwyo'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a bod angen i nyrsys ddysgu nyrsio gan nyrsys.

7.4.6 Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod llawer o sefydliadau eisoes wedi rhoi mesurau effeithlonrwydd sylweddol ar waith ac wedi dadlau y gallai arbedion pellach gynrychioli mwy a mwy o ostyngiad mewn gweithgarwch yn hytrach nag enillion effeithlonrwydd.

7.4.7 Dywedodd rhai cyflwyniadau fod cyfleoedd ar gyfer arbedion pellach yn gyfyngedig neu nad oeddent ar gael heb effeithio ar y ddarpariaeth. Dywedodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) nad oedd cyfleoedd i arbed costau Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a dywedodd NEON (TS02) y byddai arbedion cost pellach yn debygol o effeithio ar ddewis y dysgwr a phrofiad y myfyriwr.

7.5 Deilliannau a manteision buddsoddi mewn addysg drydyddol

7.5.1 Roedd y cyflwyniadau'n trafod manteision buddsoddi mewn addysg drydyddol o ran cyflogaeth barhaus, sgiliau, symudedd cymdeithasol, gwasanaethau cyhoeddus, iechyd, llesiant, y Gymraeg, ymchwil ac arloesi a'r cynhyrchiant dilynol. Roedd y cyflwyniadau'n defnyddio diffiniadau gwahanol o enillion, gan gynnwys enillion marchnad lafur breifat, dilyniant dysgwyr, llai o alw ar wasanaethau cyhoeddus, manteision cyhoeddus a chapasiti pynciau strategol.

7.5.2 Cyfeiriodd CITB Cymru (EI01) at symud ffocws cyllid o gofrestru a chwblhau tuag at ddeilliannau cyflogaeth barhaus. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at gyllid lle mae'n darparu enillion cymdeithasol, economaidd a thegwch ar y cyd. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at ddilyniant a deilliannau cyrchfannau, gan gynnwys deilliannau cadarnhaol o ran cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chyflawni'n rhannol. Cyfeiriodd hefyd at fuddsoddi mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, a buddsoddi wedi'i dargedu mewn dysgu seiliedig ar waith a llwybrau technegol. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) hefyd at fuddsoddiad cyhoeddus mewn prentisiaethau a llwybrau seiliedig ar waith, gan gynnwys ailgynllunio cymhorthdal cyflog ar gyfer busnesau bach a chanolig, fel rhywbeth sy'n cynnig enillion drwy recriwtio, dilyniant a thwf busnes.

7.5.3 Cyfeiriodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) at symud i wirfoddoli, dysgu pellach, mwy o gymwysterau, hyder, gwydnwch a llesiant. Cyfeiriodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (RB02) at y ffaith bod dysgu oedolion yn gwella twf economaidd, cynhyrchiant, iechyd a llesiant, cydlyniant cymdeithasol a chyfranogiad dinesig. Dywedodd Dysgu Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin (ACL03) y dylid blaenoriaethu Sgiliau Hanfodol ac ESOL ym maes dysgu oedolion cymunedol fel sylfaen ar gyfer dilyniant a dysgu pellach.

7.5.4 Disgrifiodd Prifysgolion Cymru (RB09) brifysgolion Cymru fel asedau cenedlaethol sy'n sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol ledled Cymru, gan gynnwys arloesi, sgiliau, datblygu rhanbarthol, piblinellau gwasanaethau cyhoeddus a symudedd cymdeithasol a'r cynnydd mewn cynhyrchiant sy'n deillio o hynny. Cyfeiriodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (RB11) at ymchwil sy'n amcangyfrif bod pob

£1 o gyllid ymchwil ac arloesi cyhoeddus yn cynhyrchu £7 mewn buddion economaidd, ac ar wahân, dywedodd mai cyfanswm effaith economaidd prifysgolion Cymru yw £10.97 biliwn.

7.5.5 Cyfeiriodd RCN Cymru (RB12) at gefnogaeth i gyrsiau nyrsio sy'n helpu i ddenu mwy o bobl i broffesiwn sy'n hanfodol i ddiogelwch ac sy'n achub bywydau ac yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol. Cyfeiriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) at ddefnyddio cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i gyflawni blaenoriaethau polisi, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â sgiliau Cymraeg. Cyfeiriodd yr Academi Brydeinig (RB06) at werth y dyniaethau, gwyddorau cymdeithasol a'r celfyddydau mewn bywyd cyhoeddus, sgiliau a deilliannau cymdeithasol ehangach. Cyfeiriodd NEON (TS02) at fanteision ehangach addysg y tu hwnt i ddeilliannau'r farchnad lafur, gan gynnwys manteision iechyd corfforol a meddyliol. Cyfeiriodd Partneriaeth ACL Abertawe (ACL04) hefyd at gydlyniant cymunedol, llai o ynysigrwydd cymdeithasol a gwell iechyd a llesiant i ddysgwyr hŷn.

7.6 Buddsoddiad cyfalaf a seilwaith

7.6.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at ystadau, seilwaith digidol, cyfleusterau arbenigol, labordai, cyfarpar technegol, lleoliadau cymunedol, datgarboneiddio, seilwaith sero net, mannau addysgu, mannau cymorth i ddysgwyr a chyfleusterau a rennir.

7.6.2 Roedd cyflwyniadau'r darparwyr hyfforddiant yn codi pryderon ynghylch mynediad at gyllid cyfalaf. Dywedodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) fod dysgu seiliedig ar waith wedi cael ei eithrio'n flaenorol o Grantiau Trawsnewid Digidol ac nad yw darparwyr hyfforddiant annibynnol yn cael dim o'r cymorth cyfalaf hwn. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at seilwaith digidol, amgylcheddau dysgu rhithwir, cyfleusterau arbenigol sy'n cyd-fynd â sectorau blaenoriaeth, modelau ystad a rennir a buddsoddiadau cyfalaf ystwyth neu symudol. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at amgylcheddau dysgu rhithwir, offer efelychu, AI a realiti rhithwir, cyfleusterau o safon diwydiant a chynnwys darparwyr hyfforddiant annibynnol. Awgrymodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) y dylai buddsoddiad cyfalaf ddilyn y dysgwr yn hytrach na'r math o sefydliad.

7.6.3 Roedd y cyflwyniadau AB yn codi materion yn ymwneud ag ystadau a chyfleusterau arbenigol. Dywedodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) mai'r prif rwystr mewn buddsoddiad cyfalaf yw'r gofyniad am 35% o arian cyfatebol sy'n gysylltiedig â Chymunedau Dysgu Cynaliadwy. Cyfeiriodd Grŵp Colegau NPTC (FE06) at ystadau AB, cynnal a chadw adweithiol, cyfleusterau wedi'u moderneiddio ym Mhowys, seilwaith digidol, trawsnewid ystadau sero net, amgylcheddau addysgu cyfrwng Cymraeg a chyfarpar arbenigol. Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) at ddefnyddio ystafelloedd addysgu, cyfleusterau arbenigol, mannau cymdeithasol, cymorth i fyfyrwyr a mannau llesiant, a seilwaith digidol. Cyfeiriodd Coleg Gwent

(FE08) at adeiladau categori C, strategaethau ystadau, costau ynni a chynnal a chadw, a datblygu staff.

7.6.4 Roedd y cyflwyniadau addysg uwch yn cyfeirio at ystadau hanesyddol, cyllid cyfalaf a seilwaith ymchwil. Cyfeiriodd Prifysgol Abertawe (HE01) at ôl-groniad cynnal a chadw, optimeiddio gofod, datgarboneiddio, cyfleusterau ymchwil ac arloesi, a mannau addysgu a dysgu. Cyfeiriodd Prifysgol Caerdydd (HE06) at newidiadau mewn patrymau gwaith ac addysgu, moderneiddio cyfleusterau addysgu ac ymchwil, cynaliadwyedd amgylcheddol, gwaredu asedau a mecanwaith cyllido ar gyfer seilwaith ar raddfa fwy. Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod cyllid cyfalaf ar gyfer AU yng Nghymru wedi bod yn gyson is nag mewn rhannau eraill o'r DU. Cyfeiriodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) at ddatgarboneiddio, lleihau gwastraff, blaenoriaethau ymchwil sy'n gysylltiedig â strategaeth ddiwydiannol a seilwaith digidol. Cyfeiriodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RB10) at ostyngiadau mewn cyllidebau ar gyfer seilwaith ymchwil, seilwaith addysgu sy'n benodol i bwnc, cynnal a chadw cyfleusterau a chyfarpar.

7.6.5 Nododd y cyflwyniadau ofynion cyfalaf gwahanol yn ôl pwnc a lle. Cyfeiriodd y Cyngor Athrawon Peirianneg (RB07) at fuddsoddiad cyfalaf sefydlog mewn labordai unigol a labordai a rennir a seilwaith technegol. Dywedodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RB10) fod cemeg yn dibynnu ar gyfleusterau arbenigol, cyfarpar a sgiliau arbenigol. Cyfeiriodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) at safleoedd bach, hyblyg ar gyfer anghenion lleol a gwledig, lleoliadau cymunedol a rennir, mannau dysgu sy'n ystyriol o'r synhwyrau a mannau coleg arbenigol ategol. Dywedodd Make UK (TS05) fod hyfforddiant peirianneg a gweithgynhyrchu yn dibynnu ar fuddsoddiad cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau i ddysgwyr eu defnyddio.

7.6.6 Cyfeiriodd Cyngor Sir Ceredigion (LA05) at uwchraddio seilwaith dysgu, cynnal a chadw adeiladau sy'n heneiddio, ehangu seilwaith digidol a chyfleusterau pwnc strategol. Disgrifiodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) gapasiti dysgu oedolion a'r gymuned fel seilwaith sy'n hanfodol i'r system. Cyfeiriodd EAUC (TS03) at fuddsoddiad cyfalaf parhaus, cyllid arloesol, datgarboneiddio, addasu a gwydnwch. Dywedodd Natspec (TS01) y dylai buddsoddiad cyfalaf mewn colegau arbenigol fynd i'r afael â bwlch yn y system bresennol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth, llai cyffredin.

7.7 Tensiynau

Mae'r adran hon yn nodi'r tensiynau a nodwyd ar draws y cyflwyniadau yn eu cyfanrwydd. Disgrifiwyd rhai yn uniongyrchol gan ymatebwyr unigol; mae eraill yn deillio o gymharu safbwyntiau a fynegwyd mewn gwahanol gyflwyniadau. Maent yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr ac nid safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru mohonynt.

7.7.1 Cymorth i ddysgwyr o'i gymharu â chynaliadwyedd sefydliadol: nodwyd bod y ddau yn bwysig, ond maent yn defnyddio'r un amgylchedd cyllido cyfyngedig.

7.7.2 Effeithlonrwydd o'i gymharu ag ansawdd a mynediad: roedd sawl cyflwyniad yn cefnogi effeithlonrwydd a chydweithio, ond rhybuddiwyd y gallai arbedion pellach effeithio ar amser cyswllt, cymorth i ddysgwyr, staffio, profiad myfyrwyr, ehangder y cwricwlwm neu ofynion proffesiynol.

7.7.3 Hyblygrwydd o'i gymharu â chostau: gall darpariaeth fodiwlaidd, ran-amser a chymunedol wella mynediad ond gall fod yn drwm ar adnoddau.

7.7.4 Manteision y farchnad lafur breifat o'u cymharu â manteision cymdeithasol: roedd y cyflwyniadau'n gwerthfawrogi deilliannau cyflogaeth ond hefyd llesiant, cydlyniant a chyfraniad gwasanaeth cyhoeddus.

7.7.5 Buddsoddiad cyfalaf o'i gymharu â sefydlogrwydd refeniw: mae angen i fuddsoddiad mewn seilwaith gyd-fynd â chyllid cyflawni cynaliadwy.

7.7.6 Cymorth cyffredinol o'i gymharu â chymorth wedi'i dargedu: roedd y cyflwyniadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth ariannol i ddysgwyr ond yn amrywio o ran pwyslais rhwng diogelu cymorth cynhaliaeth eang a thargedu cymorth at ddysgwyr sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf.

7.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau

7.8.1 Ar draws y dystiolaeth, roedd y cyflwyniadau'n dangos cysondeb cyffredinol ar sawl egwyddor, er bod yr ymatebwyr yn amrywio o ran y pwyslais roeddent yn ei roi arnynt a sut dylid eu rhoi ar waith.

7.8.2 Pryder a gododd dro ar ôl tro ar draws y cyflwyniadau oedd y gall rhwystrau ariannol gyfyngu ar gyfranogiad a lefelau cadw dysgwyr.

7.8.3 Roedd y cyflwyniadau'n dadlau'n aml y dylai modelau cyllido adlewyrchu gwir gostau gwahanol fathau o ddarpariaeth yn well.

7.8.4 Roedd cefnogaeth eang i gyllid tymor hwy a mwy sefydlog i wella gallu darparwyr i gynllunio.

7.8.5 Roedd y cyflwyniadau'n aml yn nodi cydweithio fel ffordd bosibl o wella effeithlonrwydd, gan bwysleisio hefyd bod cydweithio'n gofyn am ddigon o adnoddau, capasiti a buddsoddiad cychwynnol.

7.8.6 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn nodi y dylai penderfyniadau buddsoddi ystyried deilliannau'r farchnad lafur breifat a deilliannau cyhoeddus a chymdeithasol ehangach.

7.8.7 Roedd cytundeb eang bod angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer ystadau, seilwaith digidol, cyfleusterau arbenigol a datgarboneiddio. Fodd bynnag, roedd y cyflwyniadau'n amrywio o ran lle dylid blaenoriaethu cymorth cyfalaf, gan gynnwys ystadau addysg bellach, seilwaith ymchwil addysg uwch, darparwyr hyfforddiant annibynnol, colegau arbenigol a darpariaeth yn y gymuned.

7.8.8 Roedd amrywiaeth barn ynghylch y posibilrwydd am ragor o arbedion effeithlonrwydd. Roedd rhai cyflwyniadau'n nodi bod gwasanaethau a rennir, caffael, darpariaeth ddigidol a darpariaeth ar y cyd yn feysydd posibl ar gyfer arbedion, tra bod eraill yn dadlau y byddai arbedion pellach yn effeithio'n uniongyrchol ar brofiad, ansawdd neu fynediad dysgwyr.

7.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi

7.9.1 Targedu cymorth i ddysgwyr tuag at drafnidiaeth, cynhaliaeth neu galedi, gofal plant, cyfarpar, mynediad digidol, cyflogau prentisiaid a llesiant neu gymorth bugeiliol lle mae'r rhain yn effeithio ar gyfranogiad, lefelau cadw a dilyniant (WBL03, RB15, SO01).

7.9.2 Adolygu bylchau penodol mewn cymorth i ddysgwyr, gan gynnwys cymorth gofal plant i fyfyrwyr ôl-raddedig, bwrsarïau prentisiaid neu gymorth cyflogau, a chostau sy'n effeithio ar ddysgwyr mewn ardaloedd gwledig, dysgwyr sy'n cymudo a dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd angen teithio ymhellach i gyrraedd y ddarpariaeth (RB04, WBL04, RB08).

7.9.3 Defnyddio setliadau cyllido amlflwyddyn, sy'n sensitif i chwyddiant neu sy'n gysylltiedig â mynegai lle mae'r rhain yn cefnogi cynllunio, sefydlogrwydd darparu ac ymatebolrwydd i'r galw lleol (ACL02, RB02, RB09).

7.9.4 Adolygu modelau cyllido fel eu bod yn adlewyrchu cost darpariaeth cost uchel, carfan fach, cyfrwng Cymraeg, seiliedig ar waith, oedolion, yn y gymuned ac arbenigol yn well (FE04, HE05, ACL03, RB07).

7.9.5 Cefnogi gwasanaethau a rennir, caffael ar y cyd, rhannu cyfleusterau, darparu ar y cyd a seilwaith digidol lle mae'r rhain yn diogelu ansawdd, mynediad dysgwyr a gofynion proffesiynol (FE06, RPB01, RB12).

7.9.6 Cydnabod dysgu blaenorol, llwybrau dilyniant cliriach a darpariaeth gydlynol i leihau dysgu ailadroddus diangen a gwella symudiadau dysgwyr ar draws y system (WBL03, RPB08).

7.9.7 Ehangu mynediad at fuddsoddiad cyfalaf i ddarparwyr sy'n darparu darpariaeth strategol, arbenigol neu anodd ei chyrraedd, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant annibynnol, colegau arbenigol, darpariaeth gymunedol a chyfleusterau technegol cost uchel (WBL04, TS01, TS05).

7.9.8 Hefyd, ystyried enillion ar fuddsoddiad yn gyffredinol, gan gynnwys cyflogaeth barhaus, dilyniant, manteision cyhoeddus fel deilliannau Cymraeg, cydlyniant cymunedol, llesiant ac ymchwil a sgil-effeithiau arloesi (EI01, ACL04, FE04, RB11).

8. Her 4: Newid demograffig a dysgu gydol oes

8.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn a nodwyd yn y cyflwyniadau am newid demograffig a dysgu gydol oes. Mae'n ymdrin â newid demograffig a pharodrwydd systemau, rhwystrau i ddysgu gydol oes, dysgu hyblyg, anghenion sgiliau oedolion, a pholisi a blaenoriaethau dysgu oedolion.

8.2 Newid demograffig a pharodrwydd systemau

8.2.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at newid demograffig mewn perthynas â newidiadau yn nifer y dysgwyr iau, poblogaeth sy'n heneiddio, amrywiadau rhanbarthol, galw am y gweithlu, cyfranogiad oedolion a newidiadau yn anghenion dysgwyr.

8.2.2 Wrth ymateb i'r amcanestyniadau demograffig a nodir yn y cais am gyflwyniadau, dadleuodd ColegauCymru (RB15) y gallai twf is neu ostyngiad yn nifer y dysgwyr ifanc leihau cofrestriadau amser llawn heb arwain at ostyngiad cyfatebol yng nghostau darparwyr. Roeddent hefyd yn cysylltu poblogaeth sy'n heneiddio a bywydau gwaith hirach â mwy o alw am addysg oedolion, uwchsgilio a darpariaeth sgiliau sylfaenol.

8.2.3 Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod gostyngiad mewn carfannau 16 i 18, gweithlu sy'n heneiddio ac ansefydlogrwydd economaidd yn golygu y gallai twf mewn cyfranogiad yn y dyfodol gael ei briodoli fwyfwy i oedolion yn hytrach na dysgwyr ifanc amser llawn. Dywedodd hefyd fod tybiaethau cyllido a chynllunio presennol yn parhau i fod wedi'u pwysoli tuag at gyfranogiad ifanc, amser llawn, gan greu anghysondeb rhwng dyluniad y system ac anghenion demograffig yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu efallai na fydd y ffordd y caiff y ddarpariaeth ei hariannu a'i chynllunio yn addas ar gyfer y galw yn y dyfodol. Yn yr un modd, pwysleisiodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (RB02) bwysigrwydd cyfleoedd i bobl sydd eisoes o oedran gweithio, yn y gwaith a'r tu allan i'r gwaith, i wella cymwysterau a sgiliau.

8.2.4 Roedd cyflwyniadau darparwyr hyfforddiant yn cysylltu newid demograffig â'r galw am y gweithlu. Dywedodd NTFW (WBL03) fod darparwyr yn cynllunio ar gyfer y gostyngiad a ragwelir yn y boblogaeth ifanc yn ystod y 2030au, gyda phwyslais cryfach ar ddysgu gydol oes, uwchsgilio'r gweithlu a llwybrau sy'n cael eu llywio gan gyflogwyr. Dywedodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) fod cynllunio ar gyfer newid demograffig yn cael ei lywio gan y galw am weithlu yn y sectorau lleol a rhanbarthol, newidiadau yn y farchnad lafur a phartneriaethau strwythuredig â chyrff yn y diwydiant. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at ehangu llwybrau hygyrch ar lefelau is ac uwch i gefnogi oedolion sy'n dychwelyd i astudio a datblygu sgiliau newydd mewn rolau wrth i'r boblogaeth heneiddio.

8.2.5 Roedd nifer o'r cyflwyniadau'n cyfeirio at amrywiadau rhanbarthol a lleol. Dywedodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (HE04) y byddai newidiadau mewn demograffeg 16 i 18 oed yn amrywio yn ôl awdurdod lleol ac y dylai'r cynllunio gael ei lywio gan y proffil addysgol ym mhob ardal. Cyfeiriodd Cyngor Bro Morgannwg (LA02)

at ostyngiadau a ragwelir mewn poblogaethau 16 i 18 oed o 2028 ymlaen a dywedodd fod yn rhaid i gynllunio gydbwyso twf ar unwaith â chyfyngiadau demograffig tymor canolig. Cyfeiriodd Cyngor Sir Ceredigion (LA05) at ardaloedd gwledig a darparu'r un cyfleoedd cwricwlwm ar draws cymunedau gwasgaredig. Dywedodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (RPB08) fod newid demograffig yn debygol o roi mwy o bwysau ar ddarparwyr i gynllunio ar draws rhanbarthau, pynciau a dulliau darparu.

8.2.6 Roedd y cyflwyniadau gan y sector dysgu oedolion a'r gymuned yn cyfeirio at ddysgwyr hŷn a dysgwyr ESOL. Dywedodd Partneriaeth ACL Abertawe (ACL04) mai ychydig iawn yn y papur tystiolaeth oedd yn ymwneud â dysgwyr y tu hwnt i oedran gweithio a chyfeiriodd at ddosbarthiadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a oedd yn galluogi dysgwyr i barhau i fod yn feddyliol egnïol yn ystod eu hymddeoliad. Dywedodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) fod dysgwyr hŷn yn cael eu cynrychioli'n dda ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned a bod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y dysgwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

8.2.7 Cyfeiriodd RCN Cymru (RB12) at boblogaeth sy'n heneiddio a galw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd y bydd y tueddiadau hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (RPB08) y dylai datblygu polisi gefnogi darparwyr i gynllunio ar gyfer newid demograffig drwy rannu a deall data ar lefel system, cysoni cyllid a galw, a chydlynu'r ddarpariaeth ar draws rhanbarthau. Mynegodd Make UK (TS05) bryder hefyd ynghylch gallu'r sector darparwyr hyfforddiant yng Nghymru i ddiwallu anghenion y diwydiant sgiliau ar lefelau is ac uwch.

8.3 Rhwystrau rhag dysgu gydol oes

8.3.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at rwystrau sy'n gysylltiedig â rheolau cyllido, cymorth i ddysgwyr, trafnidiaeth, gofal plant, deunyddiau cyrsiau, cyflogwyr yn rhyddhau staff, cymhlethdod gweinyddol, gofynion mynediad, cydnabod dysgu blaenorol, trosglwyddo credydau, data dysgwyr, a mynediad at wybodaeth. Mae cydnabod dysgu blaenorol yn golygu derbyn dysgu neu brofiad perthnasol sydd gan ddysgwr yn barod. Ystyr trosglwyddo credydau yw caniatáu i ddysgu a gwblheir mewn un lle gyfrif tuag at ddysgu mewn man arall.

8.3.2 Dywedodd CITB Cymru (EI01) fod cyfyngiadau cyllido, gan gynnwys cyfyngiadau ar leoedd prentisiaeth, yn lleihau gallu'r system i ymateb i alw gan gyflogwyr. Dywedodd hefyd fod strwythurau rhaglenni yn aml yn anhyblyg, gyda chyfnodau hir a modiwlau cyfyngedig, sy'n eu gwneud yn llai hygyrch i ddysgwyr sy'n oedolion a'r rheini sydd mewn cyflogaeth.

8.3.3 Roedd cyflwyniadau'r darparwyr hyfforddiant yn codi pryderon ynghylch rhwystrau o ran rheoleiddio a chyllid. Cyfeiriodd VTCT Skills (WBL02) at ddiffyg cyllid, gofynion mynediad a'r angen i wella hyblygrwydd ac eglurder cyllid ar gyfer dysgu

oedolion. Dywedodd NTFW (WBL03) nad yw'r system bresennol wedi'i chynllunio ar gyfer dysgu hyblyg, modiwlaidd na phob oed. Mae dysgu modiwlaidd yn golygu unedau dysgu byrrach y gellir eu cronni dros amser. Cyfeiriodd at fodelau cyllido sy'n blaenoriaethu rhaglenni llinol, amser llawn, rheolau cymhwysedd tameidiog ar draws AB, AU a dysgu seiliedig ar waith, diffyg cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol a chyfyngiadau deddfwriaethol.

8.3.4 Galwodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) am sicrwydd cyllid aml-flwyddyn, cyllid cymorth teg i ddysgwyr, diwygio prentisiaethau i ganiatáu hyblygrwydd ac arloesedd, a gweithredu fframwaith rheoleiddio Medr mewn ffordd sy'n cydnabod natur unigryw prentisiaethau. Cyfeiriodd hefyd at drefniadau contractio blwyddyn, baich gweinyddol ychwanegol, gofynion Mathemateg a Saesneg rhagnodol, a diffyg cyllid penodol ar gyfer cymorth i ddysgwyr.

8.3.5 Dywedodd Educ8 Training (WBL01) fod y system yn dameidiog, a bod rheolau cyllido a chymhwysedd yn cyfyngu ar symudiadau dysgwyr ar draws AB, AU a dysgu seiliedig ar waith. Cyfeiriodd hefyd at ddiffyg cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol, dyblygu, a rhwystrau deddfwriaethol sy'n effeithio ar fynediad at rannau o raglenni prentisiaeth.

8.3.6 Roedd y cyflwyniadau gan y sector dysgu oedolion yn y gymuned yn cyfeirio at rwystrau o ran data a chyllid. Dywedodd Dysgu Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin (ACL03) y gall fod yn anodd rheoli cyllid sy'n seiliedig ar oriau dysgwyr, neu dariff, ar gyfer dysgwyr Sgiliau Hanfodol lefel is ac ESOL, ac nad oes gan ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar raddfa fach yr arbedion maint y gall AB elwa ohonynt. Mae arbedion maint yn golygu'r arbedion y gall darparwyr mwy eu cyflawni drwy ddarparu i fwy o ddysgwyr. Dywedodd Partneriaeth ACL Abertawe (ACL04) fod codiadau cyflog a chostau byw blynyddol yn golygu bod gofyn i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned ddarparu mwy gyda llai o adnoddau. Cyfeiriodd hefyd at rwystrau GDPR a rhannu data dysgwyr ar draws y bartneriaeth. Dywedodd Rhondda Cynon Taf (ACL05) fod Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei ariannu'n flynyddol ac y byddai cyllid tymor hwy yn darparu gwell cynllunio strategol.

8.3.7 Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod fforddiadwyedd a logisteg, gan gynnwys trafnidiaeth, gofal plant, deunyddiau cyrsiau a gallu cyflogwyr i ryddhau staff, yn cyfyngu ar ddysgu gydol oes. Cyfeiriodd hefyd at reolau cyllido sy'n rhoi darpariaeth ran-amser, fodiwlaidd a chymunedol dan anfantais. Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe (ACL07) at anghenion datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr yn y gymuned a thiwtoriaid arbenigol. Cyfeiriodd Cwmpas (RB13) hefyd at rwystrau seicolegol neu ddiwylliannol y gallai rhai oedolion eu hwynebu mewn lleoliadau sefydliadol traddodiadol.

8.3.8 Nododd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod capasiti cyflogwyr i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant yn rhwystr sylweddol i ddysgu gydol oes, yn enwedig lle mae cyflogwyr yn wynebu prinder gweithlu neu bwysau gweithredol.

8.3.9 Roedd y cyflwyniadau gan fyfyrwyr a'r trydydd sector hefyd yn codi rhwystrau o ran mynediad. Cyfeiriodd NUS Cymru (SO01) at drafnidiaeth, gofal plant a chydbwyso astudio â gwaith. Cyfeiriodd Natspec (TS01) at rwystrau deddfwriaethol a gweinyddol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, gan gynnwys yr hyn a ddisgrifiodd fel amwysedd yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY), gwybodaeth anghyson am opsiynau ôl-16, ac anawsterau trafnidiaeth ar ôl cytuno ar gyllid coleg arbenigol. Cyfeiriodd yr Academi Brydeinig (RB06) at resymau ariannol dros beidio â bod eisiau gwneud dilyniant cyflymach, bod yn llai cymwys i gael budd-daliadau a gostyngiadau yn y dreth gyngor wrth astudio, a phrofiadau negyddol fel dysgwr anhraddodiadol.

8.3.10 Dywedodd UNSAIN (TU01) fod anawsterau wrth drosglwyddo credyd yn cael eu gwaethygu gan systemau gweinyddol nad ydynt yn cyfathrebu'n effeithiol ar draws sefydliadau, gan greu rhwystrau i ddysgwyr sy'n symud rhwng lefelau a darparwyr.

8.3.11 Roedd sawl cyflwyniad yn cyfeirio at drosglwyddo credydau a chydnabod dysgu blaenorol. Dywedodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (HE04) nad yw cydnabod dysgu blaenorol bob amser yn cael ei ddefnyddio'n gyson, yn enwedig ar gyfer darpariaeth prentisiaethau. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at gefnogi'r broses o drosglwyddo credydau a chydnabod dysgu blaenorol. Dywedodd UNSAIN (TU01) nad yw systemau gweinyddol yn aml yn 'siarad' â'i gilydd, sy'n golygu bod trosglwyddo credydau'n anodd i ddysgwyr sy'n symud o Lefel 3 i Lefel 4.

8.3.12 Codwyd capasiti cyflogwyr hefyd. Dywedodd NCUB (RB03) fod buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau a hyfforddiant yn gostwng ledled y DU, gan effeithio ar gyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes. Cyfeiriodd at gapasiti cyfyngedig a chynnydd mewn costau recriwtio sy'n cyfyngu ar allu busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i fuddsoddi mewn hyfforddiant.

8.4 Dysgu hyblyg

8.4.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at ddysgu hyblyg mewn perthynas ag astudio rhan-amser, darpariaeth fodiwlaidd, dysgu cyfunol, dysgu seiliedig ar waith, darpariaeth ar-lein, dysgu gyda'r nos ac ar y penwythnos, trosglwyddo credydau, cydnabod dysgu blaenorol, a chyfleoedd i gychwyn, gadael ac ailymuno â dysgu. Mae dysgu cyfunol yn golygu cyfuno dysgu ar-lein a dysgu wyneb yn wyneb.

8.4.2 Roedd y cyflwyniadau gan ddarparwyr hyfforddiant yn cyfeirio at ddarpariaeth fodiwlaidd a seiliedig ar waith. Galwodd NTFW (WBL03) am ddysgu modiwlaidd y gellir ei bentyrru ar draws AB, AU a dysgu seiliedig ar waith, dysgu hyblyg a modiwlaidd ar lefelau is ac uwch, trosglwyddo credydau, cydnabod dysgu blaenorol, a llai o gymhlethdod gweinyddol. Cyfeiriodd hefyd at hyfforddiant byr wedi'i dargedu ar gyfer oedolion heb orfod ymrwymo i gymwysterau llawn. Cyfeiriodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) at fodelau hyblyg sy'n caniatáu i oedolion ailhyfforddi ar yr un pryd â gweithio, gan gynnwys cymwysterau modiwlaidd, cydnabod dysgu blaenorol,

darpariaeth gyda'r nos, ar y penwythnos, ar-lein a chyfunol. Dywedodd Educ8 Training (WBL01) fod angen system gyllido fwy modiwlaidd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr i adlewyrchu llwybrau gyrfa go iawn.

8.4.3 Roedd y cyflwyniadau addysg uwch yn cyfeirio at astudio hyblyg a rhan-amser. Cyfeiriodd Prifysgol De Cymru (HE02) at ddysgwyr yn gallu symud i mewn ac allan o ddysgu wrth i'w gyrfaoedd ddatblygu. Cyfeiriodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) at ddysgu rhan-amser a dysgu o bell sy'n galluogi dysgwyr i astudio ochr yn ochr â gwaith a chyfrifoldebau eraill. Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod cyfranogiad dysgwyr aeddfed a rhan-amser yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o addasu'r gweithlu a datblygu sgiliau ar ganol gyrfa. Dywedodd Undeb Myfyrwyr AU (SO02) mai cymorth cynhaliaeth Cymru i fyfyrwyr rhan-amser yw un o gryfderau'r system Diamond gan ei gysylltu ag astudio hyblyg.

8.4.4 Roedd y cyflwyniadau gan golegau ac AB yn cyfeirio at lwybrau hyblyg, darpariaeth leol a newid yn anghenion dysgwyr. Dywedodd ColegauCymru (RB15) fod angen llwybrau mynediad hyblyg ar ddysgwyr sy'n oedolion ar gyfer sgiliau sylfaenol ac ailsgilio, ac y dylai colegau gefnogi dysgwyr i gyrraedd Lefel 3 a chael gafael ar ddarpariaeth hyblyg ar Lefelau 4 a 5. Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe (FE01) at gyfyngiadau o ran trafnidiaeth, gofal plant ac arian sy'n atal oedolion rhag cymryd rhan mewn dysgu. Cyfeiriodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) at fodel sy'n seiliedig ar gymwysterau llai yn cael eu cyfuno i greu graddau.

8.4.5 Disgrifiodd cyflwyniadau dysgu oedolion ddarpariaeth hyblyg fel rhywbeth sy'n ganolog i gyfranogiad oedolion. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) na ellir cyflwyno Adran 94 heb ddigon o gapasiti dysgu oedolion rhan-amser, cymunedol a hyblyg. Cyfeiriodd at oedolion yn cychwyn, yn gadael ac yn dychwelyd i ddysgu drwy gydol eu bywydau. Cyfeiriodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (ACL06) at lwybrau hyblyg a chyfleoedd dysgu i oedolion, gan gynnwys llwybrau rhan-amser, yn y gweithle a datblygiad proffesiynol. Cyfeiriodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) at ddarpariaeth hyblyg sy'n seiliedig ar leoedd a llwybrau dilyniant di-dor ar draws y system.

8.4.6 Roedd y cyflwyniadau proffesiynol a'r rhai sy'n benodol i bwnc hefyd yn cyfeirio at lwybrau hyblyg. Dywedodd RCN Cymru (RB12) fod dysgwyr yn wynebu rhwystrau oherwydd llwybrau astudio hyblyg cyfyngedig a llwybrau dilyniant aneglur rhwng AB ac AU. Galwodd Cyngor yr Athrawon Peirianneg (RB07) am gymwysterau peirianneg modiwlaidd y gellir eu pentyrru i gefnogi dysgu gydol oes a phontio'r gweithlu. Nododd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (RB01) hefyd y gallai dysgwyr sy'n oedolion fod yn gweithio'n barod ac yn ceisio ffitio astudio o amgylch hyn.

8.5 Anghenion sgiliau oedolion

8.5.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at anghenion sgiliau oedolion mewn llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol, sgiliau iaith Gymraeg, sgiliau galwedigaethol, cyflogadwyedd, uwchsgilio, ailsgilio a phontio'r gweithlu.

8.5.2 Dywedodd NTFW (WBL03) fod gwella llythrennedd, rhifedd a gallu digidol oedolion yn bwysig ar gyfer cyflogadwyedd, cynhyrchiant a chynhwysiant cymdeithasol. Dywedodd hefyd fod dulliau presennol, yn enwedig ym maes Sgiliau Hanfodol, yn gallu rhwystro yn hytrach na galluogi. Dywedodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) fod dysgwyr yn gadael addysg orfodol heb lythrennedd, rhifedd na chymhwysedd digidol cryf, a galwodd am ddysgu cyd-destunol sy'n gwreiddio'r sgiliau hyn yn uniongyrchol mewn ymarfer galwedigaethol. Mae dysgu cyd-destunol yn golygu addysgu sgiliau sylfaenol drwy enghreifftiau ymarferol sy'n gysylltiedig â chwrs neu swydd dysgwr. Cyfeiriodd VTCT Skills (WBL02) at ddiwygio ar draws y meysydd ymgysylltu, cyflenwi, cyllid, arweiniad, data, cydweithio a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dywedodd Educ8 Training (WBL01) hefyd y gall asesu Sgiliau Hanfodol fod yn anhyblyg ac yn anghyson â darpariaeth alwedigaethol.

8.5.3 Roedd y cyflwyniadau AB ac AU yn cyfeirio at sgiliau sylfaenol a galwedigaethol. Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) at y ffaith bod angen i weithwyr ailhyfforddi yn ddiweddarach mewn bywyd a bod angen cymorth ar ddysgwyr i ddatblygu sgiliau sylfaenol ochr yn ochr â rhaglenni academaidd. Dywedodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (HE04) y bydd uwchsgilio ac ailsgilio yn dod yn bwysicach ac na fydd gan gyfran sylweddol o ddysgwyr sy'n mynd i AB TGAU Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg gradd C/4 neu uwch. Cyfeiriodd Coleg Gwent (FE08) at gyfleoedd uwchsgilio cyd-destunol ar gyfer dysgwyr ôl-19 ac at brentisiaethau fel ffordd o uwchsgilio pobl a chyfrannu at yr economi leol.

8.5.4 Codwyd sgiliau Cymraeg yn nifer o'r cyflwyniadau. Cyfeiriodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (ACL06) at oedolion sy'n datblygu sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith, ac at gyfleoedd i oedolion ddatblygu sgiliau sylfaenol fel llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Cyfeiriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) at yr angen i ystyried sgiliau yn y Gymraeg yn hytrach na chyfeirio'n awtomatig at y Saesneg. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg (RPB06) y bydd angen i bolisi ganolbwyntio fwyfwy ar gyfleoedd hyblyg a rhan-amser i ddysgwyr o bob oed a lefel, yn enwedig y rheini sydd eisoes mewn gwaith, gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg.

8.5.5 Roedd cyflwyniadau'r undebau llafur a'r cyrff cynrychioliadol yn cyfeirio at sgiliau sylfaenol a dysgu yn y gweithle. Dywedodd UNSAIN (TU01) fod mwy o fyfyrwyr yn cyrraedd y coleg erbyn hyn heb TGAU Mathemateg a Saesneg, a bod angen amser, athrawon, staff cymorth a lle ar gyfer ailsefyll. Dywedodd hefyd y gallai dysgwyr deimlo'n fwy cyfforddus pe bai dysgu sgiliau sylfaenol yn cael ei gynnig mewn amgylchedd gwaith. Dywedodd UCAC (RB08) fod llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol yn allweddol i fywyd yn yr 21ain ganrif, ochr yn ochr â chyfleoedd i wella sgiliau galwedigaethol. Dywedodd Make UK (TS05) y dylai cynnwys a strwythur sgiliau swyddogaethol fod yn ddigon hyblyg i gyflogwyr a darparwyr wneud dysgu'n berthnasol i alwedigaethau penodol.

8.5.6 Roedd sawl cyflwyniad yn cysylltu sgiliau oedolion â'r economi a gwasanaethau cyhoeddus. Cyfeiriodd RCN Cymru (RB12) at lythrennedd a rhifedd, rhuglder digidol a data, a'r gallu i arwain ym maes iechyd a gofal. Cyfeiriodd Make UK (TS05) at anghenion sgiliau ar gyfer gweithgynhyrchu. Cyfeiriodd EAUC (TS03) at sgiliau gwyrdd a chynaliadwyedd. Cyfeiriodd Jisc (RPB01) at alluogrwydd digidol a sgiliau digidol. Roedd EAUC (TS03) hefyd yn cysylltu sgiliau sylfaenol â chymwyseddau cynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth o'r hinsawdd.

8.6 Polisïau a blaenoriaethau dysgu oedolion

8.6.1 Roedd y cyflwyniadau'n trafod polisi dysgu oedolion mewn perthynas ag Adran 94, Cyfrifon Dysgu Personol, dysgu oedolion a dysgu cymunedol, darpariaeth o dan Lefel 2, gan gynnwys cyrsiau Mynediad a Lefel 1, llwybrau galwedigaethol, dysgu Cymraeg, galw gan gyflogwyr a seilwaith parhaus. Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn gyfleoedd dysgu wedi'u hariannu i oedolion cymwys ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â swydd.

8.6.2 Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod Adran 94 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn sefydlu dyletswydd statudol i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i oedolion. Yn syml, mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod cyfleoedd dysgu addas ar gael i oedolion. Disgrifiodd Adran 94 fel rhywbeth sy'n ymwneud â chyfranogiad: sicrhau bod oedolion yn gallu cael mynediad at ddysgu sydd ar gael, yn addas ac yn ddigonol. Dywedodd fod Adran 94 yn atgyfnerthu cyfranogiad oedolion fel nodwedd barhaol ac annatod o'r system drydyddol, nid un weddilliol. Dywedodd hefyd na ellir cyflawni Adran 94 os yw dulliau cyllido yn rhoi darpariaeth ran-amser yn y gymuned dan anfantais neu'n methu â chydnabod gwir gost darpariaeth wledig, grwpiau bach ac allgymorth.

8.6.3 Dywedodd ColegauCymru (RB15) y gallai Adran 94 gefnogi newid mewn pwyslais ac y byddai'n gam pwysig tuag at ddull newydd o ddysgu gydol oes. Dywedodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (ACL06) y dylai rheoliadau a wneir o dan Adran 94 gyd-fynd â'r fframwaith deddfwriaethol ehangach. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg (RPB06) y dylai Adran 94 a'r polisi dysgu gydol oes ehangach gefnogi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg ar draws gwahanol oedrannau a lefelau. Dywedodd Natspec (TS01) y dylid cynnwys oedolion ag ADY ac anableddau dysgu cymhleth yn benodol wrth ddiffinio 'cyfleusterau priodol' ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant.

8.6.4 Roedd nifer o'r cyflwyniadau'n cyfeirio at Gyfrifon Dysgu Personol. Roedd CITB Cymru (EI01) yn cydnabod gwerth dulliau hyblyg sy'n cael eu harwain gan y galw fel Cyfrifon Dysgu Personol. Dywedodd NTFW (WBL03) fod Cyfrifon Dysgu Personol wedi bod yn llwyddiannus oherwydd eu bod yn hyblyg ac yn fodiwlaidd, a galwodd am eu hehangu i gynnwys pob darparwr trydyddol ac i ganiatáu i fodiwlau'r Cyfrifon gael eu defnyddio fel elfennau dewisol wedi'u hariannu mewn llwybrau prentisiaeth. Galwodd VTCT Skills (WBL02) am fwy o Gyfrifon Dysgu Personol drwy ychwanegu mwy o gyrsiau, cynyddu cyllid a lleihau rhwystrau fel trothwyon incwm. Dywedodd

Educ8 Training (WBL01) fod y Cyfrifon hyn yn effeithiol hefyd oherwydd eu bod yn hyblyg ac yn ymateb i anghenion cyflogwyr.

8.6.5 Disgrifiodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) Gyfrifon Dysgu Personol a chymwysterau galwedigaethol fel rhai sy'n cefnogi oedolion mewn gwaith, neu sy'n chwilio am waith, i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'r swydd. Dywedodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith (RB02) fod y Cyfrifon hyn wedi cynyddu nifer y dysgwyr AB rhan-amser ac awgrymodd y dylid ystyried ehangu i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned ac ystod ehangach o gyrsiau. Dywedodd EAUC (TS03) fod y Cyfrifon wedi dangos galw mawr am gyfleoedd hyfforddi i oedolion ac wedi cefnogi mynediad at hyfforddiant sy'n cyd-fynd â sectorau â blaenoriaeth. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) nad oes Cyfrifon Dysgu Personol ar gael ar gyfer addysg uwch.

8.6.6 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at lwybrau dysgu ac ymgysylltu yn y gymuned. Cyfeiriodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) at ddarpariaeth ymgysylltu, sylfaenol ac achrededig. Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe (ACL07) at Ddysgu Oedolion yn y Gymuned fel porth i AB, dysgu seiliedig ar waith, AU a chyflogaeth. Cyfeiriodd Ymddiriedolaeth y Brenin Cymru (TS07) at ymgysylltu â phobl ifanc, meithrin hyder a dilyniant. Cyfeiriodd Natspec (TS01) at lwybrau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth a data gwell am gyrchfannau. Disgrifiodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) fod dysgu oedolion a dysgu cymunedol yn bwysig i fynd i'r afael â thlodi, gwella llesiant ac ehangu cyfranogiad.

8.6.7 Cododd Cyngor y Gweithlu Addysg (RPB07) bolisi a blaenoriaethau dysgu oedolion o safbwynt y gweithlu, gan gynnwys goblygiadau newid polisi ar gyfer recriwtio, cofrestru a datblygiad proffesiynol staff sy'n darparu dysgu oedolion.

8.7 Tensiynau

Mae'r adran hon yn nodi'r tensiynau a nodwyd ar draws y cyflwyniadau yn eu cyfanrwydd. Disgrifiwyd rhai yn uniongyrchol gan ymatebwyr unigol; mae eraill yn deillio o gymharu safbwyntiau a fynegwyd mewn gwahanol gyflwyniadau. Maent yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr ac nid safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru mohonynt.

8.7.1 Mynediad o'i gymharu â chynaliadwyedd: rhaid cydbwyso ehangu mynediad â hyfywedd darparwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a darpariaeth cost uchel.

8.7.2 Hyblygrwydd a dyluniad y system: roedd y cyflwyniadau'n gweld gwerth mewn darpariaeth fodiwlaidd a rhan-amser, ond nad yw cyllid a rheoleiddio bob amser yn cefnogi'r math hwn o ddarpariaeth.

8.7.3 Darpariaeth ieuenctid a'r galw gan oedolion: roedd y cyflwyniadau'n codi'r ffaith bod angen diogelu'r ddarpariaeth 16 i 18 oed ar yr un pryd ag ymateb i'r galw am ddysgu oedolion ac ailsgilio.

8.7.4 Cystadleuaeth o'i chymharu â chydweithio: gall pwysau demograffig ddwysáu cystadleuaeth, ac mae cynnal darpariaeth yn dibynnu fwyfwy ar weithio mewn partneriaeth.

8.7.5 Ymatebolrwydd lleol o'i gymharu â chydlynu cenedlaethol: rhoddir gwerth ar hyblygrwydd sy'n seiliedig ar leoedd ond mae'n dibynnu ar gyllid, data a chynllunio cenedlaethol cydlynol.

8.7.6 Galw gan gyflogwyr o'i gymharu â chapasiti cyflogwyr: roedd y cyflwyniadau'n cysylltu dysgu gydol oes ag anghenion y gweithlu ond roeddent hefyd yn codi llai o fuddsoddiad gan gyflogwyr a chapasiti cyfyngedig busnesau bach a chanolig i gefnogi hyfforddiant.

8.7.7 Sgiliau sylfaenol ac asesu: roedd y cyflwyniadau'n gwerthfawrogi llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, ond mynegodd rhai bryder y gall y dulliau Sgiliau Hanfodol presennol ddod yn rhwystrau lle nad ydynt yn gysylltiedig â dysgu galwedigaethol.

8.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau

8.8.1 Roedd cefnogaeth i system dysgu gydol oes sy'n helpu pobl i ddysgu drwy gydol eu bywyd gwaith, gan hefyd gydnabod dysgu oedolion ehangach lle codwyd hyn yn y cyflwyniadau.

8.8.2 Roedd y cyflwyniadau'n cefnogi darpariaeth hyblyg a modiwlaidd, gan gynnwys llwybrau dysgu rhan-amser a dysgu seiliedig ar waith.

8.8.3 Mynegodd y cyflwyniadau bryder ynghylch diffyg cyfatebiaeth o ran cyllid a rheoleiddio, yn enwedig lle mae hyn yn cyfyngu ar ymatebion i newid demograffig.

8.8.4 Pwysigrwydd sgiliau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu ac ailsgilio, sy'n gysylltiedig â newid economaidd a newid yn y farchnad lafur.

8.8.5 Mae proffiliau dysgwyr yn dod yn fwy amrywiol, gan gynnwys oedolion sy'n dychwelyd, dysgwyr cyflogedig, dysgwyr â bylchau mewn sgiliau sylfaenol, dysgwyr ADY a dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau ymarferol neu rwystrau o ran cymorth.

8.8.6 Roedd cysondeb eang y dylai dysgu oedolion gynnwys sgiliau sylfaenol, galwedigaethol, digidol a sgiliau Cymraeg, nid yn unig ailsgilio ar lefel uwch.

8.8.7 Roedd y pwyslais yn amrywio rhwng cyflwyniadau a oedd yn canolbwyntio ar ymatebolrwydd y farchnad lafur a'r rheini a oedd yn pwysleisio manteision ehangach fel llesiant, hyder, cynhwysiant cymdeithasol, cyfranogiad cymunedol a dysgu y tu hwnt i oedran gweithio.

8.8.8 Roedd amrywiaeth hefyd yn y ffordd roedd cyflwyniadau'n fframio newid demograffig. Roedd rhai yn canolbwyntio ar y gostyngiad a ragwelir mewn carfannau iau, tra bod eraill yn pwysleisio bod tueddiadau cymhleth lefel is yn cynnwys y cynnydd presennol yn y galw, amrywiadau rhanbarthol, poblogaethau sy'n heneiddio, twf ESOL a chyfranogiad oedolion.

8.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi

8.9.1 Ehangu ac addasu dysgu modiwlaidd, adeiladol ac ar sail credydau, gan gynnwys micro-gymwysterau, cydnabod dysgu blaenorol a throsglwyddo credydau, i gefnogi dilyniant aflinol (WBL03, RB07, SO02).

8.9.2 Diwygio modelau cyllido i gefnogi darpariaeth ran-amser, gymunedol, hyblyg a seiliedig ar waith yn well, gan gynnwys cyllid amlflwyddyn a llai o ddibyniaeth ar dybiaethau llinol amser llawn (ACL01, ACL05, RB09).

8.9.3 Cryfhau'r cymorth i oedolion sy'n dysgu, gan gynnwys trafnidiaeth, gofal plant, deunyddiau cyrsiau, cymorth ariannol, cyflogwyr i ryddhau staff a gwybodaeth hygyrch (SO01, RB06, ACL01).

8.9.4 Gwella cydlyniad ar draws AB, AU, dysgu oedolion a dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys llwybrau dilyniant cliriach, cynllunio integredig a threfniadau data dysgwyr a rennir lle bo hynny'n briodol (TU01, RPB08, ACL04).

8.9.5 Datblygu darpariaeth yn y gymuned ac yn seiliedig ar leoedd, yn enwedig ar gyfer ardaloedd gwledig, cymunedau difreintiedig, oedolion heb hyder a dysgwyr nad ydynt yn barod i ymuno â darpariaeth ffurfiol (ACL02, ACL07, RB13).

8.9.6 Cryfhau sgiliau sylfaenol oedolion, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol, ESOL, sgiliau Cymraeg a darpariaeth alwedigaethol gyd-destunol (WBL01, ACL03, FE04).

8.9.7 Adolygu Cyfrifon Dysgu Personol, gan gynnwys posibilrwydd ehangu i fwy o ddarparwyr, mwy o gyrsiau, dysgu oedolion yn y gymuned ac elfennau dewisol wedi'u hariannu mewn llwybrau prentisiaeth (WBL02, WBL03, RB02). Codwyd hyn fel ffordd o gefnogi oedolion i ddysgu'n fwy hyblyg.

8.9.8 Gwella galluogrwydd cynllunio sgiliau a demograffig, gan gynnwys rhagolygon demograffig lleol, gwybodaeth am y farchnad lafur, amrywiadau rhanbarthol a'r galw yn y dyfodol am sgiliau iechyd, gofal, gweithgynhyrchu, gwyrdd a digidol (LA02, RB12, TS05).

9. Her 5: Cystadleuaeth a chydweithio

9.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gystadleuaeth a chydweithio. Mae'n ymdrin â'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi cydweithio; cydweithio rhwng ysgolion, AB ac AU ar draws sectorau; diogelu darpariaeth, pynciau a phontio; deinameg y farchnad; a strwythur a risgiau'r farchnad AU.

9.2 Y ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi cydweithio

9.2.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at gydweithio ar draws darparwyr, sectorau, cyflogwyr a chyrff cyhoeddus. Roeddent hefyd yn nodi rhwystrau sy'n gysylltiedig â chyllid, atebolrwydd, llywodraethiant, rhannu data, capasiti, cyfraith cystadleuaeth a blaenoriaethau sefydliadol. Disgrifiodd sawl cyflwyniad y rhwystrau hyn fel rhai strwythurol yn hytrach nag adlewyrchu diffyg parodrwydd i gydweithio. Mae rhwystrau

strwythurol yn nodweddion system sy'n gallu gwneud gweithio ar y cyd yn anoddach, hyd yn oed pan fydd sefydliadau eisiau gweithio gyda'i gilydd.

9.2.2 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn disgrifio ffactorau sy'n galluogi cydweithio, gan gynnwys pwrpas a rennir, ymddiriedaeth, amser, capasiti, deilliannau a rennir, adnoddau sefydlog a chymhellion sy'n cyfateb. Mae cymhellion sy'n cyfateb yn golygu cyllid, targedau neu reolau sy'n cefnogi sefydliadau i weithio tuag at yr un deilliannau. Roedd rhai cyflwyniadau'n cyfeirio at Medr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, partneriaethau dysgu oedolion, gwasanaethau a rennir a chydlynu digidol fel ffactorau posibl sy'n galluogi cydweithio ar lefel system.

9.2.3 Dywedodd CITB Cymru (EI01) fod darparwyr yn aml yn gweithredu ar eu pen eu hunain wrth gynllunio a chynnig darpariaeth, gan arwain at ddyblygu ac aneffeithlonrwydd. Cyfeiriodd hefyd at rannu gwybodaeth gyfyngedig am y farchnad lafur fel cyfyngiad ar gynllunio cydlynol. Nododd CITB Cymru hefyd enghreifftiau cadarnhaol ym maes adeiladu, gan gynnwys modelau prentisiaeth a rennir lle mae prentisiaid yn cael profiad ar draws nifer o gyflogwyr.

9.2.4 Roedd cyflwyniadau'r darparwyr hyfforddiant a phrentisiaethau yn codi pryderon ynghylch rhwystrau o ran rheoleiddio a chyllid. Dywedodd VTCT Skills (WBL02) fod cyllid yn creu rhwystr sylweddol i gydweithio ac y dylai llwybrau gael eu harwain gan ddysgwyr yn hytrach na gan leoliadau. Dywedodd NTFW (WBL03) fod y system bresennol yn creu rhwystrau strwythurol i gydweithio er gwaethaf parodrwydd ar draws y sector. Cyfeiriodd at fethodolegau cyllido tameidiog, diffyg systemau data a rennir, mynediad anghyfartal at gyllid cyfalaf ac arloesi, a gofynion archwilio, cydymffurfio a chontract sy'n amrywio rhwng sectorau.

9.2.5 Cyfeiriodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) at drin darparwyr trydyddol yn anghyfartal, strwythurau llywodraethiant gwahanol, fframweithiau atebolrwydd a rheolau cyllido. Dywedodd, lle mae'r un cymhwyster yn denu cyllid gwahanol yn dibynnu ar bwy sy'n ei ddarparu, nad yw cydweithio'n cael ei annog yn strwythurol. Cyfeiriodd Educ8 Training (WBL01) at systemau cyllido ac atebolrwydd sy'n cymell cystadleuaeth yn hytrach na chydweithio, methodolegau cyllido anghyson a diffyg systemau data a rennir.

9.2.6 Yn ymarferol, roedd y cyflwyniadau hyn yn disgrifio cyfyngiadau gan gynnwys cyfraddau cyllido gwahanol ar gyfer cymwysterau tebyg, cyllidebau wedi'u neilltuo sy'n eithrio rhai darparwyr, gofynion archwilio a chydymffurfio ar wahân, a systemau data nad ydynt yn cefnogi cynllunio ar y cyd. Mae hyn yn rhoi rhagor o fanylion am y mathau o gyfyngiadau y dywedwyd eu bod yn cyfyngu ar gydweithio.

9.2.7 Cododd cyflwyniadau gan sefydliadau dysgu oedolion faterion yn ymwneud â chydweithio. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) nad amharodrwydd sefydliadol yw'r prif rwystr, ond anghysondeb strwythurol o fewn y system. Mae anghysondeb strwythurol yn golygu nad yw rheolau, cyllid na chyfrifoldebau'n cyd-fynd yn dda ar draws y system. Cyfeiriodd at yr angen am amser, capasiti a chymhellion

cyson. Cyfeiriodd Partneriaeth ACL Abertawe (ACL04) at rannu data dysgwyr a GDPR fel rhwystr rhag tracio dilyniant ar draws y bartneriaeth. Dywedodd Partneriaeth ACL Gwent (ACL02) fod cydweithio â Choleg Gwent wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol ond yn gyfyngedig ar hyn o bryd, gan nodi hefyd fod y bartneriaeth yn gweithio ar y cyd i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth.

9.2.8 Roedd cyflwyniadau gan gyrff cynrychioliadol a gweithwyr proffesiynol yn dweud bod cydweithio'n bwysig ond yn defnyddio llawer o adnoddau. Dywedodd ColegauCymru (RB15) fod yn rhaid i gydweithio fod â phwrpas clir sy'n gysylltiedig â budd dysgwyr a chyflogwyr. Nododd RCN Cymru (RB12) fod strwythurau cyllido, cystadleuaeth i fyfyrwyr a blaenoriaethau sefydliadol sy'n amrywio yn rhwystrau. Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod prifysgolion Cymru yn gydweithredol iawn, ond bod cydweithio pellach yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, capasiti arwain, adnoddau gweinyddol a sylw o ran llywodraethiant. Dywedodd yr Academi Brydeinig (RB06) fod cyfraith cystadleuaeth a statws prifysgolion fel 'mentrau' wedi cyfyngu ar rai mathau o gydweithio rhwng darparwyr addysg uwch. Yn y cyd-destun hwn, mae cyfraith cystadleuaeth yn cyfeirio at reolau sy'n gallu cyfyngu ar sut mae sefydliadau'n cydweithredu pan fyddant hefyd yn cystadlu. Yn ôl GW4 (RB04), mae angen cyllid ar bartneriaethau cymhleth er mwyn rheoli, adrodd a gwerthuso rhaglenni, a gall darparwyr optio allan os nad yw'r costau llawn yn cael eu hadlewyrchu.

9.2.9 Soniodd rhai cyflwyniadau am rwystrau cydweithio sy'n benodol i sector. Dywedodd Natspec (TS01) fod cyllido a goruchwylio ar wahân ar gyfer colegau arbenigol a sefydliadau AB yn atgyfnerthu'r rhwyg rhwng darpariaeth prif ffrwd a darpariaeth arbenigol. Cododd UCAC (RB08) wahaniaethau ymarferol rhwng ysgolion a cholegau, gan gynnwys cydnabod cymwysterau athrawon.

9.2.10 Roedd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol (TS04) yn cefnogi fframweithiau polisi sy'n mynd ati i gymell cydweithio rhwng prifysgolion, yn enwedig lle mae hyn yn cryfhau llwybrau dilyniant ac yn lleihau dyblygu diangen. Dywedodd y dylai'r ysgogiad ar gyfer cydweithio ddod gan y sefydliadau eu hunain yn hytrach na chael ei orfodi o'r brig i'r bôn gan y llywodraeth.

9.3 Cydweithio ar draws sectorau

9.3.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at gydweithio rhwng ysgolion, AB, AU, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion, cyflogwyr, awdurdodau lleol, partneriaid yn y trydydd sector a chyrff cyfrwng Cymraeg. Roedd y cyflwyniadau hyn yn cyflwyno cydweithio fel ffordd o gefnogi symudiad dysgwyr rhwng llwybrau, yn hytrach na fel nod ynddo'i hun.

9.3.2 Cyfeiriodd CITB Cymru (EI01) at fentrau profiad gwaith AB sy'n gwella'r broses o bontio i gyflogaeth. Cyfeiriodd VTCT Skills (WBL02) at gysondeb clir rhwng ysgolion a cholegau AB, gyda'r dysgwr wrth galon penderfyniadau gyrfa a chyfleoedd llwybr. Cyfeiriodd NTFW (WBL03) at bartneriaethau rhwng prifysgolion a darparwyr hyfforddiant i ddarparu prentisiaethau gradd, rôl Gyrfa Cymru mewn gwybodaeth

ddiduedd, a darparwyr hyfforddiant annibynnol yn cael eu cydnabod fel partneriaid cyfartal. Cyfeiriodd ACT Training (FE03) at ddarparu rhaglenni galwedigaethol ar y cyd rhwng ysgolion a cholegau, a phartneriaethau rhwng prifysgolion a darparwyr hyfforddiant.

9.3.3 Roedd sawl cyflwyniad yn canolbwyntio ar gynllunio ysgolion, AB ac addysg 14 i 19 oed. Dywedodd ColegauCymru (RB15) y byddai cydweithio cryfach rhwng ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn bwysig er mwyn cefnogi dysgwyr 14 i 16 oed. Cyfeiriodd Coleg Caerdydd a'r Fro (FE02) at gynllunio lleol i bobl 14 i 19 oed, rhannu data ac arweinyddiaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr. Cyfeiriodd Coleg GLlM (FE05) at ddarpariaeth alwedigaethol 14 i 16 oed, rhannu data a chydweithio rhanbarthol rhwng AB a phrifysgolion. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) y gallai fod angen i gydweithio rhwng ysgolion a cholegau AB ddechrau yn 14 oed. Cyfeiriodd Cyngor Sir Ceredigion (LA05) at Bartneriaeth Addysg Uwchradd Ceredigion, lle mae ysgolion uwchradd a dysgu gydol oes yn rhannu gwybodaeth am ddewisiadau a dyheadau dysgwyr. Roedd rhai cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at brosbectysau a rennir, prentisiaethau iau, cynghreiriau rhanbarthol a chynllunio cwricwlwm cydlynol fel mathau ymarferol o gydweithio ar draws sectorau.

9.3.4 Dywedodd Gyrfa Cymru (RPB04) fod enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng ysgolion a cholegau, ond bod arferion yn anghyson ledled Cymru ac wedi'u cyfyngu gan gapasiti, cyllid a chystadleuaeth. Cyfeiriodd Estyn (RPB02) at gynllunio ar y cyd ar draws ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i wella dewis a dilyniant dysgwyr. Awgrymodd Ymddiriedolaeth King's Cymru (TS07) y gallai colegau AB weithio gyda'r trydydd sector i feithrin hyder digidol ar gyfer dysgwyr difreintiedig.

9.3.5 Roedd y cyflwyniadau hefyd yn cyfeirio at lwybrau AB ac AU. Dywedodd RCN Cymru (RB12) y byddai cydweithio cryfach rhwng AB ac AU yn cefnogi llwybrau cliriach o gymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 i raglenni proffesiynol. Cefnogodd yr Academi Brydeinig (RB06) gydweithio rhwng AB ac AU i gryfhau mynediad at ddarpariaeth ar Lefelau 4 i 6. Cyfeiriodd Prifysgol De Cymru (HE02) at gryfhau partneriaethau AU mewn AB. Cyfeiriodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) at bartneriaethau gyda cholegau AB i helpu myfyrwyr i ennill cymwysterau cyn astudio ymhellach. Nododd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) hefyd ei fod yn gweithredu proses trosglwyddo credydau, ond nad oes dull cenedlaethol o drosglwyddo credydau.

9.3.6 Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07), er bod trosglwyddo credydau yn digwydd mewn rhai sefydliadau, nad oes dull cenedlaethol o drosglwyddo credydau ledled Cymru ar hyn o bryd.

9.3.7 Roedd y cyflwyniadau gan sefydliadau myfyrwyr yn cyfeirio at deithiau dysgwyr a llais y myfyrwyr. Dywedodd NUS Cymru (SO01) y gall cydweithio wella mynediad, ehangu'r ddarpariaeth a chefnogi teithiau mwy llyfn i ddysgwyr. Dywedodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) y dylai myfyrwyr fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch ailstrwythuro neu gydweithio, yn hytrach na bod penderfyniadau'n cael eu cyflwyno iddynt ar ôl iddynt gael eu gwneud.

9.3.8 Codwyd cydweithio cyfrwng Cymraeg yn nifer o'r cyflwyniadau. Galwodd Dyfodol i'r Iaith (TS08) am gydweithio mwy effeithiol rhwng AB ac ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) y dylai Medr weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg (RPB06) at bartneriaethau rhwng ysgolion a cholegau i gydlynu a sicrhau ansawdd a darpariaeth helaeth i ddisgyblion. Disgrifiodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (ACL06) ei model cyflawni hefyd fel un sy'n dibynnu ar gydweithio agos ar draws y sector addysg drydyddol.

9.3.9 Roedd rhai cyflwyniadau gan ysgolion a cholegau yn cyfeirio at ddarpariaeth ddigidol neu ar y cyd fel ffordd o gynnal hyd a lled pwnc. Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) at fodelau cydweithredol fel y Coleg Catholig Cenedlaethol, tra cyfeiriodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (SCH01) at fodelau digidol a rennir ar gyfer darpariaeth Safon Uwch.

9.3.10 Disgrifiodd Prifysgol Wrecsam (HE08) ei hun fel prifysgol ddinesig sy'n ceisio galluogi gweithio mewn partneriaeth ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys gyda phrifysgolion eraill, colegau AB, diwydiant lleol a'r sector cyhoeddus. Cyfeiriodd at ei rôl yn sefydlu Cynghrair Drydyddol Gogledd Cymru ac at femoranda cyd-ddealltwriaeth gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai, gan edrych ar opsiynau sy'n cynnwys menter ar y cyd.

9.4 Deinameg y farchnad a chystadleuaeth

9.4.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at gystadleuaeth am ddysgwyr, cyllid, staff, incwm ymchwil a sefyllfa sefydliadol. Dywedodd rhai o'r cyflwyniadau fod trefniadau cyllido ac atebolrwydd yn annog cystadleuaeth. Mae cystadleuaeth yn yr adran hon yn golygu pwysau ar sefydliadau i recriwtio dysgwyr, sicrhau cyllid neu warchod eu sefyllfa eu hunain.

9.4.2 Dywedodd CITB Cymru (EI01) y gall strwythurau cyllido ac atebolrwydd atgyfnerthu ymddygiad cystadleuol yn hytrach na chydweithio. Cyfeiriodd Hyfforddiant Cambrian (WBL04) at fecanweithiau cyllido sy'n cymell cystadleuaeth, cyllidebau wedi'u neilltuo sy'n eithrio rhai darparwyr, a chylchoedd cyllido tymor byr sy'n atal cynllunio ar y cyd. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod y trefniadau cyllido ac atebolrwydd presennol yn cymell cystadleuaeth ar gyfer niferoedd dysgwyr a denu cyllid yn hytrach na chynllunio a darparu ar y cyd. Roedd nifer o'r cyflwyniadau'n cysylltu cystadleuaeth â'r angen i ddarparwyr ddiogelu niferoedd y dysgwyr, cyllidebau a chynaliadwyedd sefydliadau.

9.4.3 Dywedodd ColegauCymru (RB15) y gall y model cyllido sbarduno cystadleuaeth rhwng ysgolion a cholegau, yn enwedig i blant 16 i 19 oed. Dywedodd UCAC (RB08) fod gan golegau fwy o gyllid ac adnoddau nag ysgolion ar gyfer marchnata a denu dysgwyr, a bod cyllid sy'n seiliedig ar niferoedd yn gwneud cystadleuaeth yn bwysig i ddarparwyr. Disgrifiodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) gyllid y pen fel rhwystr mawr i gydweithio, yn enwedig yn y sector 16 i 18 oed.

9.4.4 Roedd y cyflwyniadau gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus hefyd yn cyfeirio at gystadleuaeth. Dywedodd Cyngor Abertawe (ALl04) y gall amgylchedd cyllido cystadleuol, gyda sefydliadau'n cael eu hariannu'n bennaf gan niferoedd myfyrwyr, greu cymhellion i gadw dysgwyr yn hytrach nag annog y llwybr sy'n gweddu orau iddynt. Cyfeiriodd Gyrfa Cymru (RPB04) at gystadleuaeth wirioneddol a chanfyddedig am gyllid a dysgwyr. Dywedodd fod rhai ysgolion sydd â chweched dosbarth yn amharod i hyrwyddo opsiynau coleg neu ganiatáu i golegau ymgysylltu â dysgwyr Blwyddyn 11. Yn yr un modd, dywedodd Coleg Gwent (FE08) nad yw rhai darparwyr yn rhoi cyngor ac arweiniad diduedd mewn ymgais i gadw dysgwyr.

9.4.5 Roedd y cyflwyniadau gan sefydliadau myfyrwyr yn cyfeirio at farchnadeiddio. Mae marchnadeiddio yn golygu trin addysg yn fwy fel marchnad, gyda darparwyr yn cystadlu am ddysgwyr ac incwm. Dywedodd NUS Cymru (SO01) y gall cystadleuaeth o fewn y system, yn enwedig mewn addysg uwch, atal cydweithio lle byddai hynny o fudd i ddysgwyr. Mynegodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) bryder y dylai penderfyniadau ailstrwythuro neu gydweithio gynnwys myfyrwyr yn hytrach na chael eu cyflwyno ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud.

9.4.6 Roedd y cyflwyniadau gan addysg uwch a chyrff cynrychioliadol yn cyfeirio at ddeinameg y farchnad yn y DU ac yn rhyngwladol. Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) fod prifysgolion Cymru yn cystadlu am fyfyrwyr, staff, cyllid ymchwil a phartneriaethau, tra hefyd yn cydweithio mewn meysydd o ddiddordeb strategol cyffredin. Cyfeiriwyd hefyd at gyllid a arweinir gan alw a recriwtio di-derfyn yn y DU, gan greu cymhellion i flaenoriaethu recriwtio myfyrwyr a diogelwch incwm. Dywedodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (RB11) fod y newid i ffioedd myfyrwyr fel y prif incwm i brifysgolion wedi sbarduno cystadleuaeth yn y farchnad. Dywedodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RB10) y gall gostyngiadau mewn termau real mewn cyllid ac incwm ffioedd arwain at sefydliadau'n cynyddu recriwtio i wrthbwyso colledion.

9.4.7 Disgrifiodd rhai cyflwyniadau newid demograffig fel rhywbeth sy'n debygol o ddwysáu cystadleuaeth. Cyfeiriodd NUS Cymru (SO01) at ostyngiad posibl yn nifer y bobl ifanc 18 oed sy'n cynyddu'r gystadleuaeth rhwng darparwyr, a dywedodd Coleg GLIM (FE05) y gallai cyfeiriad demograffig olygu bod darparwyr ôl-16 yn cystadlu'n uniongyrchol am bobl ifanc sydd o oedran gadael ysgol gorfodol.

9.4.8 Nododd Gyrfa Cymru (RPB04) hefyd y gallai rhywfaint o gystadleuaeth gytbwys fod o fudd i ddewis dysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle nad yw un darparwr ar gyfer rhaglen o bosibl yn ddewis teg i ddysgwyr.

9.5 Diogelu darpariaeth, pynciau a phontio

9.5.1 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at ddarpariaeth a allai fod yn anodd ei chynnal oherwydd carfannau bach, costau darparu uchel, pwysau ariannol, galw isel, mynediad rhanbarthol neu gapasiti cyfrwng Cymraeg. Mae carfannau bach yn golygu cyrsiau gyda nifer cymharol fach o ddysgwyr, sy'n gallu gwneud y ddarpariaeth yn ddrutach i bob dysgwr.

9.5.2 Dywedodd CITB Cymru (EI01) ei bod yn anodd darparu rhai arbenigeddau adeiladu oherwydd carfannau bach a chostau uchel ond eu bod yn dal yn hanfodol i'r sector. Cyfeiriodd hefyd at fylchau daearyddol yn y ddarpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a dirywiad mewn crefftau adeiladu arbenigol ond strategol bwysig.

9.5.3 Roedd rhai cyflwyniadau'n canolbwyntio ar bynciau strategol bwysig. Cyfeiriodd yr Academi Brydeinig (RB06) at ddisgyblaethau SHAPE, (gwyddorau cymdeithasol, y dyniaethau a'r celfyddydau ar gyfer pobl a'r economi), yn enwedig pynciau sy'n ymwneud ag ieithoedd a'r dyniaethau, fel rhai sy'n agored i doriadau er gwaethaf eu gwerth rhanbarthol a chenedlaethol. Dywedodd NCUB (RB03) fod y ddarpariaeth Ieithoedd Tramor Modern wedi'i chrynhoi ym Mhrifysgol Aberystwyth ac y byddai unrhyw ostyngiad yn arwain at oblygiadau ehangach ar gyfer darpariaeth iaith ledled Cymru. Cyfeiriodd Cymwysterau Cymru (RPB05) hefyd at ostyngiad yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer pynciau yn ymwneud ag ieithoedd, gan gynnwys ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg.

9.5.4 Cyfeiriodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RB10) at gynnal a gwella darpariaeth, galluogrwydd a chapasiti yn y gwyddorau cemegol. Dywedodd y Sefydliad Ffiseg (RB05) y dylid cadw a chefnogi ffiseg yn y prifysgolion a enwir yn ei ymateb. Dywedodd y Cyngor Athrawon Peirianneg (RB07) y gallai pwysau ariannol arwain at ostwng darpariaeth STEM cost uchel, yn enwedig peirianneg. Mynegodd RCN Cymru (RB12) bryder ynghylch rhaglenni llai ac anoddach eu recriwtio, gan gynnwys nyrsio ym maes anableddau dysgu a disgyblaethau perthynol i iechyd llai.

9.5.5 Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) y gall pynciau fod mewn perygl oherwydd tanariannu strwythurol, nid yn unig oherwydd dyblygu neu ostyngiad yn nifer y myfyrwyr. Cyfeiriodd hefyd at yr achos dros nodi pynciau strategol bwysig a phynciau bregus ac ystyried cymorth wedi'i dargedu lle mae sail resymegol genedlaethol strategol. Rhybuddiodd Prifysgolion Cymru (RB09) hefyd nad yw bodolaeth darpariaeth mewn mwy nag un lleoliad yn awgrymu aneffeithlonrwydd yn awtomatig, ac nad yw crynhoi yn gwarantu cynaliadwyedd yn awtomatig.

9.5.6 Codwyd darpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd. Cyfeiriodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) at y ffaith bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau allweddol mewn perygl o ddirywio neu ddiflannu. Cyfeiriodd hefyd at ddarparwyr yn lleihau'r dewis o fodiwlau ar gyrsiau gradd, gan gynnwys ychydig neu ddim cyfleoedd i ddilyn modiwlau dewisol. Mynegodd Dyfodol i'r Iaith (TS08) bryderon am gystadleuaeth rhwng colegau AB ac ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Nododd Comisiynydd y Gymraeg (RPB06) nad yw strategaethau a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth ôl-16 cyfrwng Saesneg bob amser ar gael ar gyfer chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg.

9.5.7 Mynegodd Undeb y Myfyrwyr AU (SO02) bryder y gall ailstrwythuro ariannol leihau'r dewis o fodiwlau dewisol dros amser, sy'n golygu y gallai myfyrwyr brofi ystod lai o opsiynau astudio nag a oedd ar gael pan wnaethant gofrestru.

9.5.8 Trafodwyd y broses bontio hefyd. Dywedodd Prifysgol De Cymru (HE02) fod y cyfnod pontio rhwng yr ysgol, AB ac AU yn parhau i fod yn bwynt lle mae myfyrwyr yn rhoi'r gorau i'w taith ddysgu. Dywedodd NTFW (WBL03) fod llawer o ddysgwyr yn dal heb fynediad at gwricwlwm galwedigaethol eang na llwybrau dilyniant clir o'r cyfnod cyn-16 i'r ddarpariaeth lefel uwch a gradd. Dywedodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) fod Adran 94 yn gofyn am ddarpariaeth gydlynol ar draws y system drydyddol, gyda darpariaeth hygyrch, gyson, sydd wedi'i chynllunio a theithiau clir i ddysgwyr. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin (LA01) hefyd wedi awgrymu presenoldeb arferol AB mewn adolygiadau o gynlluniau datblygu unigol ysgolion i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r cyfnod pontio.

9.5.9 Roedd y cyflwyniadau'n cyfeirio at chweched dosbarth ysgolion a darpariaeth ôl-16. Cyfeiriodd ColegauCymru (RB15) at adolygu cynaliadwyedd chweched dosbarth ysgolion o fewn sector ôl-16 lleol cydlynol. Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) at ddarpariaeth ar y cyd ag ysgolion, colegau a phrifysgolion i gynnal ehangder pynciau a dewis y dysgwyr. Cyfeiriodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (SCH01) at gynnal mynediad at bynciau a allai fel arall fynd yn anhyfyw oherwydd niferoedd bach o gofrestriadau. Cyfeiriodd Ysgol Gyfun Caerllion (SCH03) at gynnig cwricwlwm eang drwy fodel consortiwm.

9.5.10 Felly, roedd sawl cyflwyniad yn fframio cydweithio fel ffordd o ddiogelu darpariaeth, ond dim ond pan fydd yn cynnal mynediad, ehangder pynciau a dilyniant clir. Cyfeiriodd EAUC (TS03) at gyd-ddylunio a chyd-gyflwyno i ddiogelu meysydd pwnc sydd mewn perygl, a chyfeiriodd Cyngor Abertawe (LA04) at rannu adnoddau, arbenigedd staff neu gyfleusterau i gynnal cyrsiau arbenigol.

9.6 Strwythur a risgiau'r farchnad AU

9.6.1 Roedd y cyflwyniadau'n trafod y farchnad israddedig heb ei chapio, recriwtio ar draws ffiniau, bylchau mewn pynciau, pwysau ariannol sefydliadol, dewis myfyrwyr a mynediad lleol. Mae marchnad heb ei chapio yn golygu nad oes cyfyngiad penodol ar nifer y myfyrwyr israddedig y gall sefydliadau eu recriwtio. Mae "bylchau mewn pynciau" yn golygu bylchau mewn darpariaeth yn ôl pwnc, lleoliad neu grŵp dysgwyr.

9.6.2 Nododd rhai cyflwyniadau fanteision. Dywedodd Prifysgol De Cymru (HE02) fod marchnad heb ei chapio yn rhoi hyblygrwydd i sefydliadau recriwtio dysgwyr yn unol â chryfderau rhanbarthol a blaenoriaethau strategol ac yn cynyddu dewis a chyfleoedd myfyrwyr. Dywedodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) y gall cael gwared ar gapiau arwain at fanteision ac y gall dewis myfyrwyr arwain at ddyraniad cyllid mwy priodol ac effeithlon. Dywedodd y Brifysgol Agored yng Nghymru (HE07) mai mantais amlwg marchnad heb ei chapio yw mwy o ddewis i fyfyrwyr. Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant (FE09) at ehangu mynediad at addysg uwch ac ystod ehangach o sefydliadau a chyrsiau.

9.6.3 Roedd y cyflwyniadau eraill yn nodi risgiau. Dywedodd Prifysgol Abertawe (HE01) fod recriwtio heb gapio yn ffafrio Grŵp Russell a sefydliadau tariff uwch yn

draddodiadol. Cyfeiriodd at sefydliadau tariff uchel yn gostwng tariffau mynediad ac yn ehangu dewisiadau cyrsiau, gan effeithio ar recriwtio mewn sefydliadau tariff canolig. Roedd hefyd yn cyfeirio at fylchau mewn pynciau a llai o ddarpariaeth mewn pynciau lle mae llai o alw. Dywedodd Undeb Myfyrwyr AU (SO02) fod dros hanner prifysgolion Cymru wedi gweld gostyngiad yn nifer yr israddedigion domestig, gyda'r gostyngiadau'n amrywio o 3% i 34%. Cyfeiriodd hefyd at dynhau'r dewis o fodiwlau dewisol wrth i sefydliadau ailstrwythuro mewn ymateb i bwysau ariannol.

9.6.4 Dywedodd Prifysgolion Cymru (RB09) y byddai effeithiau ariannol a phwysau cyflawni yn amrywio yn ôl maint y sefydliad, cymysgedd pynciau, lleoliad rhanbarthol, proffil recriwtio a safle yn y farchnad. Cyfeiriodd at ostyngiad mewn ffioedd dysgu amser llawn mewn termau real, ansefydlogrwydd mewn incwm rhyngwladol a chapasiti cyfyngedig i ddarparwyr yng Nghymru draws-gymorthdalu darpariaeth ran-amser. Dadleuodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (HE05) y byddai cyflwyno mesurau rheoli niferoedd myfyrwyr yng Nghymru yn unig yn anodd eu gweithredu'n effeithiol ym marchnad addysg uwch ehangach y DU. Dywedodd y gallai cap sy'n berthnasol i sefydliadau yng Nghymru arwain at rai myfyrwyr o Gymru yn chwilio am leoedd gan ddarparwyr heb eu capio yn Lloegr. Yn yr un modd, dadleuodd Prifysgolion Cymru (RB09) na ellir ystyried capio ar wahân i ddatblygiadau yn Lloegr, o ystyried pa mor agored yw marchnad addysg uwch y DU a'r llifoedd trawsffiniol.

9.6.5 Roedd sawl cyflwyniad yn cyfeirio at fylchau mewn pynciau. Cyfeiriodd Prifysgol Abertawe (HE01) at fylchau mewn pynciau ac at ddim darpariaeth mewn rhai pynciau. Cyfeiriodd yr Academi Brydeinig (RB06) at fylchau cynyddol i israddedigion yn nisgyblaethau'r dyniaethau, yn enwedig ieithoedd tramor modern, ac at grynhoi'r ddarpariaeth SHAPE yn ne Cymru. Cyfeiriodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RB10) at ostyngiad o 50% yn nifer y prifysgolion sy'n cynnig cyrsiau Cemeg yng Nghymru, ac mae bwlch ym maes Cemeg ers cau'r adran Gemeg ym Mhrifysgol Bangor. Dywedodd y Sefydliad Ffiseg (RB05) fod adrannau Ffiseg yng Nghymru yn agored i amrywiadau yn y cyflenwad a'r galw ar draws marchnad y DU. Dywedodd Cyngor yr Athrawon Peirianneg (RB07) fod y ddarpariaeth Peirianneg wedi'i chrynhoi'n ddaearyddol, yn enwedig yn Ne-orllewin Cymru a Gogledd-ddwyrain Cymru.

9.6.6 Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (FE04) fod y system ffioedd a diffyg capio ar niferoedd yn ei gwneud yn anodd sicrhau trosolwg cenedlaethol strategol o'r ddarpariaeth AU. Dywedodd hefyd y gall cystadleuaeth gan ddarparwyr y tu allan i Gymru effeithio ar y galw am gyrsiau Cymraeg a thanseilio Cymraeg 2050. Dywedodd Dyfodol i'r Iaith (TS08) fod 40% o fyfyrwyr Cymru yn astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru, a bod 65% o fyfyrwyr Gogledd Cymru yn astudio y tu allan i Gymru.

9.6.7 Dywedodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (RPB08) fod y risg o fylchau mewn AU yn ymwneud llai ag absenoldeb llwyr y ddarpariaeth a mwy am sut mae mynediad yn cael ei ddosbarthu ar draws grwpiau dysgwyr, rhanbarthau a meysydd pwnc. Dywedodd hefyd y gallai mwy o ddarpariaeth mewn sefydliadau neu leoliadau penodol greu rhwystrau i ddysgwyr sy'n llai symudol yn ddaearyddol neu

sy'n dibynnu ar ddarpariaeth leol. Dywedodd NEON (TS02) fod llawer o ddysgwyr yn cael eu gorfodi i deithio y tu allan i Gymru i astudio oherwydd nad yw rhai pynciau ar gael yng Nghymru neu oherwydd mai ychydig o gyrsiau sydd ar gael. Yn yr un modd, roedd Gyrfa Cymru (RPB04) wedi nodi bod bylchau yn deillio o ryngweithio rhwng ymddygiad dysgwyr a phenderfyniadau sefydliadol sy'n cael eu sbarduno gan y farchnad, yn hytrach na daearyddiaeth yn unig.

9.6.8 Nododd rhai cyflwyniadau fylchau penodol o ran dilyniant hefyd. Cyfeiriodd Addysg Oedolion Cymru (ACL01) at ddiffyg darpariaeth gwaith ieuenctid Lefel 6 yng Ngogledd Cymru, gan gyfyngu ar gyfleoedd dilyniant o Lefel 3 a chyfyngu ar gyflenwad y gweithlu. Awgrymodd ACT Training (FE03) y gallai ehangu mynediad at incwm ffioedd myfyrwyr AU ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig ar waith gefnogi prentisiaethau uwch a llwybrau dilyniant anhraddodiadol.

9.6.9 Dywedodd Prifysgol Bangor (HE03) fod prifysgolion Cymru yn gweithredu mewn marchnad yn y DU ac yn fyd-eang ar gyfer recriwtio myfyrwyr, staff academaidd ac ymchwilwyr, a bod hyn yn rhoi Cymru mewn perygl o dwf ymosodol gan sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU.

9.7 Tensiynau

Mae'r adran hon yn nodi'r tensiynau a nodwyd ar draws y cyflwyniadau yn eu cyfanrwydd. Disgrifiwyd rhai yn uniongyrchol gan ymatebwyr unigol; mae eraill yn deillio o gymharu safbwyntiau a fynegwyd mewn gwahanol gyflwyniadau. Maent yn crynhoi'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr ac nid safbwyntiau polisi Llywodraeth Cymru mohonynt.

9.7.1 Dewis o'i gymharu â chynllunio: gall dewis ac ymatebolrwydd dysgwyr wrthdaro â darpariaeth wedi'i chynllunio ar gyfer pynciau strategol ac anghenion y farchnad lafur.

9.7.2 Ymreolaeth o'i chymharu â stiwardiaeth: mae ymreolaeth sefydliadol yn eistedd ochr yn ochr â galwadau am gydlynu cryfach ar lefel system.

9.7.3 Effeithlonrwydd o'i gymharu â chadernid: gall lleihau dyblygu arbed adnoddau ond gallai wanhau mynediad, ehangder pwnc, argaeledd lleol neu wydnwch y system.

9.7.4 Cydweithio o'i gymharu â chystadleuaeth: gall cydweithio fod yn anodd lle mae cyllid a recriwtio yn parhau i fod yn gystadleuol.

9.7.5 Uchelgais cydweithio o'i gymharu â chostau gweithrediadau: roedd y cyflwyniadau'n cefnogi cydweithio, ond hefyd yn nodi'r ffaith bod angen amser, capasiti staff, llywodraethiant, trefniadau rhannu data a chyllid ar gyfer rheoli partneriaethau.

9.7.6 Darpariaeth arbenigol o'i chymharu ag integreiddio prif ffrwd: roedd rhai cyflwyniadau'n galw am gynllunio mwy cydlynol ar draws darpariaeth prif ffrwd ac arbenigol, gan gydnabod hefyd anghenion penodol dysgwyr ag anghenion cymhleth neu anghenion llai cyffredin.

9.7.7 Diogelu llwybrau cyfrwng Cymraeg o gymharu â'u rhesymoli: soniodd y cyflwyniadau am y ffaith bod angen cynnal llwybrau cyfrwng Cymraeg, gan nodi hefyd efallai na fydd dulliau rhesymoli yn trosglwyddo'n hawdd i'r chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth lefel isel.

9.8 Meysydd sydd, ar y cyfan, yn gyson ac yn wahanol yn y cyflwyniadau

9.8.1 Gall cydweithio wella dilyniant, mynediad ac ehangder pynciau.

9.8.2 Mae trefniadau cyllido ac atebolrwydd yn dylanwadu ar p'un a yw cydweithio'n hyfyw.

9.8.3 Efallai y bydd angen diogelwch neu gefnogaeth fwriadol ar ddarpariaeth strategol a chost uchel.

9.8.4 Mae angen gwella'r broses o rannu data a thracio dysgwyr.

9.8.5 Roedd rhwystrau strwythurol, yn hytrach na diffyg ewyllys da yn unig, yn aml yn cyfyngu ar gydweithio. Roedd y cyflwyniadau'n disgrifio rhwystrau penodol gan gynnwys modelau cyllido sy'n gwobrwyo recriwtio, systemau llywodraethiant a data tameidiog, gwahanol reolau archwilio a chydymffurfio, pryderon ynghylch cyfraith cystadleuaeth a chapasiti cyfyngedig ar gyfer cynllunio a darparu ar y cyd.

9.8.6 Roedd cysondeb cyffredinol bod cydweithio'n fwyaf defnyddiol lle mae ganddo ddiben clir o ran diogelu dysgwyr, cyflogwyr, cymunedau neu bynciau.

9.8.7 Roedd y cyflwyniadau'n amrywio o ran sut roeddent yn disgrifio cystadleuaeth. Dywedodd rhai fod cystadleuaeth yn ystumio canllawiau diduedd a chynllunio, tra dywedodd eraill y gallai rhyw lefel o ddewis neu gystadleuaeth gytbwys ddiogelu opsiynau dysgwyr.

9.8.8 Roedd y farn am y farchnad AU heb ei chapio hefyd yn amrywio. Roedd rhai cyflwyniadau'n tynnu sylw at ddewis myfyrwyr a hyblygrwydd sefydliadol, tra bod eraill yn codi risgiau'n ymwneud â haenu darparwyr, bylchau mewn pynciau, recriwtio trawsffiniol ac ansefydlogrwydd ariannol.

9.9 Meysydd a awgrymwyd yn y cyflwyniadau i'w hystyried o ran polisi

Awgrymodd y cyflwyniadau'r meysydd canlynol i'w hystyried o ran polisi. Ni ddylid darllen y rhain fel argymhellion gan y tîm dadansoddi na Llywodraeth Cymru.

9.9.1 Cysoni fframweithiau cyllido ac atebolrwydd â deilliannau a rennir a darpariaeth ar y cyd fel nad yw cydweithio'n tanseilio hyfywedd darparwyr na mynediad dysgwyr (WBL04, ACL01, RPB08).

9.9.2 Gwella'r gwaith o rannu data a thracio seilwaith systemau ar draws AB, AU a dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys dilyniant dysgwyr, tracio cyrchfannau a threfniadau rhannu data rhwng partneriaethau (ACL04, RPB01).

9.9.3 Cefnogi darpariaeth gydweithredol, dilysu, masnachfreinio, addysgu a rennir a modelau hybrid/digidol drwy gyllid sefydlog, cydlywodraethiant a threfniadau ansawdd clir (SCH01, FE09, HE07).

9.9.4 Mynd i'r afael â rhwystrau gweithredol drwy fuddsoddi mewn amser staff a chapasiti partneriaethau ar yr un pryd â chysoni amserlenni, fframweithiau cymwysterau a chalendrau academaidd lle mae'r rhain yn effeithio ar symudiad dysgwyr a darpariaeth ar y cyd (RB04, SO02).

9.9.5 Egluro fframweithiau llywodraethiant a chyfreithiol ar gyfer cydweithio, gan gynnwys pryderon ynghylch cyfraith cystadleuaeth lle bo hynny'n berthnasol (RB06, RB09).

9.9.6 Cefnogi cydweithio i ddiogelu darpariaeth strategol bwysig, cost uchel, carfan fach neu gyfrwng Cymraeg lle nododd y cyflwyniadau risgiau o ran mynediad neu ehangder pynciau (RB07, RB10, FE04).

9.9.7 Cryfhau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd er mwyn i ddysgwyr allu gweld dewisiadau ysgolion, AB, dysgu seiliedig ar waith ac AU heb i ddarparwyr ddiogelu llwybrau recriwtio (RPB04, FE08).

9.9.8 Ystyried dulliau wedi'u targedu ar gyfer bylchau mewn pynciau, gan gynnwys cynllunio rhanbarthol, AU mewn AB, prentisiaethau uwch, hybiau arbenigol, trosglwyddo credydau a llwybrau dilyniant seiliedig ar waith (HE02, FE03, RPB08).

10. Atodiadau

Atodiad A: Rhestr o sefydliadau/cyflwyniadau (gweler yr atodiad technegol)

Atodiad B: Tag sector a diffiniadau (gweler yr atodiad technegol)

Atodiad C: Newidynnau dadansoddol (gweler yr atodiad technegol)

Atodiad D: Llyfr Codau (gweler yr atodiad technegol)

Atodiad E: Methodoleg (gweler yr atodiad technegol)

Atodiad F: Cronfa dyfyniadau

a. Cyfranogiad

"Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y dysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ymateb i alw cynyddol." ACL02 - Partneriaeth ACL Gwent, t. 5

"Mae'r cynnydd mewn gorbryder cymdeithasol, effeithiau ar ôl y pandemig, a phwysau costau byw wedi cyfrannu at y canlynol: • Mwy o heriau iechyd meddwl • Llai o wydnwch ymysg pobl ifanc • Mwy o alw am lwybrau galwedigaethol â chymorth sy'n darparu dilyniant clir i hyfforddiant neu waith". FE01 - Coleg Gŵyr Abertawe, t. 6

"Mae gan Gymru batrymau hirsefydlog o gyfranogiad uwch myfyrwyr aeddfed a rhan-amser sy'n gysylltiedig â'r canlynol: Anghenion mynediad lleol mewn ardaloedd gwledig, pwysau ariannol ar ddysgwyr, llwybrau dilyniant AB cryf i oedolion, llwybrau dysgu hyblyg ar gael yn y gwaith, gyda'r posibilrwydd o gynyddu'r defnydd o ficro-gymwysterau a chymwysterau seiliedig ar werthwyr." FE02 - Coleg Caerdydd a'r Fro, t. 6

"Mae'r gostyngiad yn nifer y cynlluniau Prentisiaeth a gefnogir gan fusnesau bach a chanolig, fel y 'Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr' a oedd yn darparu cymhorthdal cyflog i fusnesau bach a chanolig i recriwtio cyflogwyr, wedi cael effaith uniongyrchol ar leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n cael eu recriwtio i Brentisiaethau yng Nghymru." FE03 - ACT Training, t. 5

"mae bechgyn yn llai tebygol o astudio yn Gymraeg na merched mewn addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch." FE04 - Coleg Cymraeg Cenedlaethol, t. 22

"Rydyn ni wedi gweld twf sylweddol o 20% yn y nifer sy'n cael eu recriwtio'n llawn amser i Addysg Bellach yn ystod y pedair blynedd diwethaf, sy'n uwch o lawer na'r twf mewn demograffeg." FE05 - Coleg GLlM, t. 5

"Mae pwysau ariannol, gan gynnwys lefelau cymorth cynhaliaeth a chostau byw yn golygu nad yw llawer o ddysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn astudiaeth amser llawn." SO01 - Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, t. 5

"Nid yw'r cyfraddau uwch o gyfranogiad myfyrwyr rhan-amser ac aeddfed yng Nghymru yn ddamweiniol - maent yn ganlyniad uniongyrchol i benderfyniad Diamond i ymestyn cymorth cynhaliaeth ar sail pro-rata i fyfyrwyr rhan-amser ac i ariannu astudiaethau ôl-raddedig. Roedd nifer y cofrestriadau newydd yn y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi mwy na dyblu rhwng 2017-18 a 2023-24, gan gyd-fynd yn uniongyrchol â chyflwyno cymorthdaliadau ffioedd myfyrwyr rhan-amser a chymorth cynhaliaeth myfyrwyr pro-rata." SO02 - Undeb y Myfyrwyr AU, t. 5

"Mae cydweithwyr addysg uwch sy'n ymwneud â gwaith allgymorth yn gweld newid amlwg mewn agwedd ymysg dysgwyr iau (hyd yn oed o oedran ysgol gynradd) nad ydynt yn gweld addysg uwch fel llwybr y maent am ei ddilyn; felly, maent yn dewis mwy o gyrsiau ôl-16 galwedigaethol a fydd yn eu harwain at swyddi." TS02 - NEON, t. 2

"Mae natur wledig Cymru a chyfyngiadau'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn ffactor arwyddocaol i lawer o ddysgwyr wrth benderfynu ble maen nhw'n astudio." TU03 - NASUWT, t. 7

"Mae poblogaeth myfyrwyr Cymru wedi mynd yn raddol hŷn dros amser. Cynyddodd cyfran y myfyrwyr 25 oed a hŷn o 34.4% yn 2017/18 i 40.9% yn 2024/25. Mae'r ddarpariaeth ran-amser yn parhau i fod yn aeddfed yn bennaf, gyda dros 80% o fyfyrwyr rhan-amser bellach yn 25 oed a hŷn." RB09 - Prifysgolion Cymru, t. 9

b. Cymunedau a'r economi

"Dylai cyllidwyr hefyd ystyried cymhellion sy'n gwobrwyo effaith gymdeithasol, fel mynd i'r afael â diffygion sgiliau rhanbarthol, yn hytrach na dibynnu'n bennaf ar recriwtio, dilyniant llinol, a metrigau cwblhau." HE02 - Prifysgol De Cymru t. 3

"Mae hybiau ynni a sgiliau mewn rhannau o Gymru yn dechrau cysylltu darpariaeth hyfforddiant â gweithgarwch ymchwil a buddsoddiad yn y diwydiant, gan helpu i gysoni'r gwaith o ddatblygu sgiliau'n agosach â'r galw yn y farchnad lafur." TS03 – EAUC t. 21

"Rhaid i fuddsoddiad cyhoeddus roi blaenoriaeth i'r canlynol: • Rhaglenni technegol a galwedigaethol sy'n cyd-fynd â strategaeth economaidd Cymru • Iechyd a gofal cymdeithasol • Peirianneg a thechnolegau gwyrdd • Uwchsgilio digidol • Sgiliau sylfaenol oedolion • Llwybrau galwedigaethol a gwasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg." FE06 - Grŵp Colegau NPTC t. 15

"rhaid i gymorth ar gyfer ymchwil ac arloesi felly gydnabod yr angen cenedlaethol i gryfhau sylfaen ymchwil Cymru a phwysigrwydd ecosystemau ymchwil gymhwysol sy'n trosi gwybodaeth yn effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol, ranbarthol." HE04 - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, t. 17

"Mae ymchwil prifysgolion Cymru yn parhau i gyflawni effaith sylweddol sy'n creu £1.98bn i'r economi, gan gynnwys £1.33bn drwy orlifiant cynhyrchiant ar draws sectorau eraill, gyda 70% o ymchwil wedi'i asesu o fudd uniongyrchol i bobl a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru." HE09-ChUW, t. 3

"Ymchwil peirianneg yn ein prifysgolion sy'n llywio'r genhadaeth economaidd, ac mae'n darparu atebion i heriau mwyaf brys ein hoes: diogelwch ynni, gwrthsefyll yr hinsawdd, galluogrwydd amddiffyn, iechyd y cyhoedd, gweithgynhyrchu cynaliadwy a thrawsnewid ein seilwaith." RB07 - Cyngor yr Athrawon Peirianneg, t. 15

"Cryfhau rôl AB mewn ymchwil gymhwysol ac arloesedd. Mae colegau AB mewn sefyllfa dda i weithredu fel partneriaid trosiadol rhwng ymchwil a'r diwydiant, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig. Byddai buddsoddi mewn capasiti arloesi dan arweiniad AB, a chael sicrwydd cyllido, yn cefnogi'r rôl hon." FE01 - Coleg Gŵyr Abertawe, t. 26

c. Cynaliadwyedd ariannol

"Canfu arolwg diweddaraf Tracio Myfyrwyr Cymru (Hydref 2025) fod 86 y cant o ddysgwyr yn dweud bod costau byw wedi cael effaith negyddol ar eu hastudiaethau, a bod bron i chwarter y myfyrwyr heb unrhyw beth ar ôl neu mewn gorddrafft ar ôl talu costau byw hanfodol - gyda 45 y cant arall â llai na £150 ar ôl bob mis." SO02 - Undeb y Myfyrwyr AU, t. 15

"Mae pwysau cyllido mewn rhannau eraill o'r sector wedi arwain at brifysgolion eraill yn blaenoriaethu, yn ddealladwy, y rhannau hynny o'u darpariaeth sydd fwyaf fforddiadwy i'w darparu neu sy'n rhoi'r enillion mwyaf iddynt. Nid yw darpariaeth ran-amser yn un o'r mathau hyn o ddarpariaeth. Am y rheswm hwnnw, rydyn ni wedi gweld y ddarpariaeth ran-amser yn crebachu neu'n cael ei thynnu'n ôl yn llwyr ar draws y sector, gan arwain at lai o ddewis i fyfyrwyr." HE07 - Y Brifysgol Agored yng Nghymru, t. 5

"Mae'r sefyllfa ariannol bresennol i brifysgolion yn heriol. Mae costau'n cynyddu'n gyflymach nag incwm, ac nid yw ffioedd a chyllid yn talu mwyach am gost addysgu myfyrwyr cartref, nac ymchwil ac arloesi. Mae dirywiad sylweddol mewn recriwtio rhyngwladol yn gwaethygu'r sefyllfa." RB09 - Prifysgolion Cymru, t. 31

"Buddsoddiad cyfalaf: Arian cyfatebol yw'r rhwystr ers 2014, mae'r sector AB wedi cael buddsoddiad cyfalaf drwy brosiect Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ac mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag, nid y cyllid sydd ar gael yw'r prif gyfyngiad - y prif gyfyngiad yw'r gofyniad am 35% o arian cyfatebol." FE01 - Coleg Gŵyr Abertawe, t. 21

"Mae llawer o gyfalaf mewn addysg peirianneg ac mae'n dibynnu ar seilwaith arbenigol, labordai a staff technegol medrus iawn. Mae pwysau ariannol ar y sector yn golygu bod dull system sydd wedi'i gynllunio'n strategol yn hanfodol i ddiogelu darpariaeth peirianneg ledled Cymru." RB07 - Cyngor yr Athrawon Peirianneg, t. 13

"Mae'r ddarpariaeth leithoedd Tramor Modern wedi'i chrynhoi ym Mhrifysgol Aberystwyth. Os oes rhaid i Brifysgol Aberystwyth leihau rhaglenni oherwydd heriau'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol, bydd hyn yn arwain at oblygiadau ehangach i'r ddarpariaeth leithoedd ar draws y wlad i gyd" RB03 - NCUB, t. 11

"Gallai blaenoriaethu cymorth uniongyrchol (gwariant grant) ac anuniongyrchol (gwariant benthyciad) ar gyfer cyrsiau nyrsio helpu i ddenu mwy o bobl i broffesiwn sy'n hanfodol i ddiogelwch ac sy'n achub bywydau ac yn creu gwerth cymdeithasol sylweddol." RB12 - RCN Cymru, t. 14

"Datblygu canolfannau arloesol a fydd yn gallu diwallu anghenion a dyheadau addysgol ac allgyrsiol ein holl ddysgwyr, yn ganolog, gan ddileu dyblygu a darparu cyrsiau eang nad ydynt yn gynaliadwy oherwydd diffyg cyllid a gostyngiad yn nifer y dysgwyr." LA05 - Cyngor Sir Ceredigion, t. 11

"Mae colli cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu a chymorth un i un i aelodau o'r gymuned sy'n wynebu nifer o rwystrau i ddysgu - gan gynnwys profiadau gwael blaenorol o ddysgu ffurfiol." ACL02 - Partneriaeth ACL Gwent, t. 7

"Mae prifysgolion Cymru yn darparu ymchwil ac arloesedd sy'n cael effaith gadarnhaol ledled Cymru, y DU a'r byd ehangach yng nghyd-destun heriau sylweddol o ran cynaliadwyedd ariannol sy'n cynyddu'r bwlch rhwng costau cynnal ymchwil a'r incwm sydd ar gael i'w chefnogi" RB10 - Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, t. 6

"Byddai NEON yn annog y llywodraeth i ystyried manteision ehangach addysg yn ogystal â deilliannau'r farchnad lafur. Er enghraifft, mae lleihau manteision addysg

uwch i ddeilliannau ariannol yn unig yn diystyru'r manteision i fyfyrwyr o ran iechyd meddwl a chorfforol sy'n seiliedig ar lawer o waith ymchwil ac nid yw'n cydnabod eu bod yn llai tebygol o fynd i gostau oherwydd bod cyflyrau iechyd yn datblygu." TS02 - NEON, t. 9

"Mae UCU Cymru yn cydnabod bod y sector yn gweithio mewn amodau heriol iawn. Mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cynyddu, mae trethi myfyrwyr rhyngwladol yn ogystal â'r newid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i Gronfa Twf Lleol i gyd yn cyfuno ag amgylchedd cyllido segur i ddenu cystadleuaeth yn y sector a pharatoi i wneud toriadau." TU04-UCU (Cyflwyniad Cyfunol), t. 31

"Rhwystrau mawr: • Costau trafnidiaeth (yn enwedig ym Mhowys) • Costau cyfarpar ar gyfer dysgwyr galwedigaethol • Mynediad digidol • Oedolion mewn rhaglenni ailsgilio yn colli incwm" FE06 - Grŵp Colegau NPTC, t. 14

d. Cystadleuaeth a chydweithio

"Mae methu â rhannu data dysgwyr ar draws y Bartneriaeth oherwydd GDPR yn rhwystr i dracio dilyniant dysgwyr. Byddai hysbysiad preifatrwydd (LLWR) wedi'i ddiweddaru sy'n cynnwys cytundeb rhannu data y gallai pob partneriaeth ei ddefnyddio yn helpu i oresgyn y broblem hon." ACL04 - Partneriaeth ACL Abertawe, t. 6

"Mae'n anochel y bydd y cyfeiriad demograffig presennol ar gyfer Cymru yn golygu y bydd pob darparwr ôl-16 yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd ar gyfer pobl ifanc o oedran gadael ysgol gorfodol, ac nid yw hynny'n hyrwyddo cydweithredu a chwricwla cydweithredol ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed." FE05 - Coleg GLIM, t. 10

"Os nad yw'r cyllid yn adlewyrchu'r 'costau economaidd gwirioneddol llawn' sy'n ofynnol yn aml gan y partneriaethau cymhleth hyn (rheoli rhaglenni, adrodd, gwerthuso), bydd darparwyr yn dewis peidio â chyflwyno cais oherwydd cyfyngiadau ariannol." RB04 - GW4, t. 4

"Gan hynny, efallai na fydd cyflwyno cyrsiau ar y cyd i atal bylchau rhanbarthol rhag dod i'r amlwg, yn enwedig rhwng darparwyr sy'n gwasanaethu myfyrwyr lleol yn bennaf, yn cael ei ganiatáu o dan y gyfraith cystadleuaeth bresennol" RB06 - Yr Academi Brydeinig, t. 11

"Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod pynciau fel arfer "mewn perygl" nid o reidrwydd oherwydd dyblygu neu ostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru, ond oherwydd tanariannu strwythurol. Nid damwain yw'r bwlch ariannu rhwng Cymru a Lloegr ym maes addysgu, ymchwil a buddsoddiad cyfalaf; dyma yw sgil effaith setliadau cyllido a phenderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru dros gyfnod hir." RB09 - Prifysgolion Cymru, t. 25

"Gall cydweithio hefyd chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddiogelu pynciau a allai fod mewn perygl oherwydd gostyngiad yn y niferoedd sy'n cofrestru neu gostau darparu uchel. Er enghraifft, gallai rhannu adnoddau, arbenigedd staff neu gyfleusterau rhwng

sefydliadau helpu i gynnal mynediad at gyrsiau arbenigol a allai fel arall fod yn anghynaliadwy i un darparwr." LA04 - Awdurdod Lleol Abertawe, t. 11

"Lle bod angen cydweithio rhwng sefydliadau i gynnal y ddarpariaeth, dylai hyn gael ei ategu gan gludadwyedd credydau - er mwyn i fyfyriwr mewn un sefydliad astudio modiwlau gan sefydliad partner lle mae'r arbenigedd, heb golli ei gofrestriad cartref na'i gymorth ariannol." SO02 - Undeb y Myfyrwyr AU, t. 13

"Fodd bynnag, mae budd o hyd mewn cystadleuaeth gytbwys ar gyfer cynigion ôl-16 tebyg, gan ein bod hefyd wedi gweld enghreifftiau, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig, lle nad oes ond un darparwr ar gyfer rhaglen benodol a lle nad yw hyn yn golygu dewis teg i ddysgwyr" - RPB04 - Gyrfa Cymru, t. 15

"Symudir yn raddol, ond yn bendant, i gyfeiriad rhesymoli'r ddarpariaeth addysg ôl-orfodol drwy gau canolfannau, uno canolfannau, a chreu canolfannau mwy o lawer. Mae'n peri pryder nad yw rôl canolfannau chweched dosbarth mewn ysgolion Cymraeg yn cael ei hystyried yn ddigonol wrth wneud y penderfyniadau hyn." RPB06 - Comisiynydd y Gymraeg, t. 7

"Mae'r amgylchedd ariannol ehangach yn rhwystr sylweddol. Mewn cyd-destun ariannu cyfyngedig, gall sefydliadau flaenoriaethu recriwtio a chynhyrchu incwm, sy'n gallu lleihau cymhellion i gydweithio lle gallai hyn effeithio ar gofrestru neu gynaliadwyedd sefydliadol." RPB08 - Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, t. 12

"Mae'r gwahanu strwythurol hwn yn atgyfnerthu'r rhwyg rhwng darpariaeth prif ffrwd a darpariaeth arbenigol, yn hytrach na galluogi system drydyddol gydlynol a chydweithredol. Pe bai Medr yn gyfrifol am oruchwylio a chyllido Sefydliadau Addysg Bellach a cholegau arbenigol, gallai wella gwaith cynllunio a sicrhau mynediad tecach at addysg i ddysgwyr sydd ag anghenion cymhleth, llai cyffredin ledled Cymru." TS01 - Natspec, t. 5

"Wrth i faterion waethygu, bydd rhesymeg ryfedd cystadleuaeth yn arwain at is-gangellorion (a rhai penaethiaid) yn dadlau dros lai o ddarpariaeth mewn gwlad sydd â chyfraddau cyfranogi sy'n is o lawer na chyfartaledd y DU" TU04-UCU (Cyflwyniad Cyfunol), t. 35

e. Demograffeg a dysgu gydol oes

"Mae strwythurau rhaglenni yn aml yn anhyblyg, gyda chyfnodau hir a modiwlau cyfyngedig, sy'n eu gwneud yn llai hygyrch i ddysgwyr sy'n oedolion a'r rheini sydd mewn cyflogaeth." EI01 - CITB Cymru t. 2

"Mae gan Gymru gyfle unigryw i greu system drydyddol wirioneddol gynhwysol drwy roi lle canolog i ddysgu oedolion a dysgu cymunedol a thrwy beidio â thrin dysgu gydol oes fel mecanwaith strategol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, gwella llesiant ac ehangu cyfranogiad." ACL02 - Partneriaeth ACL Gwent, t. 10

"Ond ni ddylai gwrthod model Lloegr olygu gwrthod egwyddor mynediad gydol oes. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gymru ddatblygu ei dull gweithredu ei hun - sydd wedi'i adeiladu ar ei seilwaith rhan-amser presennol a rôl cydlynu ar lefel system Medr - sy'n rhoi'r hawl i fyfyrwyr drosglwyddo eu credydau rhwng sefydliadau yng Nghymru ac yn eu cefnogi i symud rhwng dulliau astudio wrth i'w hamgylchiadau newid." SO02 - Undeb y Myfyrwyr AU, t. 11

"Mae'r rhain yn cynnwys anghymhellion ariannol i gamu ymlaen yn gynt, llai o gymhwysedd i gael buddion a gostyngiadau yn y dreth gyngor ar yr un pryd ag astudio, a phrofiadau negyddol sy'n gysylltiedig â bod yn ddysgwr 'anhraddodiadol' mewn system sy'n canolbwyntio'n bennaf ar incwm ffioedd dysgu o ddarpariaeth lefel gradd amser llawn, ac sy'n cael ei hariannu drwy hynny." RB06 - Yr Academi Brydeinig t. 9

"Mae amcanestyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bydd poblogaeth y bobl ifanc yng Nghymru yn gostwng yn ystod y 2030au. Felly, mae llawer o ddarparwyr yn amrywio'r ddarpariaeth i gynnwys mwy o gyfleoedd i uwchsgilio'r gweithlu ar yr un pryd â pharhau i ymateb i'r galw gan gyflogwyr am gynllunio'r gweithlu drwy recriwtio Prentisiaid." FE03 - ACT Training t. 7

"Nid yw pwysau demograffig ym Mhowys yn heriau sy'n dod i'r amlwg; maent yn realiti uniongyrchol: • Carfannau ieuenctid sy'n lleihau • Amseroedd teithio hir • Poblogaethau sy'n heneiddio y mae angen iddynt ailhyfforddi yn y sectorau iechyd a gofal" FE06 - Grŵp Colegau NPTC t. 7

"Mae cyfyngiadau cyllido hefyd yn cyfyngu ar ehangu cyfleoedd dysgu hyblyg. Roedd llawer o raglenni a oedd yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc a datblygu sgiliau lefel is yn arfer cael eu hariannu drwy fentrau fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac mae gostyngiadau neu newidiadau i'r ffrydiau cyllido hyn mewn perygl o leihau argaeledd staff cymorth a rhaglenni sy'n helpu dysgwyr i ail-ymgysylltu ag addysg." LA04 - Awdurdod Lleol Abertawe t. 9

"Mae asesiad Jisc o'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ar draws addysg drydyddol yng Nghymru yn tynnu sylw at risg ddwyieithog ychwanegol. Gall ansicrwydd ynghylch galluogrwydd y Gymraeg mewn offer AI prif ffrwd ac ansicrwydd ynghylch sut dylid dehongli gofynion y Gymraeg yn ymarferol lesteirio mabwysiadu neu arwain at brofiad anwastad i ddysgwyr a staff cyfrwng Cymraeg" RPB01 - Jisc t. 5

"Dylai Llywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu cymorth uniongyrchol fel hyn ar gyfer ehangu darpariaeth drydyddol cyfrwng Cymraeg. Ochr yn ochr â modelau cyllido cyffredinol Medr, credwn fod y buddsoddiad hwn yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg." RPB06 - Comisiynydd y Gymraeg t. 16

"Yn gyffredinol, mae newid demograffig yn debygol o roi mwy o bwysau ar ddarparwyr i gynllunio'n fwy strategol ar draws rhanbarthau, pynciau a dulliau darparu, yn enwedig lle mae cyfranogiad yn dibynnu fwyfwy ar ddysgwyr sy'n oedolion, dysgwyr rhan-amser ac anhraddodiadol yn hytrach na chronfa gynyddol o bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol." RPB08 – Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch t. 8

"Rhwystrau gweinyddol. Mae dysgwyr ag ADY cymhleth a'u teuluoedd yn dweud bod yr wybodaeth a'r arweiniad ar opsiynau ôl-16 yn anghyson ac yn fylchog. Mae ymchwil Natspec ei hun wedi datgelu bod dwy ran o dair o'r rhieni a ymatebodd o'r farn bod ansawdd cyffredinol yr wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a gawson nhw neu eu person ifanc yn wael." TS01 - Natspec t. 4